Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 13/2012

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Paneli Cefnogi Ailsefydlu'r BCI



**Liz Phillips, Robert Smith, Kerry Martin, Palak Mehta, a Ben Durbin. Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg**

Barn y tîm ymchwil a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid dyma o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Robert Willis

Ebost: robert.willis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978 0 7504 7490 0

© Hawlfraint y Goron 2012

## Cynnwys


1. Diolchiadau ........ 1
2. Rhestr o dalfyriadau ac acronymau ........ 2
3. Cefndir ........ 3
   3.1 Y paneli ailsefydlu ........ 3
   3.2 Methodoleg ........ 5
4. Astudiaeth achos 1 ........ 10
   4.1 Y panel ailsefydlu: strwythur a gweithrediad ........ 10
   4.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu ........ 13
   4.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd ........ 15
5. Astudiaeth achos 2 ........ 21
   5.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad ........ 21
   5.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu ........ 28
   5.3 Swyddogaeth adolygu ........ 30
   5.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau ........ 31
   5.5 Cynlluniau ailsefydlu:gwella deilliannau i bobl ifanc ........ 33
   5.6 Dadansoddiad Asset ........ 34
   5.7 Casgliad ........ 38
6. Astudiaeth achos 3 ........ 41
   6. 1 Y panel ailsefydlu: strwythur a gweithrediad ........ 41
   6.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu ........ 43
   6.3 Swyddogaeth adolygu ........ 46
   6.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau ........ 47
   6.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc ........ 48
   6.6 Dadansoddiad Asset ........ 51
   6.7 Casgliad ........ 54
7. Astudiaeth achos 4 ........ 57
   7.1 Y Paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad ........ 57
   7.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu ........ 62
   7.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd ........ 62
   7.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau ........ 62
   7.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc ........ 65
   7.6 Dadansoddiad Asset ........ 67
   7.7 Casgliad ........ 70

8. Astudiaeth achos 5 .......... 73
8.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad .......... 73
8.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu .......... 77
8.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd .......... 79
8.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau .......... 79
8.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc .......... 81
8.6 Dadansoddiad Asset .......... 84
8.7 Casgliad .......... 87
9. Astudiaeth achos 6 .......... 90
9.1 Paneli cefnogi ailsefydlu: strwythur a gweithrediad .......... 90
9.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu .......... 94
9.3 Y corff adolygu .......... 95
9.4 Cynlluniau cefnogi ailsefydlu: ymrwymo adnoddau .......... 95
9.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc .......... 98
9.6 Dadansoddiad Asset .......... 100
9.7 Casgliad .......... 104
10. Crynodeb o'r canfyddiadau: yr holl astudiaethau achos .......... 107
10.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad .......... 107
10.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel .......... 108
10.3 Y gweithwyr ailsefydlu .......... 109
10.4 Y cyrff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd .......... 110
10.5 Ymrwymo adnoddau .......... 111
10.6 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc .......... 111
11. Casgliadau .......... 115
12. Argymhellion .......... 121

# 1. Diolchiadau

Hoffai’r tîm ymchwil NFER Cymru ddiolch i’r holl bersonél strategol a gweithredol a’r bobl ifanc a roddodd o’u hamser i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn.

Dymuna’r tîm ddiolch yn arbennig i’r staff ym mhob un o’r Timau Troseddau Ieuenctid (YOTs) am gydlynu’r ymweliadau astudiaethau achos ac am eu cydweithrediad â darparu’r data meintioli a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad.

Mae diolch hefyd yn ddyledus i Lynzi Jarman o’r BCI am ei chefnogaeth a’i gwaith i alluogi’r prosiect i fynd yn ei flaen yn ddidrafferth.

Mae diolch hefyd i Lowri Randell-Evans, Sagina Khan, Alison Riley a Margaret Parfitt am eu cefnogaeth weinyddol a thechnegol.

## 2. Rhestr o dalfyriadau ac acronymau

ASB: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

ASBO: Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

ASSET: Data Proffil Asesu Troseddwyr Ifanc

AWYOS: Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru-Gyfan

CAF: Fframwaith Asesu Cyffredin

CAMHS: Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

CRB: Swyddfa Cofnodion Troseddol

CSP: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

CYPP: Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

EET: Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

DTO: Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant

IFST: Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig

IOM: Rheoli Troseddwyr Integredig

ISS: Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys

ALl: Awdurdod Lleol

LAC: Plentyn / Plant sy'n Derbyn Gofal

LSCB: Bwrdd Diogelu Plant Lleol

MAPPA: Trefniant Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaeth

MARAC: Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth

NACRO: Cymdeithas Genedlaethol er Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr

NEET: Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant

PPO: Troseddwr Toreithiog a Blaenoriaeth

RSP: Panel Cefnogi Ailsefydlu

TAC: Tîm o Gwmpas y Plentyn

LlCC: Llywodraeth Cynulliad Cymru

YISP: Panel Cynhwysiad a Chefnogi Ieuenctid

YJB: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

YOI: Sefydliad Troseddwyr Ifanc

YOS: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

YOT: Tîm Troseddau Ieuenctid

YRO: Gorchymyn Adfer Ieuenctid

YJS: System Cyfiawnder Ieuenctid

# 3. Cefndir

Ym mis Hydref 2009 comisiynwyd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER Cymru) ar y cyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) ac Adran Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i ymgymryd â gwerthusiad o Gynlluniau Ailsefydlu Peilot y BCI. Cwblhawyd y gwerthusiad ym mis Awst 2011.

## 3.1 Y paneli ailsefydlu

Gwnaeth y BCI gyllid ar gael ym mis Gorffennaf 2009 i alluogi chwe Thîm Troseddau Ieuenctid (YOTs) a ddewiswyd yng Nghymru i ehangu ailsefydlu i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed sy'n gadael caethiwed. Mae'r cyllid hefyd wedi'i anelu at atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i gaethiwed yn y lle cyntaf.

Mae'r cynlluniau ailsefydlu peilot yn ymagwedd newydd tuag at fynd i'r afael â'r materion a wynebir gan bobl ifanc mewn caethiwed. Maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Cyflwyno Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru-gyfan (AWYOS), yn benodol, lleihau aildroseddu a'r defnydd o ddedfryd o gaethiwed, a chynyddu ailsefydlu effeithiol.

Mae rhesymau eraill dros fabwysiadu'r ymagwedd hon, fel yr amlinellwyd yn Arweiniad Peilot Paneli Cefnogi Ailsefydlu BCI-LICC: 2010-2011, fel a ganlyn:

- cost gymharol isel darparu gwasanaeth sydd wedi'i anelu'n bennaf at gydlynu mynediad i adnoddau a rennir
- bodolaeth paneli addas eisoes, fel y Paneli Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid (YISPs), mewn sawl ardal yng Nghymru fyddai'n galluogi defnyddio isadeiledd presennol
- yr angen i bartneriaid fod yn atebol am gyflwyno gwasanaethau i'r rheiny sy'n aml ar yr ymylon ac yn cael eu heithrio
- y rôl hanfodol sydd gan gydlynu amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn atal aildroseddu ar ryddhau.

[Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). Arweiniad Peilot Paneli Cefnogi Ailsefydlu: 2010-2011]

Mae’r arweiniad yn ei wneud yn glir bod y Paneli Cefnogi Ailsefydlu (RSPs) yn agwedd allweddol ar y cynlluniau ailsefydlu peilot. Dylai fod gan RSPs gysylltiadau clir gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol (CYPPs), Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs), Byrddau Diogelu Plant Lleol (LSCBs), a’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Prif amcan yr RSPs yw cydlynu cefnogaeth amlasiantaeth ar gyfer ailsefydlu pobl ifanc drwy fynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau, problemau llety, iechyd meddwl a materion addysg. Mae’r Paneli hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc â chael mynediad i gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, cyfryngu gyda theuluoedd a chyfoedion, ac annog defnydd mwy priodol o amser hamdden. Mae datblygu sgiliau bywyd pobl ifanc, rheoli cyllideb, byw’n iach, a chodi hunanbarch a hyder er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau positif hefyd yn amcanion RSP.

Mae RSPs yn seiliedig ar y cydrannau gweithredol craidd a ganlyn:

- panel amlasiantaeth yn cynnwys swyddogion ag awdurdod digonol er mwyn gallu ymrwymo adnoddau i gynlluniau gweithredu ailsefydlu
- rheolwr gweithredol sy’n atebol am ei gyflwyno
- gweithiwr neu weithwyr cefnogi ailsefydlu sy’n gyfrifol am oruchwylio cynlluniau cefnogi ailsefydlu i bobl ifanc unigol
- lle mae asiantaeth partner yn cyflwyno rhannau o RSP, dylai cytundeb lefel gwasanaeth fod yn ei le, yn cynnwys protocolau rhannu gwybodaeth clir.

[Ffynhonnell: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). Arweiniad Peilot Paneli Cefnogi Ailsefydlu: 2010-2011]

Fel arfer mae RSPs yn cynnwys aelodau o wasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd (yn enwedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yr heddlu, adran dai’r awdurdod lleol, darparwyr tai, ymgynghorwyr gyrfaoedd, personél YOT, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs), a Gwasanaethau Ieuenctid.

Y chwe ALI Cymreig a gymerodd ran yn y gwerthusiad oedd Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili a Blaenau Gwent, Conwy a Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn, Merthyr Tudful a Wrecsam.

Mae'n ofynnol ar yr holl RSPs i adolygu cyflwyno cynlluniau a deilliannau cynlluniau cefnogi ailsefydlu i blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr a Wrecsam, fodd bynnag, swyddogaeth adolygu bellach. Mae hyn yn golygu ei fod yn ofynnol iddynt graffu achosion unigol i bennu a allai cefnogaeth ailsefydlu fod wedi'i chyflwyno'n wahanol i gynnig dewis amgen mwy effeithiol wedi'i leoli yn y gymuned yn hytrach na chyfnod mewn caethiwed.

## 3.2 Methodoleg

Nodau'r gwerthusiad yw cynnal:


Gwerthusiad o broses sy'n archwilio:

- sefydlu a gweithredu'r RSPs yn enwedig o safbwynt 'ymrwymiad' gan asiantaethau partner, a chydweithio
- rôl ac effaith y gweithiwr cefnogi ailsefydlu a'r gweithiwr cefnogi goruchwylio
- rôl ac effeithiolrwydd y corff adolygu, a:

**Gwerthusiad o ddeilliant** i bennu:

- effeithiolrwydd y cynllun wrth wella deilliannau i droseddwyr ifanc
- y graddau y mae partneriaid yn ymrwymo adnoddau i gynlluniau cefnogi ailsefydlu.

Mae argymhellion ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn fwy effeithiol yn seiliedig ar y casgliadau hefyd wedi'u cynnwys.


Cam 1: Cychwyn y gwaith
Cam 2: Casglu a dadansoddi data am bobl ifanc
Oed, rhyw, trosedd(au), pa mor ddifrifol oedd y drosedd, ffactorau yn dylanwadu ar droseddu, anghenion/ anawsterau, risg o drosedd arall
Cam 3: Llunio taflenni holi
Strategol gyda LlC a'r YJB
Aelodau RSP
Gweithwyr cefnogi ail-sefydlu
Rheolwyr YOT a gweithwyr achos
Hyd at bum person ifanc ymhob YOT oedd yn rhan o'r cynllun
Cam 4: Ymweliadau achos
Y cyntaf yn ystod Mai-Gorffennaf 2010, yr ail yn ystod Tachwedd 2010 - Ionawr 2011
Edrych ar y modd y sefydlwyd yr RSP a'r prosiectau peilot, sut oedd pob un yn gweithio, partneriaethau, effaith, a chyfraniad y gweithwyr cefnogi ailsefydlu.
Cam 5: Dadansoddi ac adrodd
Casglu a dadansoddi data
Cyflwyno adroddiad terfynol a chrynodeb
Cyflwyniad i'r grŵp ymgynghorol

Mabwysiadodd y SCYA fethodoleg gymysg er mwyn cyflawni amcanion y gwerthusiad. Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn pum cam ar wahân ategol, yr ymgymerwyd â rhai ohonynt ar y cyd.

Cam un oedd rhoi cychwyn ar y prosiect.

Yng Ngham dau, casglodd a dadansoddodd y tîm ymchwil ddata Asset meintiol (Proffil Asesu Troseddwyr Ifanc) ar y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot. Cesglir y data hwn gan YOTs a YOIs ar yr holl droseddwyr ifanc. Mae data Asset yn cynnwys gwybodaeth am oed, rhyw, trosedd(au), ffactorau neu amgylchiadau person ifanc a allai fod wedi cyfrannau at eu hymddygiad troseddol, eu hanghenion neu anawsterau penodol, a'r risg o aildroseddu. Cymharwyd y bobl ifanc hynny a dderbyniodd ddedfryd o gaethiwed yn y chwe ardal beilot yn ystod y flwyddyn cyn y cynllun peilot â'r rheiny a oeddent neu y maent yn rhan o'r cynllun.

Yng Ngham tri y gwerthusiad, dyluniwyd pum canllaw pwnc dwyieithog ar gyfer y casglu data ansoddol a chawsant eu cynllunio i'w defnyddio mewn cyfweliadau gyda:

- Personél strategol LlCC a BCI
- Aelodau'r RSPs
- Gweithwyr cefnogi ailsefydlu
- Rheolwyr a gweithwyr achos YOT
- Hyd at bum person ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau peilot ym mhob ardal.

Yng Ngham pedwar, bu ymchwilwyr y SCYA yn ymweld â phob ardal beilot ddwywaith, unwaith yn ystod Mai-Gorffennaf 2010, ac eto yn ystod Tachwedd 2010-Ionawr 2011, i gyfweld â'r bobl hyn.

Yn ystod yr ymweliad cyntaf, archwiliodd y cyfweliadau y prosesau ynghlwm wrth sefydlu'r RSPs, eu cyfansoddiad, a'r rhesymwaith y tu ôl i'r cynlluniau

peilot. At hynny, archwiliwyd effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth yn yr ardal cyn ac ar ôl sefydlu'r RSPs. Ystyriodd y SCYA hefyd effeithiau ymddangosol y cynlluniau peilot a'r RSPs, ynghyd â rôl ac effaith y gweithwyr cefnogi ailsefydlu.

Yn ystod yr ail ymweliad, canolbwyntiodd y tîm ymchwil yn fwy ar gynnydd yr RSPs a'r cynlluniau peilot wrth wella deilliannau i bobl ifanc. Archwiliwyd unrhyw newidiadau i'r ymagweddau a fabwysiadwyd ym mhob ardal ac effaith y cynlluniau peilot, yn cynnwys sut y gwnaethant newid dros amser.

Gofynnwyd i'r bobl ifanc am y gwaith ailsefydlu o safbwynt yr hyn oedd wedi cael ei wneud, eu barn amdano, a'i effaith(effeithiau) ar eu:

- hymddygiad troseddol
- statws llety
- defnydd o gyffuriau ac alcohol
- ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- darganfod diddordebau newydd, mwy positif
- teulu a ffrindiau
- hunanbarch
- teimladau am eu troseddu.

Defnyddiwyd dadansoddiad o sgoriau Asset fel rhan o werthusiad y deilliannau. Mae Asset yn fformat cenedlaethol y mae'r BCI yn disgwyl i YOTs ei ddefnyddio pan yn gweithio gyda phobl ifanc. Caiff y bobl ifanc eu hasesu er mwyn nodi'r tebygrwydd y byddant yn aildroseddu. Mae hyn ar sail 12 ffactor 'deinamig' sy'n effeithio ar ymddygiad troseddol a phedwar ffactor 'statig'. Mae sgôr Asset isel yn awgrymu tebygrwydd is o aildroseddu.

Darparwyd data gan bump o'r chwe ardal ar bobl ifanc y maent wedi cael cyswllt â hwy. Roedd y data a dderbyniwyd yn amrywio rhwng ardaloedd ond yn gyffredinol roedd yn cwmpasu troseddau a gyflawnwyd; cyfranogiad yn y rhaglen; sgoriau Asset; nodweddion cefndir fel oed, rhyw ac ethnigrwydd; a pheth gwybodaeth am orfodaeth.

I grynhoi, yr ymagwedd oedd:

1. Nodi pobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, a disgrifio eu nodweddion cyn-ymyrraeth yn defnyddio'r data oedd ar gael (yn canolbwyntio ar feysydd lle y pennwyd bod y data yn weddol ddibynadwy a chyflawn).

2. Nodi grŵp cymhariaeth o bobl ifanc oedd yn rhannu nodweddion tebyg ond na wnaethant gymryd rhan yn y rhaglen. Er mwyn sicrhau nad oedd y dadansoddiad yn rhagfarnllyd oherwydd nodweddion nad oeddent wedi'u nodi y gallent fod wedi dylanwadu ar gyfranogiad yn y cynllun a deilliannau o ddiddordeb, ni ddylai'r bobl ifanc yn y grŵp cymhariaeth fod wedi cael y cyfle i gymryd rhan.[1].

3. Cymharu deilliannau ôl-ymyrraeth - wedi'i ddiffinio fel y cyfnod o flwyddyn yn dechrau y mis ar ôl dyddiad dechrau'r ymyrraeth - ar draws y ddau grŵp o bobl ifanc.

Yn ymarferol, roedd rhai heriau wrth weithredu'r ymagwedd hon. Roedd niferoedd isel o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y cynllun, ac roedd swm y data oedd ar goll yn sylweddol. Defnyddiodd y dadansoddiad felly ddau grŵp cymhariaeth, gan gydbwyso gofynion cystadleuol 'ansawdd' a 'swm' y data:

- grŵp cymhariaeth craidd yn rhannu nodweddion tebyg o safbwynt nifer y troseddau a gyflawnwyd, uchafswm difrifoldeb y drosedd a sgoriau Asset cyfartalog
- grŵp cymhariaeth estynedig oedd yn debyg i'r grŵp cymhariaeth craidd yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac oed.

Yn ystod Cam 5 y prosiect, casglodd a dadansoddid y tîm ymchwil yr holl ddata gwerthuso. Yna cynhyrchwyd Adroddiad Terfynol a chrynodeb gweithredol, a rhoddwyd cyflwyniad o'r canfyddiadau i grŵp llywio'r prosiect.

[1] Yn ymarferol cyflawnwyd hwn drwy ddiffinio dyddiad dechrau ymyrraeth ffug blwyddyn cyn dyddiad dechrau gwirioneddol y rhaglen ailsefydlu ym mhob ardal. At ddibenion cymharu ag achosion o gymryd rhan mewn rhaglenni, mesuruwyd nodweddion "cyn-ymyrraeth" pobl ifanc cyn y dyddiad hwn, a'u nodweddion "ôl-ymyrraeth" ar ei ôl.

# 4. Astudiaeth achos 1

Cwmpasodd y peilot hwn ardal o fewn dau awdurdod lleol (ALlau). Aeth y tîm ymchwil i ymweld â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) ym mis Gorffennaf 2010 ac eto ym mis Rhagfyr 2010. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda staff strategol a gweithredol YOT yn ystod y ddau ymweliad. Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gyda phobl ifanc yn ystod yr ail ymweliad yn unig.

## 4.1 Y panel ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

### 4.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel

Diffiniodd yr ymatebwyr brif nod y cynllun ailsefydlu peilot fel cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i'r gwasanaethau oedd eu hangen arnynt. Er mwyn cyflawni hyn, defnyddiwyd yr RSP i gynnal trafodaethau rhwng staff o wahanol asiantaethau cefnogi. Esboniodd un ymatebydd hyn yn y ffordd a ganlyn: "Mae'n fater o ddarparu'r gefnogaeth ymlaen llaw. Mae gennym nifer bach o bobl ifanc nad yw llawer o bobl yn ystyried [darparu gwasanaethau ar eu cyfer] ac mae hyn yn ffordd i amlygu eu hanghenion a sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r math o gefnogaeth sydd eu hangen arnynt."

Adeiladodd y gwaith ailsefydlu ar weithio partneriaeth effeithiol oedd eisoes yn ei le, yn cynnwys cysylltiadau rhwng yr YOT, asiantaethau tai a darparwyr addysg a hyfforddiant. Ni theimlwyd bod y ffaith fod yr RSP yn cwmpasu dau awdurdod lleol wedi lleihau ei effeithiolrwydd, yn bennaf oherwydd hanes y cydweithio rhwng rhai o'r asiantaethau dan sylw. Adroddwyd bod gallu cyfyngedig yn effeithio ar ymgysylltiad rhai rhanddeiliaid gyda gwaith ailsefydlu, yn hytrach na'u parodrwydd i ymgysylltu.

Penderfynwyd peidio â sefydlu panel ailsefydlu annibynnol yn ardal YOT 1 gan y teimlwyd y gallai hyn ddyblygu gwaith oedd yn cael ei wneud eisoes. O ganlyniad, trafodwyd ailsefydlu pobl ifanc mewn panel presennol oedd yn cwrdd yn fisol i ystyried Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Ddwys (ISS), caethiwo ac achosion ailsefydlu.

Diffiniwyd swyddogaeth y panel gan y rhai a gafodd gyfweliad fel:

- Gwerthuso prosesau rheoli achosion a ffurfio cynlluniau cefnogi ailsefydlu effeithiol ar sail amlasiantaeth ac annibynnol
- Cysylltu prosesau er mwyn monitro risg pobl ifanc o niwed, bod yn hawdd eu niweidio a'r tebygrwydd o aildroseddu
- Casglu, ystyried a thrafod gwybodaeth am bobl ifanc ar sail amlasiantaeth i hysbysu cynlluniau rhyddhau a'r broses ailsefydlu
- Cysylltu â phrosesau adolygu caethiwed, yn benodol wrth gynllunio ar gyfer y dyddiad rhyddhau terfynol.

Er bod cymryd rhan yn y cynllun ailsefydlu peilot yn wirfoddol, roedd staff yn gweithredu ar y dybiaeth y byddai pobl ifanc yn cymryd rhan. Sylw nodweddiadol a amlinellodd y rhesymwaith hwn oedd, 'Nid optio i mewn ydyw, ond optio allan."

Roedd yr unigolion a'r asiantaethau a ganlyn yn rhan o'r RSP:

- Rheolwr gweithredol YOT
- Rheolwr atal YOT
- Swyddog addysg YOT
- Cynrychiolwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Swyddog yr heddlu
- Staff y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau
- Cynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd aelodau yn cael enwebu dirprwyon i fynychu cyfarfodydd y panel ar eu rhan. Gwahoddwyd asiantaethau eraill i fynychu i drafod achos penodol os yn briodol.

Roedd presenoldeb afreolaidd rhai aelodau'r panel yn ychwanegu at waith staff YOT oherwydd roedd rhaid iddynt ddilyn i fyny ar benderfyniadau a thrafodaethau gyda'r asiantaethau hynny nad oedd eu cynrychiolwyr yn bresennol. Priodolodd staff YOT ac aelodau'r panel yr absenoldebau hyn i faterion llwyth gwaith.

Cyfeiriwyd pobl ifanc oedd yn gadael caethiwed neu mewn risg o ddedfryd o gaethiwed at y panel drwy dimau amlasiantaeth. Ystyriwyd pa mor hawdd eu niweidio oeddent a'r risg o niwed yr oeddent yn peri iddyn nhw'u hunain ac eraill gan y panel. Cafodd cynlluniau cefnogi ailsefydlu a threfniadau ar gyfer goruchwylio hefyd eu rhoi yn eu lle yn ystod cyfarfodydd y panel.

Cadeiriwyd y panel gan gyn reolwr gwasanaethau cymdeithasol oedd yn cael ei barchu fel ffigur diduedd ac awdurdodol. Darparodd yr YOT y gwasanaeth ysgrifenyddol ar gyfer y panel. Yn wreiddiol, roedd rôl y cadeirydd wedi'i gyfyngu i ddarllen adroddiadau a chadeirio cyfarfodydd RSP. Fodd bynnag, yn ystod y prosiect peilot, cymerodd y cadeirydd ran lawnach wrth arwain y gwaith ailsefydlu a chyfrannu at drafodaethau achosion unigol.

Roedd aelodau'n teimlo bod y panel yn gweithio'n dda, gan ei fod yn cynnig cyfle i ystod eang o randdeiliaid gwrdd a thrafod achosion unigol o nifer o wahanol safbwyntiau. Roeddent yn teimlo fod gan y rheiny oedd yn mynychu cyfarfodydd cyntaf y panel ddigon o awdurdod i ymrwymo adnoddau lle roedd angen gwneud hynny. Yn ystod yr ail ymweliad astudiaeth achos fodd bynnag, nodwyd nad oedd gan y rheiny oedd yn bresennol awdurdod o'r fath.

### 4.1.2 Gweithredu ac effeithiolrwydd y panel

Roedd aelodau'r panel yn credu bod yr RSP wedi annog llai o waith'silo' ymysg yr asiantaethau oedd yn bresennol. Priodolwyd hyn i ymrwymiad a gwaith rhanddeiliaid yn y maes yn hytrach nag effaith y panel fel y cyfryw. Nid oedd gweithio silo wedi diflannu yn llwyr, fodd bynnag gan fod y rheiny gafodd eu cyfweld yn teimlo bod angen darbwyllo rhai pobl o hyd fod yr RSP yn ymgymryd â gwaith o werth gwirioneddol i'r bobl ifanc dan sylw.

Cwestiynodd sawl aelod o'r panel yr angen am y panel, ar y sail ei fod yn dyblygu gwaith arall. Dywedasant fod llawer o'r bobl ifanc gafodd eu trafod yn yr RSP yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd eraill hefyd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r RSP fod yn gyfrifoldeb i'r YOT, a bod y diffyg ymgysylltu gan ran asiantaethau allanol yn adlewyrchu'r teimlad

hwn. Roeddent hefyd yn pryderu fod camau a gytunwyd gan y panel nad oeddent yn cael eu cyflawni. Gwnaeth aelod o'r panel y sylw canlynol a bwysleisiodd y diffyg effaith yr oedd y panel yn ei chael ar wella ailsefydlu pobl ifanc; "Nid yw'r byd yn wahanol iawn oherwydd y panel hwn. Efallai y byddai pethau yn llai strwythuredig ac yn llai ffurfiol hebddo. Efallai na fyddai'r asiantaethau eraill wedi cael y darlun cyfan ar adeg yr asesiad risg ond nid cyfrifoldeb y panel oedd ansawdd y gwaith".

Diwygiodd yr YOT weithrediad y panel mewn sawl ffordd yn ystod y gwerthusiad. Yn gyntaf, newidiwyd fformat yr adroddiadau a baratowyd ar gyfer y panel, er mwyn canolbwyntio mwy ar risg a pha mor hawdd eu niweidio oedd y bobl ifanc. Yn gynyddol cyfeiriwyd llai o bobl ifanc at y panel. Nod y penderfyniad i ystyried llai o bobl ifanc oedd blaenoriaethu'r rheiny â'r angen mwyaf am gefnogaeth ailsefydlu. Credodd aelodau'r panel fod hyn yn gwella ansawdd y cynlluniau cefnogi ailsefydlu. Dywedasant hefyd ei fod wedi arwain at ymagwedd fwy cydlynus oedd yn ystyried yr ystod gyfan o faterion oedd yn effeithio ar bobl ifanc, fel llety, addysg a lles. Fel y dywedodd un aelod o'r panel, "Aethon ni drwy nifer fawr o achosion, ond nid bob amser i'r lefel o fanylder yr oedd ei hangen. Nawr rydym â mwy o ffocws, gan edrych ar beth yw'r achosion blaenoriaeth a rhoi mwy o sylw iddyn nhw".

Newid pellach i weithrediad y panel oedd y byddai unrhyw berson ifanc oedd eisoes mewn caethiwed, eisoes yn ymgymryd â gwaith ailsefydlu, neu y pennir gan yr asiantaethau perthnasol eu bod yn risg uchel neu mewn perygl uchel o gael eu niweidio, yn cael eu cyfeirio at y panel yn awtomatig. Roedd hyn oherwydd dyblygu sylweddol rhwng y grwpiau hyn.

## 4.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn ganolog i lwyddiant y cynllun peilot. Credodd ymatebwyr fod angen i'r person ifanc adnabod y gweithiwr cefnogi ailsefydlu a dylent sefydlu perthynas gyda hwy yn gynnar yn y broses. Dylai'r gweithiwr hefyd gynnal cysylltiad gydag asiantaethau fel tai a ETE i sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu cwrdd yn llawn. Fel y nododd un

ymatebydd, “Ni ddylai ymwneud â dyblygu, ond yn hytrach sicrhau bod yr hyn y mae ei angen ar bobl ifanc ar gael, a bod ganddynt yr hyn sydd ei angen arnynt i symud ymlaen ar ddiwedd eu dedfryd.”

Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod rôl y gweithiwr ailsefydlu yn darparu:

- cyswllt ychwanegol ar ben hynny a ddarparwyd gan y rheolwr achos
- monitro anffurfiol i nodi problemau a bylchau mewn cynlluniau cefnogi ailsefydlu
- cyswllt rhwng gwaith ailsefydlu a’r rheolwr achos
- eiriolaeth a chefnogaeth i’r bobl ifanc
- ffordd o gyfeirio pobl ifanc i wasanaethau a’u helpu i gael mynediad iddynt.

Yn ogystal â rôl y gweithiwr ailsefydlu, roedd gan aelod o staff a secondiwyd o Gyrfa Cymru rôl ganolog yn y cynllun ailsefydlu. Ffocws eu gwaith oedd ar gysylltu â darparwyr ETE i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc sy’n cymryd rhan. Archwiliodd swydd Gyrfa Cymru anghenion cefnogi’r bobl ifanc hefyd wrth gael mynediad i ddarpariaeth ETE, a sicrhau bod ganddynt fynediad i wybodaeth am yr opsiynau ETE oedd yn agored iddynt.

Aeth y gweithiwr ailsefydlu, ynghyd â swyddog Gyrfa Cymru, i ymweld â lleoliadau caethiwed i gwrdd â’r bobl ifanc rhwng chwech ac wyth wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau. Roedd hyn er mwyn sefydlu perthynas gyda hwy ac i nodi eu hanghenion ETE. Gweithiodd y ddau swyddog hefyd gyda phobl ifanc ar y cynllun ailsefydlu nad oeddent wedi derbyn dedfryd o gaethiwed, i sicrhau bod eu hanghenion ETE yn cael eu cwrdd.

Roedd y gweithiwr ailsefydlu yn ymdrin yn bennaf gyda materion llety a wynebwyd gan bobl ifanc sy’n gadael caethiwed. Gwnaed hyn drwy gyfeirio’r bobl ifanc at asiantaethau llety a monitro’r gwasanaeth a’r gefnogaeth y gwnaethant ei dderbyn, i sicrhau ei fod yn briodol ac yn ddigonol.

Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod nifer y bobl ifanc a ymgysylltodd â’r cynllun ailsefydlu yn siomedig. Roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi ei chael

yn anodd gwneud a chadw cysylltiad â'r bobl ifanc ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, er gwaethaf ymdrechion dros gyfnod hir i wneud hynny. Nododd y rhai gafodd gyfweliad hefyd fod y gweithiwr ailsefydlu wedi gwneud y cysylltiadau bron i gyd, yn hytrach na'r bobl ifanc eu hunain. Dywedodd un ymatebydd, "Rydym wedi ceisio cynnal y cysylltiadau a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gynnig, ond roedd y nifer oedd am gymryd rhan yn siomedig. Mae llawer o ymdrech yn cael ei rhoi i mewn iddo ond yn aml iawn yr unig gyswllt sy'n  cael ei wneud yw hynny a wnaed gan y staff ailsefydlu". Mae hyn yn pwysleisio heriau ymgysylltu â'r bobl ifanc a'r angen i'r rheiny sy'n gyfrifol fod yn rhagweithiol yn barhaus i hybu ymgysylltiad.

O ganlyniad, o fis Awst 2010, dechreuwyd  ar y gweithgareddau ailsefydlu ar bwynt yr Adolygiad Cyn-Dedfrydu (PSR). Roedd hyn lawer yn gynharach nac ar ddechrau'r cynllun peilot. Ers hynny, mae'r gweithiwr ailsefydlu wedi hebrwng y gweithwyr achos YOT i bob cyfarfod PSR i gynnig cefnogaeth i'r bobl ifanc cyn iddynt fynd i'r llys.  Roedd y ffaith fod y person ifanc wedi ymgysylltu â'r cynllun ailsefydlu yn cael ei nodi yn y gwrandawiad cyn-dedfrydu.

Fodd bynnag, nid oedd y newid hwn wedi annog mwy o bobl ifanc i ymgysylltu â'r gwaith ailsefydlu, er bod llawer ohonynt mewn perygl o dderbyn dedfryd o gaethiwed. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn siomedig am hyn, fel y dangoswyd gan y sylw a ganlyn: "Mae'r berthynas yn cael ei dechrau lawer yn gynharach ond rydym yn dal i fod ymhell o gael y nifer yn cymryd rhan y byddem yn dymuno … y cryfder yw bod y model hwn yn fwy tebygol o lwyddo na'r hyn oedd yn ei le yn flaenorol".

## 4.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd

Nid oedd gan YOT 1 swyddogaeth adolygu bellach. Yn hytrach, adolygodd YOT 1 y cynllun ailsefydlu peilot a'r gwaith ailsefydlu a ymgymerwyd drwyddo mewn dwy brif ffordd.

Yn gyntaf, archwiliodd staff YOT y gwaith ailsefydlu a gyflwynwyd drwy'r cynllun peilot yn fewnol yn 2009 yng ngoleuni'r heriau a wynebwyd drwy ymgysylltu â phobl ifanc. Ymgymerodd YOT 1 hefyd ag asesiad o effeithiolrwydd yr RSP wedi'i fesur yn erbyn set o feini prawf allweddol. Anfonwyd adroddiad o'r canfyddiadau o'r adolygiad diwethaf i'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB) a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP).

Roedd hyn wedi esgor ar y newidiadau canlynol, oedd wedi'u cyflwyno erbyn Hydref 2010:

- Daeth cadeirydd yr RSP yn fwy gweithgar wrth gynllunio'r gwaith ailsefydlu a chyfrannu at drafodaethau achos unigol
- Newid fformat adroddiadau ar bobl ifanc a drafodwyd yn yr RSP i ganolbwyntio mwy ar risg a pha mor hawdd eu niweidio ydynt
- Cyfeirio llai o bobl ifanc i'r RSP i flaenoriaethu'r rheiny yn yr angen mwyaf
- Cyfeirio pobl ifanc oedd eisoes mewn caethiwed, a'r rheiny oedd yn risg uchel neu'n hawdd iawn eu niweidio, i'r panel yn awtomatig.

Mae effaith y newidiadau hyn yn destun gwerthusiad pellach.

### 4.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

Defnyddiodd YOT 1 y cyllid ailsefydlu i ddatblygu gwaith y panel ailsefydlu a phenodi gweithiwr ailsefydlu rhan amser. Byddai rhan fwyaf y cyllid ar gyfer y gwasanaethau oedd eu hangen ar gyfer y gwaith ailsefydlu effeithiol oedd i'w wneud yn cael ei ymrwymo gan y darparwyr gwasanaeth dan sylw.

Roedd aelodau'r panel yn credu bod yr asiantaethau a gynrychiolwyd ar y panel wedi cyfrannu'r adnoddau gofynnol. Roeddent yn meddwl bod hyn o ganlyniad i'w cydnabyddiaeth o'r ffaith fod y bobl ifanc yn hawdd eu niweidio ac i ymrwymiad a rennir i gwrdd â'u hanghenion. Nid oedd gan y panel bwerau statudol, fodd bynnag, ac roedd yn dibynnu felly ar ewyllys da ac arfer da ei aelodau. Roedd rhai aelodau yn teimlo na ddylai'r RSP ofyn i'w aelodau ymrwymo adnoddau ychwanegol gan y dylai'r rhain fod ar gael beth bynnag, pe byddai'r angen yn codi. Yn hytrach na chaffael adnoddau, roeddent yn meddwl y dylai rôl y panel ymwneud â chaffael gwell cydlyniad, ac i hysbysu penderfyniadau ynghylch ailsefydlu pobl ifanc.

## 4.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad fod y cynllun peilot wedi helpu i gynyddu effeithiolrwydd ailsefydlu pobl ifanc, a gwella ansawdd y gwaith ailsefydlu a wnaed gan YOT 1. Roedd yr RSP wedi ychwanegu cydlyniad i ailsefydlu a chynyddu cyswllt pobl ifanc â'r gwasanaethau a'r gefnogaeth oedd ar gael. Roedd gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng aelodau'r panel a chyfeirio'r bobl ifanc yn fwy effeithiol i'r gwasanaethau cefnogi perthnasol yn sail i hyn, fel y mae'r sylw a ganlyn yn dangos

> "Nid ydym fwy na thebyg yn gwneud unrhyw beth yn wahanol iawn, mae'n ymwneud mwy â cheisio meddwl yn fwy cydlynus ac amlygu achosion o angen i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol".

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, roedd nifer y bobl ifanc oedd yn ymgysylltu â'r gwasanaeth yn is na'r bwriad. Priodolwyd hyn i deimlad nad oedd y bobl ifanc am gael eu cysylltu â'r YOT ar ôl i'w gorchmynion ddod i ben. Yn ôl un ymatebydd, "Y broblem yr ydym yn ei hwynebu … yw bod llawer o'r bobl ifanc hyn yn cysylltu'r YOT a'r staff sy'n gweithio ynddo gyda rhan o'r ddedfryd, rhywbeth y mae'n ofynnol arnynt ei wneud …. Mae llawer ohonynt yn dymuno cael dim cyswllt ag ef o gwbl ar ôl i'w gorchmynion ddod i ben."

Roedd yr unigolion oedd yn cyflwyno'r gwaith ailsefydlu yn pwyntio at y manteision positif yr oedd wedi arwain atynt i'r nifer bach o bobl ifanc yr oedd wedi ymgysylltu â'r gwaith. Oni bai am y cynllun peilot, ni fyddai'r gefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y gweithiwr ailsefydlu wedi bod yn bosib. "Gwerth ychwanegol ydyw, rhywbeth sydd yno i'w helpu a'u cefnogi",oedd sut y cafodd ei ddisgrifio gan un ymatebydd. Roedd rôl y gweithiwr ailsefydlu hefyd wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod asiantaethau perthnasol yn ymateb i anghenion y bobl ifanc. At hynny, ystyriwyd bod swyddog Gyrfa Cymru wedi helpu'r gwaith ailsefydlu drwy sicrhau bod darpariaeth ETE yn ei lle, pan gawsant eu rhyddhau o gaethiwed. Agwedd allweddol ar hyn oedd ei bresenoldeb mewn fforwm ETE lleol. Roedd hyn yn caniatáu trafodaeth am anghenion pobl ifanc cyn iddynt ymgysylltu ag unrhyw ddarpariaeth.

Roedd personél YOT ac aelodau'r panel yn meddwl bod gwaith ailsefydlu wedi dylanwadu ar agweddau'r bobl ifanc tuag at ailsefydlu. Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhanddeiliaid hyn mai ei gyfraniad oedd un o lawer o ffactorau oedd yn effeithio ar hyn.

Roedd rhanddeiliaid yn credu ei fod yn anodd priodoli unrhyw newidiadau mewn camddefnyddio sylweddau i'r gwaith ymyrraeth a wnaed drwy'r cynllun ailsefydlu. Tra bod gwaith ailsefydlu yn gallu cyfeirio person ifanc at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, roedd y deilliannau yn dibynnu ar a oedd person ifanc yn dewis ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny.

Dywedwyd bod y ffaith fod y gweithiwr ailsefydlu yn gallu parhau i weithio gyda'r bobl ifanc ar ôl i'w dedfrydau ddod i ben wedi cael effaith bositif ar y cynllun peilot oherwydd yr oedd yn eu helpu i ymdrin â materion oedd yn codi ar adeg hollbwysig yn eu bywydau pan oeddent yn arbennig o hawdd eu niweidio. Roedd rhai gafodd gyfweliad yn teimlo fod y cynllun peilot wedi cryfhau strategaethau ymadael i'r rheiny oedd yn gadael y system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nid barn gyffredinol oedd hon, o ystyried bod rhai pobl ifanc yn awyddus i ddod â'u hymwneud â'r YOT i ben cyn gynted â phosib.

Cafodd ei gydnabod mai nad y gefnogaeth ailsefydlu a ddarparwyd drwy'r cynllun oedd yr unig ffactor yn dylanwadu ar aildroseddu. Er enghraifft, nodwyd bod yr heddlu lleol yn fwy tebygol i ddefnyddio dirwyon yn y fan a'r lle, yn hytrach na mynd â phobl ifanc i'r llys, a chafodd hyn effaith fawr ar leihau'r lefel o droseddau yr adroddwyd amdanynt yn yr ardal.

## 4.6 Dadansoddiad Asset

Nid oedd yn bosib cael data Asset gan YOT 1 mewn pryd ar gyfer y gwerthusiad.

## 4.7 Casgliad

Roedd y dystiolaeth gan YOT 1 yn pwysleisio'r angen i faterion ailsefydlu pobl ifanc gael eu trin gan unigolion ag awdurdod digonol i allu gwneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau i gwrdd â'u hanghenion.
Roedd y ffaith fod gwaith y corff oedd yn gyfrifol am ailsefydlu wedi cael ei adolygu wedi sicrhau bod rhai materion allweddol ynghylch gwaith y panel wedi derbyn sylw. Daeth yr angen i adolygu'r ffordd y mae gwaith ailsefydlu yn cael ei drin yn systematig ac yn rheolaidd yn amlwg. Roedd ychwanegu'r cyfrifoldeb am ailsefydlu i gorff oedd eisoes yn bodoli yn effeithiol yn yr achos hwn ac yn osgoi creu corff ychwanegol.

Cyfrannodd y gweithiwr ailsefydlu drwy ddarparu cefnogaeth unigol, un i un, yn cynnwys cysylltiadau penodol gyda darparwyr addysg a hyfforddiant. Roedd y gwaith ymarferol o weithredu ar ran y bobl ifanc yn dangos y ffordd i wasanaethau, a sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn ymateb i anghenion yn ganolog, er mwyn i'r rôl fod o fudd i'r bobl ifanc. Er mwyn i'r ymagwedd hon weithio roedd angen i'r gweithiwr ailsefydlu sefydlu perthnasoedd yn gynnar.

Cafodd yr angen i fwyafu nifer y bobl ifanc oedd yn derbyn y gefnogaeth ei gydnabod a byddai'r niferoedd cymharol isel oedd yn ymgysylltu yn awgrymu bod angen mwy o waith i ddarbwyllo pobl ifanc am werth cefnogaeth ailsefydlu.

Roedd yr angen i hyrwyddo gwaith amlasiantaeth yn rhywbeth ddaeth yn amlwg er nad oedd hyn wedi'i gyfyngu i waith ailsefydlu. Roedd angen hefyd i rannu arfer da ar draws ALlau o ystyried y ffaith fod y lefel o ymgysylltu gan ALlau unigol (a gwasanaethau penodol oddi mewn iddynt) yn amrywio.

**Canfyddiadau allweddol: YOT 1**

**Yr RSP: strwythur a gweithrediad**

Cefnogodd y cynllun ailsefydlu peilot yn YOT 1 bobl ifanc i gael mynediad i'r gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Defnyddiodd YOT 1 banel oedd yn bodoli eisoes i drafod ailsefydlu pobl ifanc. Roedd hyn yn gweithio'n dda, ond roedd diffyg awdurdod gan rai aelodau i wneud penderfyniadau. Roedd rhai aelodau a fynychodd yn llai aml nac eraill yn teimlo y dylai ailsefydlu pobl ifanc barhau yn gyfrifoldeb yr YOT. Anogodd y panel gydweithio rhwng asiantaethau, fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei fod yn dyblygu gwaith presennol.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Roedd rôl y gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn ganolog i lwyddiant y cynllun peilot. Roeddent yn cefnogi ac yn monitro pobl ifanc; yn rhoi eiriolaeth a chefnogaeth iddynt; yn darparu cyswllt rhwng gwaith ailsefydlu a'r rheolwr achos; ac yn cyfeirio pobl ifanc at wasanaethau. Ymgysylltodd y gweithiwr â phobl ifanc ar bwynt yr Adolygiad Cyn-Dedfrydu (PSR). Roedd hyn yn helpu adeiladu perthnasoedd gyda hwy. Teimlodd ymatebwyr fod niferoedd y bobl ifanc oedd yn ymgysylltu â'r cynllun peilot yn siomedig, er gwaethaf ymdrechion parhaus y gweithiwr cefnogi ailsefydlu.

**Y corff adolygu**

Ni wnaeth YOT 1 gynnal adolygiadau dwys o ymyraethau ar bobl ifanc unigol. Adolygodd staff YOT waith yr RSP yn fewnol, ac adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB). Arweiniodd yr adolygiadau i newidiadau yn rôl y gweithiwr ailsefydlu a rôl cadeirydd yr RSP, fformat yr adroddiad, a'r nifer a dderbyniwyd gan y panel ac y cyfeiriwyd ato.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Defnyddiodd YOT 1 y cyllid ailsefydlu i ddatblygu gwaith y panel ac i benodi'r gweithiwr cefnogi ailsefydlu. Teimlodd ymatebwyr fod yr asiantaethau wedi ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Roedd troseddu wedi lleihau ymysg pobl ifanc dros gyfnod y cynllun peilot, er nad oedd yn bosib priodoli hyn yn uniongyrchol i'r gwaith ailsefydlu a gefnogwyd ganddo. Roedd y cynllun peilot wedi gwella effeithiolrwydd, cydlyniad ac ansawdd ailsefydlu pobl ifanc, yn ôl y rhai gafodd gyfweliad. Roedd y cyllid wedi ychwanegu gwerth i'r gefnogaeth ailsefydlu a ddarparwyd.

# 5. Astudiaeth achos 2

Aethpwyd i ymweld yn wreiddiol â Thîm Troseddau Ieuenctid (YOT) 2 ym mis Mehefin 2010, ac eto ym mis Tachwedd 2010. Roedd y Panel Cefnogi Ailsefydlu (RSP) yn gwbl weithredol yn ystod y ddau ymweliad. Cafodd aelodau RSP, staff YOT a phobl ifanc eu cyfweld yn ystod y ddau ymweliad.

## 5.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

Ysgogodd pryderon am nifer y bobl ifanc a gafodd ddedfryd o gaethiwed a'u cadw mewn caethiwed yn yr ardal astudiaeth achos hon yr angen am fwy o ffocws ar gefnogaeth ailsefydlu. Er gwaethaf hanes o weithio mewn partneriaeth effeithiol yn yr awdurdod, roedd angen ymagwedd fwy cydlynus er mwyn darparu gwell pecyn o gefnogaeth i bobl ifanc. Gan ddefnyddio cyllid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI), arweiniodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) ar ddatblygu panel ailsefydlu amlasiantaeth a phenodi gweithiwr cefnogi ailsefydlu ym mis Medi 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ym mis Hydref 2009 a pharhaodd i gwrdd yn rheolaidd[2] dros gyfnod y peilot.

Nodau ac amcanion RSP YOT 2 yw:

- datblygu dealltwriaeth a meincnodi a rennir ar gyfer arfer da o ran ailsefydlu a gwneud penderfyniadau ynghylch dedfrydau caethiwed a remand amlasiantaeth
- nodi darpariaeth a allai leihau'r defnydd o gaethiwed
- nodi a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a allai oedi rhyddhau person ifanc o gaethiwed
- cynyddu cydweithio amlasiantaeth i oresgyn unrhyw fylchau mewn darpariaeth ac osgoi remandio i gaethiwed neu ddedfrydau o gaethiwed posib.

Gan grynhoi nodau'r panel, dywedodd un partner sy'n aelod:

[2] Cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfarfod rhwng Hydref 2009 a Rhagfyr 2010.

> “Rwy’n credu ei fod yn ymwneud â cheisio dod ynghyd i ragweld unrhyw broblemau a chlirio unrhyw rwystrau a allai beryglu ailsefydlu person ifanc yn llwyddiannus”.

### 5.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel

Roedd yr RSP yn cwrdd yn chwarterol yn adeilad yr YOT. Roedd y cyfarfodydd yn annibynnol ac nid yn rhan o unrhyw ddigwyddiadau eraill a drefnwyd. Yr YOT oedd yn gyfrifol am drefnu a gweinyddu cyfarfodydd y panel. Cadeiriodd pennaeth yr YOT y sesiwn a chymryd y cofnodion. Roedd cyfarfodydd fel arfer yn para am ddwy awr ac yn dilyn fformat safonol. Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a dilynwyd i fyny ar bwyntiau gweithredu. Yna cyflwynodd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu adroddiad yn cwmpasu’r eitemau a ganlyn:

- pobl ifanc a gafodd ddedfryd o gaethiwed (ers y cyfarfod diwethaf)
- pobl ifanc a gadwyd mewn caethiwed neu lety diogel (ers y cyfarfod diwethaf)
- pobl ifanc mewn caethiwed ar hyn o bryd a chynllunio ar gyfer eu rhyddhau
- dilyn i fyny ar bobl ifanc gafodd eu rhyddhau (i fesur llwyddiant penderfyniadau’r panel)
- dilyn i fyny ar bobl ifanc lle y cafodd deilliant o gaethiwed ei osgoi (o ganlyniad i’r panel yn darparu pecyn o gefnogaeth).

Roedd aelodau’r panel yn teimlo y byddai’n ddefnyddiol derbyn rhybudd ymlaen llaw o’r materion i’w trafod cyn cyfarfodydd RSP. Teimlwyd bod hyn yn arwain at gyfarfod mwy effeithiol, gan ei fod yn galluogi aelodau’r panel i gasglu mwy o wybodaeth gan gydweithwyr a nodi datrysiadau i’w cyflwyno i’r panel yn ei gyfarfod.

Roedd aelodau’r panel wedi’u hymrwymo i fynychu cyfarfodydd ac i hwyluso cefnogaeth ailsefydlu yn eu gwaith dydd i ddydd yn eu sefydliadau eu hunain. Rhwng cyfarfodydd, pe byddai materion yn codi nad oedd modd eu datrys gan staff lefel gweithredol o fewn asiantaeth bartner, roedd aelodau’r panel wedi cytuno y gallai’r gweithiwr ailsefydlu gysylltu’n uniongyrchol â hwy. Roedd hyn yn helpu i atal oedi a datrys materion yn gyflymach. Gan ddisgrifio’r broses hon, dywedodd aelod o’r panel:

> “Rydym yn cwrdd bob chwarter, mae gennym gylch gorchwyl nawr, ac fe wnaeth pob un o’r bobl hyn ymrwymo i geisio dod mor aml â phosib, ond rhwng cyfarfodydd, os oedd unrhyw rwystrau neu broblemau, byddent yn eu datrys ac mae hynny’n digwydd.”

Nid oedd dull ffurfiol o gyfeirio pobl ifanc i’r panel. Nododd rheolwyr achos yr YOT bobl ifanc yr oedd angen cymorth arnynt gan y gweithiwr cefnogi ailsefydlu. Rhoddodd y gweithiwr cefnogi adborth am unigolion ym mhob cyfarfod o’r panel yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o bob achos, wedi’i ddatblygu drwy gyswllt gyda’r bobl ifanc. Cyfeiriodd aelodau’r panel at bobl ifanc eraill hefyd (yn enwedig brodyr a chwiorydd iau y rheiny oedd yn cael eu trafod) oedd yn hysbys i’w gwasanaethau, y gallent elwa o ymyrraeth gynnar.

Roedd rôl hanfodol y gweithiwr ailsefydlu yn amlwg yma wrth ddarparu dull effeithiol o gyfathrebu gwybodaeth am yr holl bobl ifanc. Roedd ganddynt hefyd amser dynodedig i baratoi adroddiad ysgrifenedig a mynychu cyfarfodydd panel. Heb rôl o’r fath, roedd yn debygol y byddai angen gwybodaeth am bobl ifanc gan sawl rheolwr achos a byddai’n cael ei gyflwyno i’r panel mewn ffordd fwy darniog.

Yn ystod y peilot, roedd niferoedd y bobl ifanc mewn caethiwed yn yr ardal hon wedi syrthio. Roedd hyn wedi caniatáu i’r panel dreulio mwy o amser yn ystyried anghenion ystod ehangach o bobl ifanc, yn cynnwys y rheiny mewn perygl o gaethiwed, ac i drafod mesurau ataliol. Dywedodd un aelod o’r panel, wrth ddisgrifio’r mathau o bobl ifanc a drafodwyd yn y panel:

> “Pan roedd y niferoedd mewn caethiwed yn uchel, yr unigolion hynny oedd ffocws y cyfarfod, ac yn mynd â sylw pobl. Ond os edrychwch i’r tymor canolig-hwy, mae llai o bobl mewn caethiwed yn golygu llai o bobl yn dod allan. Felly mae hynny wedi rhoi’r gallu i siarad am eraill. Rydym oll yn gwerthfawrogi hynny - gallu gwneud rhywbeth cyn cael eich hun yn y sefyllfa hynny”.

Mynychwyd cyfarfodydd y panel cefnogi ailsefydlu (yn bennaf) gan bersonél strategol uwch. Roedd aelodau'r panel yn cynnwys:

- Pennaeth GCI (Cadeirydd)
- Rheolwr Gweithredol - GCI
- Gweithiwr Cefnogi Ailsefydlu – GCI
- Uwch-arolygydd–Heddlu Gogledd Cymru
- Pennaeth Gwasanaeth – Rhianta Corfforaethol
- Cynrychiolydd Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI)
- Rheolwr Tîm –Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP)
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Prif Swyddog–Atal & Chynhwysiad
- Rheolwr Gwasanaeth - Tai
- Cynrychiolydd Gyrfa Cymru
- Uwch Reolwr–Gadael Gofal
- Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr (NACRO)
- Cynrychiolydd darparwyr tai annibynnol.

Yn gyffredinol, roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod yr holl wasanaethau ac asiantaethau wedi'u cynrychioli ar y panel a bod y niferoedd yn ddigonol ar gyfer cynnal trafodaeth effeithiol a phwrpasol. Tyfodd yr aelodaeth ychydig yn ystod y peilot, gan i gynrychiolwyr o NACRO a YOI, fynychu cyfarfodydd mwy diweddar. Roedd awgrymiadau ar gyfer aelodau posib yn y dyfodol yn cynnwys y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau pobl ifanc. I ddechrau, credwyd y byddai personél llysoedd fel dirprwy glerc y llys a chadeirydd y llys ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd y panel. Nododd yr unigolion hynny wrthdaro diddordeb posib a phenderfynu peidio â mynychu, ond roeddent yn croesawu adborth ar waith y panel.

Ystyriwyd mai lefel y gynrychiolaeth ar y panel cefnogi ailsefydlu oedd un o'r ffactorau allweddol yn ei lwyddiant. Dywedodd aelodau'r panel wrthym:

> "Os daw rhywun yma a dweud, 'o mae problem gennym', rwy' mewn sefyllfa efallai i weld y darlun ehangach oherwydd rwy'n ymwneud â gwasanaethau eraill, ac yna gallaf fynd yn ôl i'r swyddfa a dweud, 'dyma'r hyn yr wyf am i ddigwydd".

> "Mae'n ddefnyddiol iawn, oherwydd gan eu bod nhw [aelodau eraill y panel] ar y lefel honno byddant yn symud pethau ymlaen a throsglwyddo pethau i'w staff. Mae'n fy helpu i oherwydd gallwch fynd at bobl a dweud, 'Roeddwn mewn cyfarfod a dywedodd eich rheolwr hyn', neu gallwch gysylltu â hwy [aelodau'r panel] yn uniongyrchol a byddant yn ei basio i lawr at bwy bynnag y mae angen i mi ei weld".

Roedd cyfarfodydd y panel ar y cyfan yn cael eu mynychu'n dda ac o ystyried lefel uwch y personél dan sylw, mae hyn yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i wella deilliannau i'r grŵp hwn o bobl ifanc.

### 5.1.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel

Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad ar y cyfan eu bod wedi cytuno i fynychu cyfarfodydd panel, oherwydd yr angen i sefydlu ymagwedd fwy cydlynus tuag at gefnogaeth ailsefydlu. Roeddent yn teimlo ei fod yn fuddiol cael gwell ymwybyddiaeth o waith gwasanaethau eraill. Roeddent hefyd yn ystyried bod rhannu gwybodaeth am eu gwaith eu hunain (yn cynnwys cylch gorchwyl y gwasanaeth, gweithdrefnau a thargedau) yn bwysig. Roedd aelodau'r panel yn cydnabod, er mwyn gwella ailsefydlu pobl ifanc, roedd angen i wasanaethau ganolbwyntio mwy ar ddatrysiadau:

> "Rwy' wedi ceisio gwneud pwynt o ddod i'r cyfarfodydd panel ailsefydlu hyn yn benodol, oherwydd rwy'n deall beth oedd dilema [pennaeth y GCI] flwyddyn yn ôl, o safbwynt nifer y bobl oedd yn cael eu cadw mewn caethiwed, ac roedd peth o hynny oherwydd diffyg llety. Pan mae [pennaeth y GCI] yn cyfathrebu'r neges honno rydych yn meddwl, 'wel a dweud y gwir efallai ein bod ni yn rhan o'r broblem neu'n rhan o'r datrysiad, dyna pam rwy'n awyddus i ddod i'r cyfarfodydd hyn."

Roedd aelodau'r panel yn ymrwymedig iawn i ddatrys rhai o'r materion oedd wedi arwain at anawsterau wrth ailsefydlu pobl ifanc yn y gorffennol. Dywedodd un cyfwelai fod y panel wedi rhoi iddynt "gyfle i eistedd i lawr mewn rôl fwy rhagweithiol".

Ychydig iawn o heriau a gafwyd i weithredu'r panel yn yr ardal astudiaeth achos hon. Amlygodd un cyfwelai anhawster posib pan sefydlwyd y panel gyntaf o ganlyniad i farn oedd yn gwrthdaro yr oedd gan un sefydliad partner am ei nodau a'i amcanion:

> "Yr hyn yr oedd yn ei ddweud oedd, 'rydych wedi dod i ddweud bod gormod o bobl yn cael eu caethiwo, wel efallai bod rhai ohonom yn meddwl mai dyna'r peth gorau'. Felly cawsom sgwrs am gyfyngiadau caethiwed a sut efallai nad oedd yn helpu'r person ifanc hwnnw, ac roedd e'n iawn".

Er bod rhai unigolion wedi colli cyfarfodydd ar adegau, cytunodd aelodau'r panel fod yr holl wasanaethau ac asiantaethau angenrheidiol wedi'u cynrychioli ac yr un mor ymrwymedig i'w waith. Roeddent yn cydnabod efallai na fyddai'r panel wedi gweithredu mor llwyddiannus oni bai am newid cydamserol mewn personél lefel strategol yn rhai o'r sefydliadau partner.

Un o'r heriau mwyaf o ran ailsefydlu pobl ifanc yn yr ardal yn effeithiol, ac felly her allweddol i'r panel, oedd argaeledd cyfyngedig llety. Fel yr eglurodd aelod o'r panel:

> "Nid oes gennym stoc barod o eiddo gwag a thai â chefnogaeth gwag ar gael. Felly os yw'r [pennaeth GCI] neu [y gweithiwr cefnogi ailsefydlu] yn ffonio ac yn dweud 'edrychwch mae gen i'r unigolyn hwn, mae angen llety arnynt ymhen pythefnos', mae'n rhaid i ni roi peth sicrwydd iddynt y bydd eiddo yno ar gael iddynt. Ni allwn ddweud ein bod yn gallu gwneud hyn bob tro, oherwydd mae'n golygu bod rhaid i ni adael yr eiddo hwnnw yn wag am bythefnos, hyd yn oed os yw e ar gael ar y pryd. Un o'r problemau sydd gennym yw ceisio lleihau ein costau mewn llety dros dro yn gyffredinol ac mae'n mynd i ddod yn fwy perthnasol fyth dros y tair i bedair blynedd nesaf wrth i ni wynebu toriadau o dri deg y cant."

Ar adegau, roedd heriau i'r panel hefyd yn ymwneud â gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau yn dehongli deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, yn enwedig ynghylch cyfrifoldebau tai. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyfrifoldeb dros rai 16 ac 17 oed, gofynion i ymgymryd asesiadau plant mewn angen a'r defnydd o feini prawf 'digartref yn fwriadol'.

Roedd yr heriau eraill i'r panel yn gysylltiedig â'r rhaglen beilot ei hun. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn ei chael yn anodd defnyddio rhandaliad cyntaf y cyllid mewn cyfnod amser byrrach na'r disgwyl. Roedd peth ansicrwydd hefyd am a oedd trefniadau'r panel yn cwrdd â gofynion y BCI. Adroddodd y rhai

gafodd gyfweliad, er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddent wedi croesawu'r cyfle i gwrdd â phrosiectau peilot eraill i gymharu ymagweddau a rhannu arfer da. Yn olaf, o ystyried y cyllid amser-gyfyngedig ar gyfer y gwaith hwn, roedd pryderon hefyd am ei gynaliadwyedd yn y dyfodol (yn enwedig rôl y gweithiwr ailsefydlu) oedd ag oblygiadau ar gyfer cynllunio lleol.

Gan fyfyrio ar yr hyn oedd wedi dylanwadu ar lwyddiant y peilot, amlygodd y rheiny oedd wedi cymryd rhan y ffactorau allweddol a ganlyn:

- **Cynrychiolaeth lefel strategol uwch**: yn cynnwys staff gyda safbwyntiau awdurdod-cyfan, gallu i wneud penderfyniadau ar lefel gwasanaeth, ymrwymo adnoddau a datrys materion gweithredol. Os oes problem gyda pherson ifanc, gallwn ei chodi yn y panel hwn ac o lefel uwch mae'n tueddu i gael ei datrys'.
- **Cyfarfodydd panel rheolaidd**: â phresenoldeb uchel ac yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o wasanaethau.
- **Deialog wyneb yn wyneb**: 'Yr elfen gorfforol o gwrdd wyneb yn wyneb yn hytrach nac anfon ceisiadau dros yr e-bost a byth yn cael cyfle i adeiladu perthnasoedd. Mae'n helpu i leihau'r amser y mae pethau'n cymryd i symud ymlaen'.
- **Cytundeb ar y cyd ar nodau ac amcanion y panel:** yn cynnwys, er enghraifft, rolau a chylchoedd gorchwyl aelodau.
- **Ymrwymiad i ymagwedd ragweithiol**: a allai olygu cyfaddawdu, amser ac ymrwymo adnoddau (prin).
- **Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o anghenion ac amgylchiadau pobl ifanc y mae angen cefnogaeth ailsefydlu arnynt**: yn cynnwys, er enghraifft, empathi ar gyfer ffyrdd o fyw anhrefnus y bobl ifanc.
- **Cyfleoedd i egluro cylchoedd gorchwyl gwasanaethau a sefydlu dealltwriaeth a rennir**. 'Mae'n rhaid i hynny ddigwydd, mae'n rhaid i chi adael i bobl wneud hynny, ond yna daw'r cyfle i symud ymlaen, ac edrych ar ffyrdd y gall pobl weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol'.
- **Cyfarfodydd a reolir yn dda ond sy'n anffurfiol**: 'Mae'n rhedeg yn dda ac mae'n eithaf anffurfiol yn ogystal sy'n bwysig, oherwydd mae angen i ni weithio problemau allan'
- **Rôl y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**. 'Rwy'n credu mai dyna wraidd y mater, cael yr amser dynodedig yna i wneud y gefnogaeth unigol. Ac rwy'n poeni beth fydd yn digwydd yn y dyfodol os na fydd modd cynnal y rôl honno oherwydd rwy'n credu mai dim ond pan fydd gennych rywun yn gweithio ac yn gwneud y cysylltiadau bob dydd yr ydych mewn gwirionedd yn symud ymlaen, ac yn cyflawni rhywbeth. Roedd cwpl o bobl aeth i ffwrdd [o gyfarfod y panel] ddoe gyda gwaith i'w wneud, ond wrth wraidd y peth oedd y gweithiwr cefnogi'.

## 5.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Dechreuodd y gweithiwr ailsefydlu ar ei swydd yn YOT 2 ym mis Medi 2009. Cyn y penodiad hwn gweithiodd y swyddog fel rheolwr achos yn y GCI ac o ganlyniad roedd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ardal leol a'r materion yn ymwneud ag ailsefydlu pobl ifanc.

Roedd swydd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn un llawn amser. Roedd gan y swyddog lwyth achosion oedd yn cynnwys yr holl bobl ifanc â Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant (DTO) mewn caethiwed ieuenctid.

Roedd llawer o effeithiau rôl y gweithiwr cefnogi yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd y panel ailsefydlu a'r ymrwymiad gan bersonél strategol i wella deilliannau i'r grŵp hwn o bobl ifanc. Fodd bynnag, daeth y rôl ei hun ag ystod eang o fanteision.

Un o effeithiau allweddol y rôl oedd y ffocws uwch ar anghenion ailsefydlu pobl ifanc, a'r flaenoriaeth a roddwyd iddynt, o fewn y GCI ac asiantaethau partner yn fwy eang.

> "Rwy'n credu ei fod wedi rhoi ffocws, mae'r tîm cyfan nawr yn gwybod bod gennym yr un swyddog hwn yn ceisio cadw pobl allan o gaethiwed. Felly rwy'n credu bod pawb yn fwy ymwybodol mai dyna yr ydym yn ceisio'i wneud".

Roedd y rôl hefyd yn caniatáu am fwy o gynllunio a chyflwyno cefnogaeth ailsefydlu. Roedd hyn yn cynnwys datblygu protocolau a rennir gyda gwasanaethau partneriaid a dadansoddi adborth pobl ifanc ar sut gallai cefnogaeth ailsefydlu gael ei wneud yn fwy effeithiol. Roedd y gweithiwr ailsefydlu hefyd yn gallu neilltuo cyfran benodol o amser (efallai y tu hwnt i reolwr achos arferol) i gefnogi anghenion ailsefydlu pobl ifanc (yn enwedig y rheiny mewn argyfwng). Treuliwyd amser, er enghraifft, yn nodi opsiynau amrywiol i gyflwyno i ynadon mewn gwrandawiadau achosion i leihau'r tebygrwydd y byddai person ifanc yn derbyn dedfryd o gaethiwed.

Roedd y rheiny gafodd gyfweliad yn teimlo bod y gweithiwr ailsefydlu wedi ysgafnhau llwyth gwaith y GCI ehangach. Er enghraifft, nid oedd angen i reolwyr achos bellach ymgymryd â thasgau dwys o ran amser fel cysylltu â darparwyr llety a chwblhau dogfennaeth cysylltiedig â thai. Gan ddisgrifio'r sefyllfa, dywedodd un rheolwr achos GCI wrthym:

> "Mae fy nghydweithwyr a minnau o dan gymaint o bwysau. Mae'n anodd iawn dyrannu amser i'w wneud, oherwydd mae'n ddwys iawn o ran amser… Roedd peth pryder ynghylch beth fyddai'n digwydd am y fenter hon, os nad oedd swyddog dynodedig. Fy nheimlad yw y byddem wedi cael trafferth dod i ben, oherwydd na fyddai unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb amdano ac mae'n bosib na fyddai hynny mewn gwirionedd ar ben y rhestr flaenoriaethau".

Roedd cael un pwynt cyswllt o fewn y GCI, er mwyn cydgysylltu am anghenion ailsefydlu person ifanc, hefyd yn allweddol. O ganlyniad, roedd llinellau cyfathrebu cliriach, nid yn unig i staff ond hefyd i bobl ifanc. Roedd hyn yn lleihau'r amser yr oedd yn ei gymryd i ddatrys problemau. Nododd un ymatebydd:

> "Rwy'n adnabod pob unigolyn a'r ardal y maent yn gweithio ynddi, ac os oes gennym broblem gyda pherson ifanc, oherwydd ein bod wedi datblygu perthynas gyda'r unigolion hyn, mae'n llawer haws datrys pethau".

> "Gallwch gysylltu â [enw a chyfeiriad y gweithiwr cefnogi ailsefydlu], fe fydd yr ateb ganddo ef... lle pe byddai llawer o wahanol [weithwyr cefnogi ailsefydlu] yna mae'n anodd. Byddwn yn meddwl i'r bobl ifanc, oherwydd eu bod yn gwybod mai [enw'r gweithiwr cefnogi ailsefydlu] y mae angen iddynt fynd ato, yna mae'n hawdd iddynt gysylltu ag ef. Weithiau pan rydych yn ceisio cysylltu â'r gweithwyr cyfiawnder ieuenctid eraill am eich cleientiaid, mae'n cymryd amser i ddarganfod pwy ydyn nhw, dod o hyd iddyn nhw, ceisio cael gwybod pa ddiwrnod y maen nhw i mewn."

Roedd y gweithiwr ailsefydlu hefyd yn ganolog i ddatblygu perthnasoedd mwy effeithiol gyda phartneriaid statudol presennol a datblygu perthnasoedd newydd (a gwell) gyda gwasanaethau sector gwirfoddol. Roedd perthnasoedd da yn cael eu cysylltu gan ymatebwyr i'r enw da yr oedd gan y swyddog ymhlith asiantaethau eraill:

> “Yr argraff yr wyf yn ei chael yn dilyn fy ymwneud ag ef yw ei fod yn gwrtais ac yn ystyrlon iawn, ac yn dda wrth ennyn eich cydweithrediad, sy’n bwysig, oherwydd dyna’r elfen hanfodol, ynte? Os gallwch gyfathrebu gydag aelodau staff, nad ydynt yn cwrdd yn aml iawn efallai.”

Cysylltwyd effeithiolrwydd y rôl hefyd â’r wybodaeth a’r arbenigedd arbenigol oedd gan y gweithiwr cefnogi ailsefydlu, yn enwedig mewn perthynas â chyfraith tai a dyletswyddau gofal. Roedd hyn yn golygu bod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, gan fod deialog fwy ystyrlon yn gallu digwydd.

> “Mae gen i wybodaeth am yr hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud, neu y mae’n rhaid iddyn nhw ei wneud – beth yw eu cyfrifoldebau, dyletswydd gofal, pethau felly, y byddai ymarferydd mwy cyffredinol fwy na thebyg yn gorfod mynd drwyddo bob amser i’w ddarganfod a’i weithio allan felly rwy’n credu bod hynny’n rhan o’r peth”.

## 5.3 Swyddogaeth adolygu

Roedd gan YOT 2 swyddogaeth adolygu bellach. Ym mhob cyfarfod o’r panel, cyflwynodd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu adroddiad cynnydd ar achosion unigol a drafodwyd eisoes gan yr RSP. Roedd hyn yn cynnwys dilyn i fyny ar bobl ifanc a ryddhawyd o gaethiwed a’r rheiny y llwyddwyd i osgoi dedfryd o gaethiwed iddynt o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd gan y panel.

## 5.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

Er nad oedd yr asiantaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cyfuno adnoddau ar gyfer gwasanaethau cefnogi ailsefydlu, roeddent oll wedi gwneud ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd y panel yn rheolaidd. O ystyried lefel uchel aelodau'r panel, roedd hyn yn dangos ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau 'mewn da' ac ni ddylid tanbwysleisio ei bwysigrwydd. Yn wir, roedd llawer (os nad pob un) o'r gwasanaethau oedd yn cyfrannu at y panel yn wynebu toriadau sylweddol mewn cyllido gwasanaethau, ond eto roedd aelodau yn parhau i fynychu cyfarfodydd er gwaethaf pwysau mawr ar eu hamser.

### 5.4.1 Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu

Cytunodd y rhai gafodd gyfweliad fod y panel cefnogi ailsefydlu wedi arwain at ystod o effeithiau positif, nid yn unig yn nhermau gwell deilliannau i bobl ifanc, ond hefyd gwelliannau ehangach o fewn a rhwng gwasanaethau.

Gan wneud sylwadau ar y sefyllfa cyn y peilot, cyfeiriodd aelodau'r panel at anawsterau wrth gwrdd ag anghenion ailsefydlu pobl ifanc, o ganlyniad i faterion cyfathrebu a chydweithio rhwng asiantaethau partner. Teimlwyd bod dod ynghyd ar gyfer y panel wedi cael gwared ar y rhwystrau hyn ac arwain at well perthnasoedd rhwng gwasanaethau. Dywedodd un aelod o'r panel, er enghraifft, wrthym:

> "Ro'n i'n teimlo bod llawer o bobl yn eu silos, mewn tŷ tin yn amddiffyn eu cyllideb ac yn ceisio cyfyngu eu cyfrifoldeb a phasio pethau ymlaen, ac roedd yn rhwystredig iawn. Ond does dim dwywaith beth mae sefydlu hyn wedi'i wneud i ni, mae wedi newid hynny i gyd."

> "Yr hyn y mae'r panel cefnogi ailsefydlu wedi'i wneud yn fy marn i, yw gwneud fy swydd lawer iawn yn haws, oherwydd mae wedi bod yn declyn da i ryddhau pethau oedd wedi'u rhwystro yn y gorffennol, lle nad oeddech yn gallu cael gafael ar bobl neu nad oeddech yn gwybod pwy i siarad â hwy, neu roeddech yn delio gyda phobl ar lefel is. Oherwydd bod hwn yn gorff strategol, gallwch eu ffonio a byddant yn datrys pethau i chi, felly mae wedi gweithio allan yn eithaf da."

Teimlwyd bod y panel wedi darparu fforwm i bartneriaid esbonio i aelodau eraill y panel gylch gorchwyl eu gwasanaeth, a'r lefelau o gymorth yr oeddent yn gallu'u cynnig i bobl ifanc, a'r rhesymau dros hyn. Roedd hyn yn ei dro yn arwain at well dealltwriaeth ymhlith pawb dan sylw, ac yn helpu egluro sut gallai pob gwasanaeth gyfrannu at welliannau yn y maes hwn:

> "Rydym wedi gallu cael trafodaethau asiantaeth am sut rydym yn symud pethau ymlaen hefyd. Mae'n ymwneud ag egluro rolau, a threfniadau gweithio gwell, ac mae hynny'n bwysig. Ac mae am chwalu rhai chwedlau hefyd, oherwydd mae cysyniadau weithiau am bwy ddylai fod yn gwneud beth a phryd, ac mewn gwirionedd, nid yw hynny'n iawn. Y cyfle i gael ychydig o eglurder sy'n bwysig."

> "Mae dod i'r panel hwn yn golygu y gallaf weld yr hyn y mae pawb arall yn ei wneud… mae'n helpu ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd."

Roedd barn fod rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd panel cefnogi ailsefydlu wedi arwain at aelodau yn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion ehangach pobl ifanc ac ymdeimlad cryfach o frys ac ymrwymiad i'w cefnogi.

> "O'r blaen, roeddech yn eich adran unigol ac yn edrych ar eich protocolau a'ch gweithdrefnau ar gyfer cefnogi a dyweder nad oedd rhyw berson ifanc arbennig yn cwrdd â'r meini prawf. Rydych yn dod yma ac yn cael trafodaeth gyda'i weithiwr ac maen nhw'n dweud 'hyn a hyn a hyn'. Mae'r ddeialog yn agored fan hyn, gallwn ddweud 'ydy mae hwn yn faen tramgwydd ond beth gallwn wneud amdano ar ben yr hyn y byddem yn ei wneud fel arfer?' Felly rwy'n credu bod gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau'n gilydd, a pharodrwydd i feddwl, 'wel a dweud y gwir mae gen i gyfraniad i hyn".

> "Does dim byd tebyg i ganolbwyntio'r meddwl pan rydych yn siarad am unigolion a'r effaith ar unigolion a'u teuluoedd, gallwch wneud yr holl waith polisi yna ond mewn gwirionedd dim ond pan ddechreuwch siarad am unigolion y gellir gweld fod tensiynau o bosib rhwng problemau gwahanol bobl, ac rwy'n credu y gallwch wneud hynny dim ond os yw'r sylfaen ymddiriedaeth a pharch yna gennych a chyfle i ddweud, 'wel, sut gallwn gydweithio i oresgyn hyn?"

Teimlwyd hefyd fod y panel wedi galluogi arferion gwaith mwy effeithiol drwy symleiddio prosesau, torri trwy fiwrocratiaeth a lleihau nifer y cysylltiadau gyda gwahanol staff cyn gallu nodi datrysiad.

> “Mae’r panel yn rhoi amser i mi gysylltu enw â wyneb ac adeiladu perthnasoedd. Mae’n golygu nad ydw i bellach yn delio gydag unrhyw un o ugain o staff bob tro y mae problem. Nid oes angen i mi fynd i mewn yn oer ac adeiladu pontydd, neu dreulio oriau yn mynd rownd mewn cylchoedd. Rwy’n credu ei bod yn ffordd effeithlon ac effeithiol i ymdrin ag asiantaethau eraill.”

Yn achos un asiantaeth, roedd ymwneud â’r panel hefyd wedi arwain at fwy o flaenoriaethu o ran pobl ifanc ag anghenion ailsefydlu yn eu cynllunio gwasanaeth eu hunain:

> “Rydym wedi deall fod yna rai unigolion sydd â bywydau mor anhrefnus, ac anghenion o’r fath nad yw’r llety â chefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn gallu ymdopi â hwy, ac rydych yn meddwl, ‘wel beth wnawn ni gyda’r unigolyn hwn?’ Felly yn ein cynllun gweithredol cefnogol rydym wedi gwneud peth gwaith yn nhermau nodi llety â chefnogaeth i bobl ag anghenion uchel… Felly mae hynny yn ein cynllun gweithredol fel blaenoriaeth nawr.”

## 5.5 Cynlluniau ailsefydlu:gwella deilliannau i bobl ifanc

Dros y flwyddyn flaenorol, gwelodd yr ardal astudiaeth achos hon ostyngiad dramatig yn nifer y bobl ifanc gafodd ddedfryd o gaethiwed.

> “Mae ein cyfradd caethiwed wedi lleihau gan dros bum deg y cant. Nawr p’un ai mae hyn oherwydd bod gennym swyddog cefnogi ailsefydlu ai peidio dydw i ddim yn gwybod.... dw i ddim yn gwybod ai ydy e oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda’r bobl ifanc [beth bynnag]. Mae’n anodd iawn [gwybod] pam mae wedi gostwng ond dyna sydd wedi digwydd, ac mae’n cyd-fynd yn union gyda’r cyfnod y sefydlwyd y swydd.”

Roedd achosion unigol lle roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi sicrhau llety ac, o ganlyniad, roedd y llys yn teimlo ei fod yn gallu gosod gorchymyn cymunedol yn hytrach na dedfryd o gaethiwed. Gan ddisgrifio sefyllfa ddiweddar lle cynorthwyodd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu gyda lleoliad person ifanc mewn tai â chefnogaeth, esboniodd rheolwr achos:

> “Ar ddiwedd y mis maen nhw yn ôl yn y llys [y goron] felly gallwn roi pethau ar waith cyn hynny, ac felly mae’n caniatáu i ni adeiladu cynnig llawer mwy cadarn fel dewis amgen i gaethiwed, oherwydd rydym yn

> dweud 'rydym wedi trefnu hyn, rydym wedi siarad gyda gwasanaethau plant, mae pethau'n barod gennym'. Gallem ddweud ein bod yn cynnig ISS [Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys] i'r cyfeiriad hwn, a bod peth hyder gennym [yn ei lwyddiant] yn hytrach na ryw Gwely a Brecwast neu rywbeth felly."

Roedd enghreifftiau o lle roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi cyfryngu rhwng y person ifanc ac aelodau'r teulu gan alluogi'r person ifanc i aros yng nghartref y teulu, neu wedi dod o hyd o lety brys i'r person ifanc. Teimlwyd bod effeithiau sicrhau llety mwy priodol i bobl ifanc yn lleihau'r tebygrwydd y byddent yn ymgysylltu â chamddefnyddio sylweddau a throsedd.

Roedd effeithiau hefyd i bobl ifanc o safbwynt gwell mynediad i addysg a hyfforddiant. Disgrifiodd un aelod o'r panel, er enghraifft, sut roedd gwelliannau wrth gyfnewid gwybodaeth am bobl ifanc yn gadael caethiwed yn golygu bod modd trefnu darpariaeth yn y gymuned cyn eu rhyddhau:

> "Mae syniad gennych am y problemau cyn iddynt ddod allan [o gaethiwed] ac yna rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd pan fyddant yn dod allan, mae'n eu helpu i setlo'n gyflymach fel na fyddant yn aildroseddu. Os oes rhywbeth wedi'i drefnu iddynt cyn gynted ag y byddant yn dod allan o'r ddalfa, maent yn tueddu i ymateb yn well. Yn ystod y bwlch yna pan fyddant yn gwneud dim ond aros i bethau i'w gwneud y gwelwch y byddant yn aml yn aildroseddu… Maent yn dod allan ac yn gwneud addysg pan nad oeddent wedi meddwl bod hynny'n bosib."

## 5.6 Dadansoddiad Asset

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth i gyfanswm o 17 o bobl ifanc a gyfeiriwyd at y panel. Dewiswyd grŵp cymhariaeth craidd (wedi'u llunio i adlewyrchu hanes troseddu a nodweddion y grŵp ymyrraeth yn agos) oedd yn cynnwys 15 o bobl ifanc, ynghyd â grŵp cymhariaeth estynedig o 7 person ifanc. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm nifer y bobl ifanc sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad yw 39. O ystyried nifer bach y sampl dylid trin y dadansoddiad â gofal.

Roedd mwyafrif (35 o 39) y sampl yn wrywaidd tra roedd 2 yn fenywaidd ac nid oedd rhyw y 2 arall yn hysbys. Disgrifiwyd y mwyafrif (27) fel Gwyn Prydeinig.

**Tabl 5.1: Proffil oed y sampl**

| Oed | Grŵp ymyrraeth | Grŵp cymhariaeth craidd | Grŵp cymhariaeth estynedig |
|---|---:|---:|---:|
| 13 | - | - | - |
| 14 | - | - | - |
| 15 | 4 | 2 | 1 |
| 16 | 3 | 5 | 0 |
| 17 | 8 | 5 | 2 |
| 18 | 2 | 3 | 0 |
| Ddim ar gael | - | - | 4 |
| Cyfanswm | 17 | 15 | 7 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Cyflwynir y sgoriau Asset ar gyfer pob categori i'r sampl o 39 person ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 5.2.

**Tabl 5.2: Dadansoddiad sgoriau ASSET yr holl bobl ifanc**

| | Nifer gyda sgôr o 0 | Nifer gyda sgôr o 1 | Nifer gyda sgôr o 2 | Nifer gyda sgôr o 3 | Nifer gyda sgôr o 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau byw | 11 | 33 | 31 | 23 | 1 |
| Teulu a pherthnasoedd personol | 2 | 19 | 36 | 36 | 6 |
| Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth | 5 | 10 | 46 | 31 | 7 |
| Cymdogaeth | 14 | 25 | 43 | 17 | 1 |
| Ffordd o fyw | 1 | 9 | 40 | 42 | 7 |
| Camddefnyddio sylweddau | 13 | 23 | 28 | 23 | 12 |
| Iechyd corfforol | 64 | 27 | 7 | 1 | 0 |
| Iechyd emosiynol a meddyliol | 16 | 21 | 32 | 25 | 5 |
| Amgyffrediadau ohonyn nhw'u hunain | 9 | 24 | 53 | 11 | 2 |
| Meddwl ac ymddygiad | 0 | 5 | 36 | 49 | 9 |
| Agwedd at droseddu | 4 | 14 | 47 | 26 | 8 |
| Cymhelliad i newid | 9 | 14 | 41 | 27 | 8 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Aseswyd bod gan tua hanner y sampl sgôr Asset o 3 neu fwy mewn perthynas â theulu a pherthnasoedd personol, ffordd o fyw, camddefnyddio sylweddau, meddwl ac ymddygiad, agweddau at droseddu a chymhelliad i newid.

Cyflwynir proffil nifer y bobl ifanc yn Nhabl 5.3:

**Tabl 5.3: Nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | **Grŵp ymyrraeth** | | **Grŵp cymhariaeth craidd** | | **Grŵp cymhariaeth estynedig** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyn | Ar ôl | Cyn | Ar ôl | Cyn | Ar ôl |
| 0 trosedd | 0 | 5 | 0 | 4 | 0 | 5 |
| 1 drosedd | 0 | 6 | 0 | 4 | 0 | 1 |
| 2-5 trosedd | 2 | 5 | 6 | 4 | 6 | 1 |
| 6-10 trosedd | 2 | 0 | 6 | 3 | 1 | 0 |
| 10+ trosedd | 13 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 17 | 17 | 15 | 15 | 7 | 7 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd rhan fwyaf y bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth (15 o bobl ifanc) wedi cyflawni mwy na 6 throsedd cyn yr ymyrraeth. Roedd hyn yn ganran uwch o'r grŵp na'r grwpiau craidd neu gymhariaeth estynedig. Cyflawnodd bump o'r bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth ddim troseddau ar ôl yr ymyrraeth, troseddodd 6 unwaith a chyflawnodd 1 fwy na 10 trosedd. Roedd y ffigurau ar gyfer y grŵp ymyrraeth yn cymharu'n dda gyda'r rheiny ar gyfer y grŵp cymhariaeth craidd (lle roedd 8 allan o 15 person ifanc wedi cyflawni 1 drosedd neu lai) ond roedd yn wahanol i 6 o'r 7 yn y grŵp cymhariaeth estynedig a gyflawnodd un drosedd neu lai).

Cyflwynir uchafswm difrifoldeb y troseddau a gyflawnwyd gan y bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 5.4.

**Tabl 5.4: Uchafswm difrifoldeb y troseddau yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Ymyrraeth | | Craidd | | Estynedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyn | ôl | cyn | ôl | cyn | ôl |
| 0 | - | - | - | - | - | - |
| 1 | - | - | - | - | - | - |
| 2 | - | - | - | - | - | - |
| 3 | - | 0 | - | 1 | - | - |
| 4 | 3 | 8 | 9 | 7 | 4 | 1 |
| 5 | 4 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 6 | 9 | 0 | 4 | 2 | 2 | 0 |
| 7 | 1 | - | 1 | | 0 | 0 |
| Dim data | - | 8 | - | 4 | - | 5 |
| Cyfanswm | 17 | 9 | 15 | 11 | 7 | 2 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd natur y bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth yn golygu mai nhw oedd y troseddwyr mwyaf difrifol cyn yr ymyrraeth. Y bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth oedd y rhai mwyaf tebygol i gyflawni'r troseddau mwyaf difrifol (difrifoldeb o 6 neu'n uwch) na'r grŵp cymhariaeth. Ar ôl yr ymyrraeth dim ond un o'r bobl ifanc gyflawnodd drosedd â difrifoldeb o 5 neu'n uwch. Roedd hyn yn cymharu â 3 o'r 15 yn y grŵp cymhariaeth craidd. Cyflawnodd un o'r bobl ifanc yn y grŵp cymhariaeth drosedd â difrifoldeb o 5.

## 5.7 Casgliad

Mae'r dystiolaeth gan YOT 2 yn awgrymu bod sicrhau ffocws penodol ar ailsefydlu drwy RSP dynodedig wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o anghenion y bobl ifanc dan sylw a'i fod wedi helpu i hyrwyddo gwaith amlasiantaeth wrth gwrdd â'u hanghenion. Roedd hyn mewn nifer o ffyrdd yn gysylltiedig â ffordd yr oedd rhanddeiliaid perthnasol wedi ymgysylltu â gwaith yr RSP a'u parodrwydd i gyfrannu adnoddau. Er mwyn i ailsefydlu weithio,

roedd angen iddo gael ei werthfawrogi a'u gydnabod fel rhywbeth pwysig gan reiny â digon o awdurdod yn y sefydliadau cyfrifol perthnasol. Roedd y swyddogaeth adolygu bellach wedi cyfrannu at ailsefydlu drwy ddarparu trafodaeth wybodus â ffocws iddo am y materion dan sylw. Fodd bynnag nid yw'n glir pa wybodaeth ychwanegol a rannwyd neu ai'r ffaith fod yr achosion yn cael eu trafod yn ddwys a gyfrannodd at effeithiolrwydd y corff adolygu uwch.

Roedd gwaith adolygu wedi elwa o'r ffaith fod swyddog cydnabyddedig a phrofiadol wedi derbyn cyfrifoldeb a oedd yn gallu ymyrryd ac eiriol ar ran y bobl ifanc dan sylw. Fel y nodwyd yn yr astudiaeth achos, roedd hyn yn cynnwys sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng rhanddeiliaid allweddol.

Roedd y broses ailsefydlu o fewn YOT 2 yn elwa o'r ffaith fod aelodau'r RSP yn mynychu yn rheolaidd ac yn cymryd yr amser i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymatebion priodol i anghenion y bobl ifanc yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

**<u>Canfyddiadau: YOT 2</u>**

**Yr RSP: strwythur a gweithredu**

Cynhaliwyd cyfarfodydd RSP ar wahân i brosesau eraill yn YOT 2. Eu nod oedd lleihau'r defnydd o gaethiwed i droseddwyr ifanc, codi dealltwriaeth o arfer da mewn ailsefydlu pobl ifanc, meithrin gweithio amlasiantaeth o gwmpas ailsefydlu, a nodi bylchau mewn darpariaeth ailsefydlu. Defnyddiwyd cyfarfodydd i drafod pobl ifanc sydd mewn caethiwed ar hyn o bryd, a'r rheiny yn y gymuned oedd wedi derbyn dedfrydau nad oeddent yn cynnwys caethiwed. Roedd aelodau'n teimlo bod cyfarfodydd y panel yn gweithio'n dda ar y cyfan. Roeddent yn meddwl bod partneriaid allweddol yn ymrwymedig i fynychu cyfarfodydd ac i hwyluso cefnogaeth ailsefydlu. Roed aelodaeth yr RSP wedi ehangu yn ystod y peilot.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn gyn reolwr achos yn YOT 2, ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r ardal a'r materion o gwmpas ailsefydlu. Roedd ei rôl yn blaenoriaethu ailsefydlu ymhlith asiantaethau partner, a gwella cynllunio a chyflwyno cefnogaeth ailsefydlu. Roedd hefyd wedi ysgafnhau llwyth gwaith staff YOT eraill. Roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi helpu

i wella perthnasoedd rhwng asiantaethau partner ac egluro llinellau cyfathrebu rhyngddynt ynghylch ailsefydlu pobl ifanc.

**Y corff adolygu**

Roedd gan yr RSP yn YOT 2 swyddogaeth adolygu bellach. Roedd hyn yn cynnwys aelodau'r RSP yn rhannu gwybodaeth ar gynnydd pobl ifanc unigol oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot ym mhob cyfarfod o'r RSP.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Nid oedd yr asiantaethau a gynrychiolwyd ar yr RSP yn cyfuno adnoddau i gefnogi ailsefydlu. Roedd yr ymrwymiad o ran amser i aelodau'r panel fynychu cyfarfodydd RSP yn sylweddol, fodd bynnag.

**Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Gwellodd yr RSP weithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu yn YOT 2. Dywedodd ymatebwyr ei fod wedi helpu i wella cyfathrebu a chydweithio rhwng asiantaethau sy'n gyfrifol am ailsefydlu pobl ifanc.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Roedd nifer y bobl ifanc mewn caethiwed yn ardaloedd YOT 2 wedi syrthio'n sylweddol iawn dros gyfnod y cynllun peilot. Roedd rôl y gweithiwr ailsefydlu wrth ddatrys problemau llety wedi bod yn allweddol o ran atal dedfrydau o gaethiwed mewn sawl achos. Roedd y cynllun peilot hefyd wedi gwella mynediad pobl ifanc i addysg a hyfforddiant.

# 6. Astudiaeth achos 3

Roedd y  peilot hwn yn cwmpasu ardal oedd yn cynnwys dau awdurdod lleol (ALlau). Bu aelod o'r tîm ymchwil yn ymweld â'r Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) ym mis Awst 2010 a mis Tachwedd 2010. Cafodd pobl ifanc, a staff strategol a gweithredol YOT, eu cyfweld ar y ddau achlysur. Cafodd aelodau'r panel eu cyfweld yn ystod yr ymweliad dilynol.

## 6. 1 Y panel ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

Diffiniwyd y cynllun peilot yn YOT 3 fel gwasanaeth 'uwch' ychwanegol i'r rheiny oedd naill ai wedi dod allan o gaethiwed neu yr oeddent mewn perygl o dderbyn dedfryd o gaethiwed. Roedd ganddo'r amcanion penodol canlynol:

- sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i dderbyn eu hawliau
- darparu help gyda llety
- adeiladu neu ailadeiladu cysylltiadau teuluol lle y bo'n briodol
- helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg (ETE) neu weithgareddau adeiladol eraill i ddatblygu eu hunanbarch a'u hyder i symud ymlaen
- helpu i leiafu'r risg  ac agor drysau i ddyfodol mwy positif.

Roedd yr amcanion hyn wedi bod yn sail i'r cynllun peilot yn YOT ers iddo ddechrau, ond roedd union ffocws y gwaith ailsefydlu wedi newid. Roedd y pwyslais cynnar ar ddarparu gweithgareddau adeiladol. Parhaodd hyn wedi hynny, ond ar raddfa lai. Ar adeg yr adroddiad hwn prif ffocws y peilot oedd ar y panel cefnogi ailsefydlu (RSP).

Bwriadwyd i'r gefnogaeth ailsefydlu a ddarparwyd drwy'r cynllun peilot barhau am chwe mis y tu hwnt i'r cyfnod trwyddedu, pan fyddai'n cael ei lleihau'n raddol ond nid yn  cael ei dynnu yn gyfan gwbl. Bwriadwyd i'r gefnogaeth ailsefydlu gefnogi'r bobl ifanc i ddatblygu cysylltiadau adeiladol eraill, er enghraifft gyda'r ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid, i'w grymuso i barhau ag ymgysylltiad positif.

Dechreuodd y cyfarfodydd RSP yn ystod haf 2010. I ddechrau cynlluniodd YOT 3 i gyfuno'r RSP â phanel atal troseddau presennol, fodd bynnag roedd hyn yn anodd. Penderfynodd YOT 3 felly sefydlu panel newydd i archwilio anghenion ailsefydlu'r bobl ifanc.

Nododd staff YOT 3 fod y panel wedi helpu i ddatrys materion oedd wedi rhwystro ailsefydlu effeithiol yn y gorffennol. Roedd y rhain yn ymwneud yn benodol â thai, ac wedi bod yn fater o bryder i nifer o staff. Er enghraifft, nodwyd

> "Mae gennym yr holl reoliadau yma, ac mae tai yn dweud nad eu cyfrifoldeb nhw ydy e - ewch i wasanaethau cymdeithasol ac mae gwasanaethau cymdeithasol yn mynnu mai mater tai ydyw. Maent i gyd â'u blaenoriaethau a'u cyfrifoldebau. Ond nid yw'n helpu'r bobl ifanc hawdd eu niweidio hyn pan maent yn cael y trafodaethau hyn ac maen nhw [y bobl ifanc] yn cael eu hanfon o un lle i'r llall ar eu pennau'u hunain tra bod pobl yn eu cyfeirio ymlaen … mae rôl y gweithiwr ailsefydlu wedi rhoi rhywun iddynt sy'n gallu eu helpu gyda hyn".

**6.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel**

O safbwynt aelodaeth, roedd yr RSP yn YOT 3 yn cynnwys:

- yr heddlu
- cynrychiolydd tai yr ALl
- cynrychiolwyr addysg yr ALl
- darparwyr tai annibynnol
- darparwyr ETE lleol.

Roedd yr YOT wedi hysbysu yr holl asiantaethau partner fod angen i aelodau'r panel fod â digon o awdurdod i ymrwymo adnoddau a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi digwydd yn gyson. Roedd staff uwch wedi mynychu cyfarfodydd cychwynnol ond nid oedd gan rai o'r staff a fynychodd cyfarfodydd mwy diweddar yr awdurdod gofynnol. Yna roedd yn rhaid i'r gweithiwr ailsefydlu gydlynu ymatebion gan y staff hynny a dilyn i fyny ar benderfyniadau gyda'r staff uwch perthnasol."Mae'n rhaid iddo wneud llawer o redeg o gwmpas, yn ffonio gwahanol bobl er mwyn cael

penderfyniad. Byddai modd osgoi hyn pe byddai'r bobl iawn yn mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd", nododd un o'r ymatebwyr allweddol.

Roedd cyfeirio i'r RSP yn cael ei wneud drwy gyfarfodydd YOT wythnosol lle roedd rheolwyr achos YOT yn nodi pobl ifanc fyddai'n gadael caethiwed yn fuan. Roedd y panel yn ymwneud hefyd â nifer llai oedd mewn perygl i dderbyn dedfryd o gaethiwed.

### 6.1.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel

Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn teimlo ei fod yn rhy gynnar i lunio casgliadau cadarn am ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau yn credu y dylid ymestyn ei aelodaeth i fwy o'r sefydliadau gwirfoddol yr oeddent eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc oedd wedi'u hymgysylltu â'r YOT.

Roedd cyfweleion yn teimlo fod y panel wedi gwneud gweithio o gwmpas ailsefydlu yn fwy effeithiol. Roedd aelodau'r panel yn fwy bodlon i gydweithio a derbyn cyfrifoldeb dros gefnogi pobl ifanc. Roedd y panel wedi eu helpu hefyd i ennill gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc. Dywedodd cynrychiolydd YOT fod 'asiantaethau unigol yn cynnig cyngor ac arweiniad ac yn cymryd pethau yn ôl'. Ni fyddai hyn wedi digwydd i'r un graddau yn absenoldeb y cynllun ailsefydlu peilot.

## 6.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Cyflogwyd y gweithiwr ailsefydlu yn defnyddio cyllid ailsefydlu'r BCI. Gweithiodd y swyddog yn agos â staff YOT eraill i sicrhau cefnogaeth ailsefydlu esmwyth. Roedd rôl y gweithiwr ailsefydlu yn cynnwys:

- ymweld â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs) i gyflwyno'r cynllun peilot ac ymgysylltu â phobl ifanc a dargedwyd i'w cynnwys
- gwneud cyfeiriadau i'r panel a sicrhau bod gweithrediadau yn cael ei dilyn i fyny
- gweithio ochr yn ochr â staff YOT i gydlynu goruchwylio ac ailsefydlu pobl ifanc
- cyfryngu teuluol
- recriwtio mentoriaid i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r bobl ifanc
- hebrwng pobl ifanc i apwyntiadau gyda gwasanaethau, fel cyfarfodydd i drafod darpariaeth ETE a threfnu budd-daliadau

- cyd-gysylltu â darparwyr ETE i drefnu lleoliadau a datrys materion.

Pwysleisiodd y gweithiwr ailsefydlu i'r bobl ifanc fod cyfranogiad yn y cynllun ailsefydlu yn wirfoddol. Defnyddiodd y gweithiwr ailsefydlu ddata a thrafodaethau gyda rheolwyr achos i nodi anghenion ailsefydlu tebygol y bobl ifanc. Datblygwyd cynlluniau ailsefydlu o bwynt dedfrydu, i sicrhau bod cefnogaeth yn ei lle adeg rhyddhau. Pwysleisiodd un cyfwelai bwysigrwydd cynllunio cefnogaeth ailsefydlu cyn rhyddhau o gaethiwed fel a ganlyn:

> "Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl ifanc cyn i'r problemau ddechrau, pan fyddant yn debygol o ddymuno cael cefnogaeth o hyd a chyn iddynt gyrraedd y cam lle maent yn credu bod pawb yn eu herbyn, fod neb am eu helpu, a dyna pryd mae llawer ohonynt yn mynd yn ôl i'w hen arferion".

Roedd diffyg tai addas yn ffactor cyfrannol mawr mewn aildroseddu, ac roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi helpu i ddatrys y materion hyn. Darparodd y gweithiwr ailsefydlu arweiniad a chyfryngu, gan weithredu ar ran y bobl ifanc i drefnu llety a datrys problemau. Roedd achosion lle roedd pobl ifanc wedi cael eu gosod mewn llety anaddas yn digwydd i raddau llai yn dilyn cyflogaeth y gweithiwr cefnogi ailsefydlu.

Roedd staff YOT yn credu bod angen mwy o gydweithio rhwng gwahanol asiantaethau i fynd i'r afael â materion tai. Roedd angen i bobl ifanc fod wedi neilltuo llety cyn cael eu rhyddhau. Roedd staff YOT wedi amlygu hyn mewn cyfarfodydd y panel ac roedd hyn wedi'i dderbyn gan y gweithwyr tai proffesiynol oedd yn bresennol. Roedd gan y gweithiwr ailsefydlu rôl allweddol wrth frocera'r cysylltiadau hyn ac wrth amlygu'r mater.

Roedd rolau'r Swyddog Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant (DTO) a'r gweithiwr ailsefydlu ar wahân ond yn ategu'i gilydd. Anelodd y swyddog DTO at atal aildroseddu lle roedd y gweithiwr ailsefydlu yn ymwneud mwy â lle a chefnogaeth. Cynigiodd y gweithiwr ailsefydlu fwy o gefnogaeth i'r bobl ifanc nac y byddai'r swyddog DTO wedi gallu'i wneud a chreodd hyn math wahanol o berthynas gyda hwy. Fel y nododd un cyfwelai, 'Mae'n berthynas llai ffurfiol sy'n adeiladu cyswllt positif'.

Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod y gweithiwr ailsefydlu yn darparu gwasanaeth cymhellgar ac ymatebol i'r bobl ifanc, oedd yn wirfoddol a heb fod yn fygythiol. Roedd y gweithiwr ailsefydlu yn ymgysylltu'n dda â'r bobl ifanc a'u problemau.

Roedd rôl y gweithiwr ailsefydlu wedi newid yn sylweddol yn ystod y prosiect. Roedd hyn wedi cyd-fynd â newid yn neilydd y swydd, ond pwysleisiodd staff YOT y byddai'r rôl wedi newid fodd bynnag. I ddechrau, roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi treulio llawer o amser yn datblygu pecynnau cefnogi, oedd yn cynnwys gweithgareddau a phrosiectau i ymgysylltu'r bobl ifanc, wrth iddynt ail-ymgartrefu yn y gymuned o'r YOI. Cafodd y rhain eu cynllunio i ddatblygu hunanbarch, parch at eraill, a sgiliau cymdeithasol drwy "annog ymagwedd bositif at fywyd".

Nod cyfranogiad hefyd oedd paratoi'r bobl ifanc am ETE fwy ffurfiol. Ystyriodd y swyddog nodweddion pobl ifanc fel eu hanghenion cyfathrebu, arddulliau dysgu, a diddordebau personol wrth ddatblygu eu pecynnau cefnogaeth. Roedd y math o weithgareddau a gynigiwyd yn cynnwys cic-focsio, celf a chrefft, a gwaith serameg. Byddai cynllun prentisiaeth pêl-droed, oedd yn cynnwys hyfforddiant sgiliau sylfaenol, yn cael ei gynnig yn fuan. Fodd bynnag, treuliodd y gweithiwr ailsefydlu llai o amser yn gynyddol ar y math hwn o waith prosiect wrth i'r rôl ganolbwyntio mwy ar weithio gyda'r RSP.

Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod ymweld â phobl ifanc yn yr YOI cyn iddynt gael eu rhyddhau, yn ganolog i lwyddiant rôl y gweithiwr cefnogi ailsefydlu. Roedd hyn yn galluogi adeiladu perthnasoedd positif o'r cychwyn cyntaf. Fel esboniodd aelod o'r panel, "Maen nhw'n cwrdd â'r gweithiwr ailsefydlu ac yn cael gwybod beth y gall ef ei wneud drostyn nhw, y gefnogaeth y gall ef ei darparu, bod y cysylltiadau wedi cael eu gwneud. Mae hyn yn helpu i oresgyn y pryder y mae llawer ohonynt yn ei deimlo."

Cynigiodd lawer o'r bobl ifanc gafodd gyfweliad sylwadau ar hyn, gan nodi bod ymgysylltu cynnar gyda'r gweithiwr ailsefydlu wedi gwneud iddynt

deimlo’n fwy hyderus am eu gallu i atal eu hunain rhag aildroseddu ac i “roi trefn ar bethau” ar ddiwedd eu dedfrydau.

Roedd ymatebwyr yn credu bod y gweithiwr ailsefydlu yn ymwneud â rôl ‘gafael llaw’ i helpu’r bobl ifanc gael mynediad i wasanaethau. Nodwyd tai fel mater pwysig lle roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi bod yn eiriolwr i’r bobl ifanc a’u helpu i ddatrys problemau. Er enghraifft, esboniodd un person ifanc sut roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi helpu, drwy drafod eu hanghenion tai gyda darparwyr gwasanaeth. Mewn achos arall, roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi galluogi person ifanc i gael arian ar gyfer bond tai er mwyn sicrhau llety.

Roedd y gweithiwr ailsefydlu hefyd wedi codi ymwybyddiaeth y rheiny oedd yn cyflwyno gwasanaethau i’r heriau oedd yn wynebu’r grŵp hwn o bobl ifanc. Roedd personél lefel gwasanaeth o ganlyniad yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus yn well am sut y gellid cwrdd ag anghenion y bobl ifanc drwy eu darpariaeth.

Helpodd rôl y gweithiwr ailsefydlu gyda gwneud a dilyn i fyny ar gyfeiriadau i’r RSP gyda nodi problemau oedd yn codi pan roedd asiantaethau yn dehongli eu cyfrifoldebau yn wahanol. Roedd hefyd yn cadw anghenion pobl ifanc yn flaenllaw wrth wneud penderfyniadau. Yn enghraifft o hyn oedd pan roedd y gweithiwr ailsefydlu wedi atal pobl ifanc rhag cael eu gosod mewn llety gwesty heb gefnogaeth ochr yn ochr â chyn droseddwyr o oedolion.

## 6.3 Swyddogaeth adolygu

Nid oedd corff adolygu uwch yn YOT 3. Trafododd is-grŵp y Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB) y gwaith ailsefydlu a gyflwynwyd drwy’r cynllun peilot i sicrhau fod pobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun yn cael eu diogelu’n ddigonol. Roedd cadeirydd yr RSP yn trosglwyddo gwybodaeth ddethol o adroddiadau misol a gwblhawyd gan reolwr YOT i grŵp llywio’r LSCB i’w trafod yn y cyfarfodydd hyn.

Hysbyswyd cyfarfodydd monitro is-grŵp yr LSCB gan ddangosyddion fel:

- canran y bobl ifanc y cynigiwyd y ddarpariaeth a gynigiwyd drwy'r cynlluniau peilot iddynt, a'r nifer a wirfoddolodd i'w derbyn
- statws llety
- statws ETE
- cyfraddau aildroseddu (yn cynnwys difrifoldeb ac amlder)
- sgoriau hawdd eu niweidio a risg ar ddechrau a diwedd ymgysylltiad pobl ifanc â'r cynllun peilot
- cyfranogiad asiantaethau ym mhob cynllun ailsefydlu unigol.

## 6.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

Cefnogodd y cyllid ailsefydlu y gweithiwr ailsefydlu a gwirfoddolwyr, a chynnal cronfa pobl ifanc fach.

Roedd y graddau yr oedd partneriaid wedi ymrwymo adnoddau i ailsefydlu yn amrywio, yn dibynnu'n rhannol ar anghenion unigol y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Roedd rhai cyfweleion yn pryderu bod gwahanol ddehongliadau sefydliadau o'u cyfrifoldebau dros droseddwyr ifanc yn effeithio ar eu parodrwydd i ymrwymo adnoddau. Fodd bynnag, oherwydd ni wnaeth y panel gychwyn tan haf 2010, roedd yn rhy gynnar i ffurfio casgliadau am ymrwymo adnoddau amlasiantaeth.

### 6.4.1 Gwaith partneriaeth o gwmpas ailsefydlu

Amlygodd y rhai gafodd gyfweliad gyfraniad yr RSP a'r gwaith ailsefydlu cysylltiedig wrth gwrdd ag anghenion y bobl ifanc. Roedd wedi helpu i greu cysylltiadau rhwng yr YOT ac asiantaethau eraill drwy feithrin dealltwriaeth am rolau asiantaethau eraill, fel y mae'r dyfyniadau a ganlyn yn adlewyrchu:

> "Fwy na thebyg ni fyddai llawer o aelodau'r panel wedi cwrdd, ac eithrio efallai i gyfeirio pobl at ei gilydd. Roedd cyfle fan hyn i ystod ehangach o asiantaethau ymwneud yn ddyfnach â'i gilydd.
>
> Llwyddodd i greu cysylltiadau rhwng asiantaethau nad oeddent wedi cydweithio o'r blaen … roeddent yn gwybod beth oedd y lleill yn ei wneud a phwy yr oeddent yn gweithio gyda hwy, ond nid oedd llawer o gyswllt rhyngddynt."

Yn ôl llawer o ymatebwyr yr oedd yn y gorffennol ddiffyg cyfathrebu rhwng y bobl ifanc, yr YOT ac asiantaethau partner eraill. Er enghraifft, teimlwyd er yr oedd yr asiantaethau partner oedd yn rhan o'r RSP wedi gweithio gyda'i gilydd, roedd effeithiolrwydd y cydweithio wedi bod yn anwastad. Sylw nodweddiadol i'r perwyl hwn oedd, "Roedd llawer ohono yn gallu bod yn ddarniog … nid rhywbeth bwriadol ydoedd … ond nid oedd un person â chyfrifoldeb drosto yn yr YOT yr oedd asiantaethau yn gallu cysylltu â hwy".

## 6.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

Yn ystod y prosiect, defrydwyd mwy o bobl ifanc yn y gymuned a derbyniodd lai ohonynt ddefrydau o gaethiwed. Nid oedd yn bosib ynysu'r graddau yr oedd hyn o ganlyniad i'r cynllun peilot a'r gwaith ailsefydlu a gynhaliwyd fel rhan ohono.

Casglodd y tîm ymchwil dystiolaeth ansoddol gref i awgrymu fod y cynllun ailsefydlu yn YOT 3 wedi darparu manteision i'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Roedd y rhain yn arbennig o amlwg yn ystod y chwe mis cyntaf ar ôl gadael caethiwed.

Roedd y bobl ifanc gafodd gyfweliad yn teimlo'n bositif am y gefnogaeth ailsefydlu yr oeddent wedi'i derbyn. Roedd wedi codi eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd oedd yn agored iddynt a'u helpu i wneud defnydd adeiladol o'u hamser. Dywedodd un person ifanc, "Mae'n well nag eistedd gartref yn gwneud 'f**k all' a mynd i mewn i drwbl", tra y dywedodd un arall "Mae'n fy helpu i feddwl am yr hyn y gallwn fod yn ei wneud".

Roedd staff YOT yn teimlo fod y bobl ifanc yn mwynhau'r gweithgareddau. Roedd y bobl ifanc hefyd yn bositif am y gweithgareddau. Er bod y bobl ifanc yn cydnabod bod y gweithgareddau yn debyg i rai eraill oedd ar gael iddynt, roeddent yn amau a fyddent wedi cymryd rhan ynddynt yn absenoldeb y cynllun peilot. "Byddwn wedi bod yn hongian o gwmpas y strydoedd a mynd yn ôl i'r hen leoedd gyda'r bobl roeddwn yn arfer treulio amser gyda hwy", oedd un sylw cyffredin.

Roedd agweddau pobl ifanc tuag at droseddu wedi gwella drwy gyfranogi yn y cynllun peilot. Roedd rhai yn dweud eu bod yn llai tebygol o aildroseddu. Er enghraifft, cyfeiriodd un person ifanc at yr agwedd fwy positif yr oedd wedi'i datblygu ers gadael caethiwed. Ar gael ei ryddhau, cafodd ei gefnogi gan y gweithiwr ailsefydlu ac roedd hynny, ynghyd â dod yn dad, wedi golygu na fyddai'n cymryd y risg o aildroseddu a dychwelyd i gaethiwed. Dywedodd, "Dydw i ddim am fynd yn ôl i'r ffordd yr oeddwn yn arfer bod nawr fod plentyn gen i. Mae cymryd rhan yn y gwaith gyda [gweithiwr ailsefydlu] wedi rhoi'r cyfle i mi roi trefn ar bethau a sefydlu pethau er mwyn i mi ddechrau eto".

Mae'r cynllun peilot wedi helpu i chwalu rhwystrau a hyrwyddo ymgysylltiad mewn gweithgareddau positif drwy roi ymdeimlad o gyflawniad i'r bobl ifanc. Fel y nododd un aelod o staff, "Mae rhai ohonynt heb erioed gael y cyfle i gredu ynddyn nhw'u hunain … dydyn nhw ddim wedi teimlo eu bod yn gallu cyflawni rhywbeth". Mae'r gweithgareddau a gyflwynwyd drwy'r cynllun wedi darparu cefnogaeth a chynnig 'rhwyd ddiogelwch' sydd wedi helpu i leihau aildroseddu. Er enghraifft, disgrifiodd un person gafodd gyfweliad sut "yr oedd hi'n gwylio ymddygiad pobl ifanc yn fwriadus i weld a oeddent mewn perygl o syrthio yn ôl i mewn i'w hen ffyrdd, gan sylwi ar bethau fel a oeddent yn cael trafferth gan bobl eraill ac a oeddent yn cael eu bwlio i mewn i'r math o weithgareddau yr oedd wedi eu cael i mewn i drafferth o'r blaen".

Dywedodd dri o'r bobl ifanc ar y cynllun peilot gafodd gyfweliad eu bod wedi cael mynediad i gyrsiau fel rheoli cyllideb a byw'n annibynnol. Roedd hyn wedi'u helpu i fod yn fwy trefnus a byw'n llai anhrefnus. Gan fyfyrio ar hyn, dywedodd un person gafodd gyfweliad, "i rai o'r bobl ifanc hyn mae angen ailadeiladu neu adeiladu hyd yn oed sgiliau eithaf sylfaenol fel gwybod sut i ddarllen amserlen bws, gwybod sut i gynllunio siwrnai, siarad â phobl yn briodol".

Roedd tri o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y cynllun peilot wedi mynd ymlaen i'r coleg. Byrhawyd dedfryd un o'r rhain oherwydd bod y gweithiwr ailsefydlu wedi darbwyllo'r llys y byddai dedfryd hwy wedi peryglu'i lle yn y coleg a'r

cyfle i newid yr oedd yn ei gynrychioli. Roedd y person ifanc yn credu bod y gweithiwr ailsefydlu yn rhywun dibynadwy, yr oedd yn gallu ymddiried ynddo, ac y gallai ei helpu i ymdrin â heriau yn effeithiol. Esboniodd sut yr oedd y gwaith ailsefydlu wedi hwyluso ei dedfryd fyrrach fel a ganlyn:

> "Fe wnaethon nhw fy ngadael i allan yn gynnar oherwydd dywedwyd wrth y llys fy mod yn gwneud y gwaith ailsefydlu hwn ac y gallwn fynd i'r coleg a chael swydd. Felly, oherwydd eu bod yn gwybod y byddwn yn gwneud rhywbeth, roedden nhw'n meddwl y byddai hynny'n well na fy nghadw i i mewn".

Roedd y cynllun peilot wedi gwella ansawdd y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a ddarparwyd gan yr YOT. Helpodd y gweithiwr ailsefydlu bobl ifanc i gael mynediad i'r gwasanaeth hwn a manteisio arno. Er enghraifft, roeddent wedi hwyluso mynediad un person ifanc i aciwbigo fel ffordd o oresgyn caethiwed i sylwedd. Fodd bynnag, roedd y rhai gafodd gyfweliad yn cydnabod bod ystod eang iawn o ffactorau yn effeithio ar agweddau pobl ifanc tuag at sylweddau, a'u hymwneud â hwy. Roedd y rhai gafodd gyfweliad hefyd yn cydnabod nad oedd y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun yn hawdd eu helpu yn aml. Roed gan lawer broblemau dwfn nad oedd modd eu goresgyn yn hawdd. Roedd rhai ag agweddau oedd yn eu hatal rhag ymgysylltu a derbyn help gan wasanaethau yr oeddent, iddynt hwy, "yno i frwydo yn eu herbyn", yng ngeiriau aelod o staff.

Dywedodd gweithiwr YOT nad oedd rhai o'r bobl ifanc wedi cydymffurfio ag unrhyw orchymyn a roddwyd gan y llys. Yn hynny o beth, nid oedd yn hawdd rhagweld a fyddent yn  ymgysylltu â'r cynllun ailsefydlu. Roedd y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan randdeiliaid a'r bobl ifanc yn awgrymu eu bod yn fwy tebygol i ymgysylltu â'r gefnogaeth un i un oedd ar gael drwy'r peilot na gydag ymagweddau blaenorol.

## 6.6 Dadansoddiad Asset

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer 30 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth. Dewiswyd grŵp cymhariaeth craidd yn cynnwys 10 person ifanc (wedi'u dethol i adlewyrchu hanes troseddol a nodweddion y grŵp ymyrraeth yn agos). Dewiswyd grŵp cymhariaeth estynedig pellach o 70 o bobl ifanc hefyd, yn cynnwys pobl ifanc gyda hanes troseddol tebyg, ond nad oeddent o reidrwydd yn cyfateb ar nodweddion cefndir fel rhyw neu ethnigrwydd. Felly cyfanswm nifer y bobl ifanc a gynhwyswyd yn y dadansoddiad yw 110, y mae pob un ohonynt wedi ymwneud â'r YOT.

Roedd rhan fwyaf y 110 yn 16 oed neu'n hŷn cyn yr ymyrraeth, fel yr oedd rhan fwyaf y rheiny yn y grŵp ymyrraeth (Tabl 6.1).

**Tabl 6.1: Proffil oed sampl**

| **Oed** | **Grŵp ymyrraeth** | **Grŵp cymhariaeth craidd** | **Grŵp cymhariaeth craidd** |
|---|---:|---:|---:|
| 13 | 0 | 0 | 3 |
| 14 | 0 | 0 | 2 |
| 15 | 8 | 3 | 11 |
| 16 | 7 | 6 | 22 |
| 17 | 14 | 0 | 22 |
| 18 | 1 | 1 | 10 |
| Ddim ar gael | - | - | - |
| Cyfanswm | 30 | 10 | 70 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Ni chafodd rhyw ac ethnigrwydd tri chwarter y grŵp eu cofnodi ac felly nid oedd yn bosib ymgymryd â dadansoddiad yn seiliedig ar y newidynnau hynny. Roedd bron i 96 y cant o'r sampl yn hŷn na 15 oed ac roedd tri chwarter yn 16-18 oed.

Cyflwynir sgoriau Asset ar gyfer y sampl o 110 o bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 6.2.

**Tabl 6.2: Dadansoddiad sgoriau ASSET yr holl bobl ifanc**

| | Nifer gyda sgôr o 0 | Nifer gyda sgôr o 1 | Nifer gyda sgôr o 2 | Nifer gyda sgôr o 3 | Nifer gyda sgôr o 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau byw | 11 | 33 | 31 | 23 | 1 |
| Teulu a pherthnasoedd personol | 2 | 19 | 36 | 36 | 6 |
| Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth | 5 | 10 | 46 | 31 | 7 |
| Cymdogaeth | 14 | 24 | 43 | 17 | 1 |
| Ffordd o fyw | 1 | 9 | 40 | 42 | 7 |
| Camddefnyddio sylweddau | 13 | 23 | 28 | 23 | 12 |
| Iechyd corfforol | 64 | 27 | 7 | 1 | 0 |
| Iechyd emosiynol a meddyliol | 16 | 21 | 32 | 25 | 5 |
| Amgyffrediadau ohonyn nhw'u hunain | 9 | 24 | 53 | 11 | 2 |
| Meddwl ac ymddygiad | 0 | 5 | 36 | 49 | 9 |
| Agwedd at droseddu | 4 | 14 | 47 | 26 | 8 |
| Cymhelliad i newid | 9 | 14 | 41 | 27 | 8 |

Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)

Yn rhan fwyaf yr achosion, aseswyd bod gan y bobl ifanc sgôr Asset o 2 neu lai ym mhob categori Asset.

Cyflwynir proffil y bobl ifanc gafodd eu cynnwys yn y grŵp ymyrraeth yn Nhabl 6.3:

**Tabl 6.3: Nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Ymyrraeth | | Cymhariaeth craidd | | Cymhariaeth estynedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyn | Ar ôl | Cyn | Ar ôl | Cyn | Ar ôl |
| 0 trosedd | 0 | 23 | 0 | 5 | 0 | 47 |
| 1 drosedd | 2 | 2 | 4 | 2 | 20 | 10 |
| 2-5 trosedd | 13 | 5 | 6 | 3 | 32 | 13 |
| 6-10 trosedd | 9 | 0 | 0 | 0 | 16 | 0 |
| 10+ trosedd | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Cyfanswm | 4 | - | - | - | - | - |
| 0 trosedd | 30 | 30 | 10 | 10 | 70 | 70 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Dadansoddwyd cyfanswm nifer y troseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc cyn ar ôl yr ymyrraeth. Roedd gwybodaeth ar gael  ar gyfer 26 o'r 30 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth; roedd 13 wedi cyflawni 2-5 trosedd, roedd 9 wedi cyflawni 6-10 trosedd ac roedd 2 wedi cyflawni mwy na 10 trosedd cyn yr ymyrraeth. Ni wnaeth 23 o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth gyflawni unrhyw droseddau ar ôl yr ymyrraeth tra roedd 2 wedi troseddu unwaith ers yr ymyrraeth ac roedd 5 wedi cyflawni 2-5 trosedd. Nid oedd unrhyw rai ohonynt wedi cyflawni mwy na 5 trosedd. Felly, nid oedd tri chwarter o'r rheiny oedd wedi cymryd rhan yn yr ymyrraeth wedi aildroseddu ar ôl yr ymyrraeth. O ystyried y bobl ifanc cymhariaeth, nid oedd hanner (n=5) y grŵp craidd a dau draean (n=47) y grŵp estynedig wedi aildroseddu yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn awgrymu bod y rheiny yn y grŵp ymyrraeth yn llai tebygol o aildroseddu. Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau yn fawr ac maent yn seiliedig ar nifer bach o bobl ifanc yn unig, felly dylid ymdrin â'r canfyddiad fel un dangosol yn unig.

Cyflwynir uchafswm difrifoldeb y troseddau ar gyfer y grŵp ymyrraeth cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 6.4.

**Tabl 6.4: Uchafswm difrifoldeb troseddau yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Ymyrraeth | | Cymhariaeth craidd | | Cymhariaeth estynedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Ôl** |
| Dd/b | - | 23 | - | 5 | - | 47 |
| 1 | - | 0 | - | 0 | - | 1 |
| 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 9 | 0 |
| 3 | 7 | 3 | 5 | 4 | 25 | 17 |
| 4 | 6 | 0 | 2 | 0 | 18 | 4 |
| 5 | 3 | 1 | 1 | 0 | 9 | 0 |
| 6 | 9 | 2 | 1 | 0 | 9 | 1 |
| Dim data | 4 | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 30 | 30 | 10 | 10 | 70 | 70 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Cyflawnwyd y troseddau mwyaf difrifol gan lai o bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth (uchafswm o 5 neu fwy) ar ôl yr ymyrraeth. Cyn yr ymyrraeth, roedd 12 o'r grŵp hwn wedi cyflawni troseddau difrifoldeb 5 neu 6 (3 a 9 pherson ifanc yn ôl eu trefn). Wedi hynny dim ond un person ifanc gyflawnodd drosedd difrifoldeb 5, a 2 berson ifanc droseddau difrifoldeb 6. Roedd gostyngiad hefyd yn nifrifoldeb troseddau a gyflawnwyd gan y grwpiau cymhariaeth, er bod hyn o bwynt cychwyn is (roedd bron i hanner y grŵp ymyrraeth wedi cyflawni troseddau gyda difrifoldeb o 5 neu'n uwch o'u cymharu â chwarter y grŵp cymhariaeth estynedig).

## 6.7 Casgliad

Roedd yr angen i weithwyr ailsefydlu ddatblygu perthnasoedd un i un gyda'r bobl ifanc yn amlwg o'r astudiaeth achos hon. Oherwydd yr ymddiriedaeth oedd wedi datblygu roedd  y gweithiwr ailsefydlu wedi gallu gweithio gyda'r bobl ifanc i ddangos y ffordd i wasanaethau a sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o'u hanghenion ac ymateb yn briodol. Roedd arfer da wedi'i feithrin oherwydd y gweithio agos rhwng y swyddog ailsefydlu a'r swyddog DTO.  Roedd hyn wedi golygu bod rolau wedi datblygu mewn ffyrdd oedd yn

ategu'i gilydd ac roedd angen pobl ifanc am wahanol fathau o gefnogaeth yn cael ei gydnabod.

Wynebwyd heriau lle nad oedd gan yr unigolion hynny oedd yn mynychu cyfarfodydd RSP yr awdurdod i ymrwymo adnoddau neu lle nad oedd presenoldeb wedi bod yn gyson. Roedd angen hefyd i sefydlu meini prawf clir i bennu pwy ddylai fod yn gyfrifol am gyllido agweddau o'r gefnogaeth oedd ei hangen ar y bobl ifanc. Nid oedd hon yn broblem yr oedd modd ei datrys yn lleol ym mhob achos gan fod dehongliadau gwahanol o'r gofynion deddfwriaethol. Roedd angen eglurder a chytundeb felly am weithredu.

Pwysleisiwyd yr angen i'r holl asiantaethau fod yr un mor ymrwymedig i'r gwaith ailsefydlu yn yr astudiaeth achos hon. Roedd gwahanol ALlau neu adrannau o fewn ALlau wedi ymgysylltu i raddau amrywiol. Er mwyn mwyafu potensial yr asiantaethau a gynrychiolwyd ar y panel i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc roedd angen mwy o gysondeb.

Byddai angen monitro'r ymagwedd newydd i'r RSP dros gyfnod o amser cyn gallu dod i gasgliadau pendant. Ar yr un pryd roedd y gweithgareddau dargyfeiriol a gefnogwyd drwy gyllid ailsefydlu bellach yn llai pwysig nac ar ddechrau'r peilot; gellid mesur eu gwerth, y tu hwnt i agweddau eraill y gwaith ailsefydlu, dros amser yn unig.

**Canfyddiadau allweddol: YOT 3**

**Yr RSP: strwythur a gweithrediad**

Nod y cynllun peilot yn YOT 3 oedd rhoi cefnogaeth ailsefydlu ychwanegol i bobl ifanc; eu cynorthwyo gyda'u hanghenion llety; cyfryngu gydag aelodau'u teuluoedd; eu cefnogi i mewn i ETE neu weithgareddau adeiladol eraill; ac i leihau'r risg a berir iddynt hwy a ganddynt hwy. Sefydlwyd yr RSP fel panel ar wahân ar ôl i gynlluniau i'w integreiddio gydag un presennol yn yr YOT fod yn aflwyddiannus. Nid oedd gan aelodau'r RSP yr awdurdod i wneud penderfyniadau bob amser, ac roedd hyn wedi arwain at broblemau. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai asiantaethau gwirfoddol yr oeddent eisoes yn darparu cefnogaeth ailsefydlu gael eu cynnwys ar yr RSP.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Bu’r gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn ymweld â phobl ifanc mewn YOIs; cyfeirio ymlaen at yr RSP; cydlynu goruchwylio ac ailsefydlu pobl ifanc ochr yn ochr â staff YOT (a’r swyddog DTO yn benodol); cyfryngu rhwng pobl ifanc a’u teuluoedd; eu hebrwng i gyfarfodydd; recriwtio mentoriaid; a chydgysylltu â darparwyr ETE. Roedd yr agweddau ar rôl y gweithiwr gafodd yr effaith fwyaf yn cynnwys ymweld â phobl ifanc mewn caethiwed i ddechrau adeiladu perthynas â hwy; helpu pobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau; a gwneud asiantaethau partner yn ymwybodol o ailsefydlu a’r heriau a wynebir gan bobl ifanc yn y cynllun peilot.

**Y corff adolygu**

Nid oedd gan YOT 3 swyddogaeth adolygu bellach. Roedd is-grŵp yr LSCB yn monitro’r gefnogaeth ailsefydlu a gyflwynwyd drwy’r cynllun peilot. Casglodd rheolwr YOT 3 adroddiadau ar hyn i’w trafod mewn cyfarfodydd is-grŵp yr LSCB.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Roedd ymatebwyr yn teimlo fod y graddau yr oedd partneriaid yn ymrwymo adnoddau i gynlluniau ailsefydlu yn amrywio. Roeddent yn gweld hyn yn rhannol oherwydd anghenion y bobl ifanc unigol, ac yn rhannol oherwydd y gwahanol ffyrdd yr oedd asiantaethau yn dehongli eu cyfrifoldebau ar gyfer cefnogi ailsefydlu pobl ifanc. Teimlwyd ei fod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant ynglŷn â hyn, fodd bynnag.

**Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Roedd RSP YOT 3 wedi gwella gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu. Yn benodol, roedd wedi helpu i wella cyfathrebu rhyngasiantaeth.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella canlyniadau i bobl ifanc**

Roedd cyfraddau caethiwed yn YOT 3 wedi syrthio ers dechrau’r cynllun peilot, ond nid oedd y graddau yr oedd hyn o ganlyniad i’r gwaith a gynhaliwyd o dan y cynllun yn glir. O ganlyniad i gyfranogi yn y cynllun peilot, roedd pobl ifanc yn fwy parod i ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi. Fe wnaethon nhw fwynhau’r gweithgareddau a gynigiwyd iddynt fel rhan o’r cynllun, oedd wedi eu helpu i aros allan o drwbl. Roedd pobl ifanc wedi ymgymryd ag ystod o gyfleoedd ETE drwy’r cynllun peilot. Mewn rhai achosion, roedd eu hymrwymiad i hyn wedi arwain at ddedfrydau byrrach.

# 7. Astudiaeth achos 4

Mae YOT 4 yn gweithio ar draws dau awdurdod lleol (ALlau). Bu’r tîm ymchwil yn ymweld â YOT 4 ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2010. Gwrthododd reolwr yr YOT roi caniatâd i gyfweld â’r bobl ifanc. Nid oedd y Panel Cefnogi Ailsefydlu (RSP) yn gweithredu ar adeg yr ymweliad cyntaf, felly ni wnaeth yr ymchwilwyr siarad ag unrhyw aelodau’r panel. Ar adeg yr ail ymweliad roedd yr RSP wedi’i sefydlu a chynhaliwyd cyfweliadau â rhai aelodau’r panel. Cafodd personél YOT eu cyfweld yn ystod y ddau ymweliad.

## 7.1 Y Paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

### 7.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel

Yn wreiddiol cynigiodd YOT 4 y byddai Panel Cefnogi Ailsefydlu amlasiantaeth newydd (RSP) yncael ei ymgynnull gyda goruchwyliaeth gan grwpiau strategol, fel y Bwrdd Rheoli Lleol y Gwasaneth Troseddau Ieuenctid (YOS), a’r Byrddau Diogelu Plant Lleol (LSCBs) a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) y ddau ALl.

Fodd bynnag, dywedodd personél YOT nad oedd wedi bod yn bosib gweithredu’r model hwn. Roedd hyn o ganlyniad i bresenoldeb isel mewn cyfarfodydd RSP gan bersonél strategol o asiantaethau partner. Heb y bobl hyn, nid oedd yn bosib gwneud penderfyniadau ynghylch ailsefydlu pobl ifanc.

Yn ôl personél YOT, nid oedd rhai o’r rheiny a wahoddwyd yn ystyried bod y materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd RSP o fewn eu cylch gorchwyl, ac yn teimlo y byddai staff gweithredol mewn gwell sefyllfa i fynychu. Rhoddodd un cyfwelai o’r YOT y farn y dylai staff lefel gweithredol eistedd ar yr RSP, gan fod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o anghenion, problemau ac amgylchiadau’r bobl ifanc:

> “I mi, yn bersonol, mae’n drueni bod yn rhaid i’r lefel wasanaeth a’r goruchwylio lefel uwch fod yn swyddogaeth y panel...Pwy well i ffurfio cynllun na’r rheiny sy’n gweithio gyda’r person ifanc? Os oes problem gydag adnoddau, er enghraifft, yr angen i brynu rhywbeth, mae hynny’n rhywbeth y gall yr YOT ei wneud a dydw i ddim yn gweld

> problem gyda'r ymarferydd yn cael hynny wedi'i gytuno gan Reolwr yr YOT. Byddai'r broses honno yn llawer mwy cynnil."

Barn yr unigolyn hwn yw y dylai RSPs gael mewnbwn gan y staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl ifanc pan yn trafod eu hanghenion. Byddai mewnbwn o'r fath yn amhrisiadwy wrth adolygu a oedd gwasanaethau cefnogi (tai, darparwyr addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac ati) yn ymrwymo adnoddau i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc. Ar yr un pryd, roedd presenoldeb uwch staff o'r amrywiol wasanaethau cefnogi yn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau.

Cynigiodd YOT 4 strwythur newydd i'r RSP. Parhaodd y gwaith ailsefydlu ehangach yn yr un modd ar y cyfan ar lefel weithredol. Roedd yr RSP newydd - RSP Rheoli Troseddwyr Integredig- (RSP, IOM) yn cynnwys personél lefel uwch. Cafodd ei integreiddio gyda'r grŵp IOM presennol a arweiniwyd gan yr heddlu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP). Penderfynwyd ar y strwythur hwn oherwydd roedd y grŵp IOM eisoes yn trafod ailsefydlu *Troseddwyr Toreithiog a Pharhaus (PPOs) o oedolion oedd* yn dynesu at gael eu rhyddhau.

Roedd YOT 4 hefyd wedi sefydlu RSP ychwanegol yn cynnwys personél strategol a gweithredol o addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, llety a gwasanaethau ieuenctid. Roedd asiantaethau eraill yn bresennol fel y bo'n briodol.

Roedd hyn yn golygu nad oedd angen i bersonél strategol fynychu cyfarfodydd RSP (IOM). Roedd hefyd yn sicrhau bod cynlluniau ailsefydlu yn eu lle pan gadawodd y bobl ifanc gaethiwed, yn hytrach na chael oedi fyddai'n cynyddu'r risg y byddent yn aildroseddu.

Nid oedd unrhyw gyfarfodydd RSP wedi cael eu cynnal o dan y strwythurau arfaethedig newydd ar adeg yr ymweliad cyntaf. Roedd y ddau banel wedi'u sefydlu ac yn gweithredu erbyn yr ail ymweliad astudiaeth achos. Fodd bynnag, roedd yr ail banel amlasiantaeth yn ifanc iawn, nid oedd yr aelodaeth

yn gyson eto, ac felly nid oedd modd cynnal cyfweliadau gydag aelodau'r panel.

Ym mis Tachwedd 2010, roedd aelodaeth yr RSP (IOM) fel a ganlyn:

- Rheolwr YOT
- Uwcharolygydd yr Heddlu
- Rheolwr Gwasanaeth yr Heddlu
- Rheolwr Data'r Heddlu (mynychu pan yn berthnasol i rannu data'r heddlu)
- Arolygwyr yr Heddlu
- Pennaeth Tîm Ymateb Arfog yr Heddlu
- Swyddog Prawf
- Pennaeth Gwasanaethau Ieuenctid
- Rheolwr CSP o un o'r ALlau
- Rheolwr Tai o un o'r ALlau

Roedd un uwch ymatebydd yn teimlo y dylid cynrychioli tai a gwasanaethau cymdeithasol ar yr RSP (IOM). Byddai hyn yn sicrhau bod anghenion tai pobl ifanc yn cael eu cwrdd yn fwy cyson. Teimlwyd mai diffyg staff i gynnal tasgau allweddol yr asiantaethau oedd wedi atal yr asiantaethau hyn rhag mynychu, yn hytrach na diffyg parodrwydd.

### 7.1.2 Gweithredu ac effeithiolrwydd y panel

Cynigir i'r holl bobl ifanc mewn caethiwed yn ardal YOT 4 y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Gall rhai sydd ar orchmynion cymunedol y mae angen cefnogaeth ddwys arnynt a'u bod mewn perygl difrifol o fynd i mewn i gaethiwed gymryd rhan hefyd. Cynigir cefnogaeth ailsefydlu o dan y cynllun peilot am gyfnod o chwe mis.

Mae staff YOT yn ei wneud yn glir i bobl ifanc fod eu hymgysylltiad â'r cynllun ailsefydlu peilot yn wirfoddol. Pwysleisir hyn yn y llyfryn arweiniad a ddarperir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun a'i rhieni a gofalwyr. Esboniodd cyfwelai YOT yr ymagwedd hon fel a ganlyn:

> "…Nid yw ailsefydlu yn cael ei orfodi ar y person ifanc; mae'n cael ei wneud fel proses…Rydym yn egluro'r manteision y byddant yn eu cael. Os maent yn dweud na, mae'n golygu na fydd ganddynt fynediad i'r

> gefnogaeth ailsefydlu. Os oes problemau ganddynt rydym yn egluro eu bod wedi gwrthod y gefnogaeth ailsefydlu yn y gorffennol, ond gallant gymryd rhan os ydynt yn dymuno gwneud hynny".

Ar adeg yr ail ymweliad astudiaeth achos, pan roedd yr RSP diwygiedig wedi'i sefydlu, adroddodd rhai cyfweleion bod y cyfarfodydd wedi bod yn fwy cynhyrchiol, â mwy o ffocws, ar y cyfan, gyda mwy o bobl yn mynychu.

Roeddent yn teimlo bod rhannu gwybodaeth yn y cyfarfodydd yn effeithiol. Rhannodd yr heddlu a'r YOT ddata am bobl ifanc yn gadael caethiwed, ac am y rheiny ar ddedfrydau cymunedol oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Roedd hyn yn sicrhau bod yr holl achosion yn cael eu trafod ynghyd â ffactorau a allai ddylanwadu ar eu hymddygiad troseddu. Mae'r ymateb canlynol yn amlinellu sut mae rhannu gwybodaeth yn dda wedi arwain at ailsefydlu effeithiol:

> "Roedd merch ifanc…yn derbyn llawer o ddiod a chyffuriau ac yn cael ei hecsbloetio'n rhywiol gan grŵp o ddynion hŷn, ysglyfaethus…aeth i'r ystâd ddiogel oherwydd diffyg cydymffurfio â gorchmynion llys. Pan ddaeth hi allan roeddem yn pryderu y byddai'n mynd i drwbl eto - nid oeddem yn gallu gadael iddi fynd yn ôl i'r un amgylchedd yr oedd ynddo o'r blaen, gyda'r un dylanwadau. Dyw hi ddim wedi aildroseddu ers hynny.
>
> Trefnon ni gyfarfod strategaeth i drafod hyn. Fe wnaethon ni sicrhau bod camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn eu lle. Daeth yr asiantaethau i gyd allan o'u silos a gwneud ychydig o waith diogelu plant. Trafododd cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant hyn fel rhywbeth oedd bron yn rhywbeth a fethwyd gan Adolygiad Achos Difrifol a denodd hynny bobl i'r bwrdd.
>
> Mae'r enghraifft hon yn gwneud i ni deimlo ein bod yn gwneud gwaith effeithiol. Roedd y dyfodol yn llwm iddi hi, ond nawr mae'n rhesymol".

Roedd y rheiny gafodd gyfweliad hefyd yn teimlo bod y gefnogaeth unigol a roddwyd yn ei lle i'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan a gweithio amlasiantaeth effeithlon ar y cyd wedi cael effeithiau positif.

Nododd y rhai gafodd gyfweliad sawl ffactor oedd yn atal yr RSP rhag bod yn gwbl weithredol. Roedd presenoldeb isel gan bersonél lefel gwasanaeth uwch yn un ffactor, ynghyd â'r farn ymysg rhai personél y tu allan i'r YOT mai

cyfrifoldeb YOT yn bennaf oedd ailsefydlu pobl ifanc. Roedd yr amser a gymerwyd i weithio allan sut y dylid gwario'r cyllid ailsefydlu yn ffactor arall, a nodwyd fel a ganlyn:

> "Mae'r mater o sut mae'r arian yn cael ei wario. Mae'n ymwneud ag angen - mae angen adolygu hynny dros amser. Mae'n anodd weithiau achos mae angen rhywbeth i roi cynnig arno a gweithio allan faint gallwch ei wario arno - mae angen i chi weithio allan pa mor briodol yw hynny".

Roedd arferion gwaith gwahanol yn y ddau ALI YOT 4 hefyd wedi effeithio ar effeithiolrwydd yr RSP. Roedd gan un ALI fwy o brofiad o fentrau amlasiantaeth fel y cynllun peilot. Roedd hyn y golygu ei fod wedi addasu yn gyflymach ac yn hawdd i'r lefel o weithio mewn partneriaeth oedd ei hangen wrth weithredu'r cynllun.

Cynigiodd y rhai gafodd gyfweliad awgrymiadau pellach am sut y gellid newid yr RSP a'r gweithrediadau cysylltiedig o gwmpas ailsefydlu pobl ifanc i gynyddu effeithiolrwydd yr ymagwedd yn y dyfodol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar:

- wneud ailsefydlu pobl ifanc y rhan o ymagwedd ataliol ehangach, yn cynnwys eu teuluoedd a'u cyfoedion
- mynd i'r afael â materion ehangach sy'n effeithio ar ailsefydlu, fel camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig
- cynnwys mwy o waith cyfiawnder adferol yng nghynlluniau ailsefydlu pobl ifanc fel gwaith dioddefwyr wyneb yn wyneb
- cynnwys gwaith mentora gwirfoddolwyr mewn cynlluniau ailsefydlu i helpu i gynnal ymyraethau ar ôl 2011
- cael presenoldeb cyson gan wasanaethau cymdeithasol
- rhannu arfer da rhwng ALIau a'i ledu ar draws Cymru
- cael mwy o hyblygrwydd ym meini prawf cyllido ailsefydlu i geisio ymagweddau gwahanol i ailsefydlu pobl ifanc, gan awgrymu symud i ffwrdd o ymagwedd y Panel Ailsefydlu.

## 7.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Ni wnaeth YOT 4 gyflogi gweithiwr cefnogi ailsefydlu gyda'r cyllid ailsefydlu. Yn hytrach, defnyddiwyd cyfran o'r cyllid i ddarparu oriau ychwanegol i weithwyr sesiynol presennol wneud gwaith ailsefydlu.

## 7.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd

Ni roddwyd swyddogaeth adolygu bellach i YOT 4.

Yn hytrach na digwydd ar sail tri misol fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, cynhaliwyd adolygiadau ar sail angen yn cynnwys y personél strategol a gweithredol angenrheidiol:

> "Mae adolygiadau yn digwydd mor aml ag sydd angen. Rydym yn trafod a yw'r gwasanaethau a gweithrediadau cywir yn eu lle i'r bobl gywir; rydym yn trafod yn ôl yr angen yn unol â lefel anghenion unigolion. Maent wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn, ond mae'n rhaid iddynt fod ar lefel gyffredinol hefyd".

Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad fod y prosesau adolygu a roddwyd yn eu lle yn effeithiol a rhoddwyd tystiolaeth fod y gwaith ailsefydlu wedi lleihau aildroseddu a'r defnydd o gaethiwed.

Roedd YOT 4 yn bwriadu ymgymryd ag adolygiadau mwy ffurfiol, strwythuredig o'r RSP a gwaith ailsefydlu yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu gwell gwybodaeth am effeithiolrwydd gwahanol becynnau cefnogaeth a'r rhesymau dros hyn.

## 7.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

### 7.4.1 Dyrannu a dosbarthu cyllid

Yn 2009/2010, gwariodd YOT 4 yr holl gyllid ailsefydlu a ddyrannwyd iddynt, er yr oedd oedi mewn gwneud hynny. Adroddodd y rhai gafodd gyfweliad fod y cyllid wedi'i ddefnyddio fel y cynlluniwyd yn 2010-11.

Defnyddiodd YOT 4 y cyllid ailsefydlu yn y ffyrdd canlynol:

- talu am weithiwr sesiynol presennol i gyflwyno cefnogaeth ailsefydlu i bobl ifanc
- cyrsiau hyfforddiant i staff YOT wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion pobl ifanc sy'n cymryd rhan, er enghraifft troseddau rhywiol neu droseddau cyllyll
- darpariaeth hyfforddiant i bobl ifanc, a thalu am drwyddedau mynediad i safleoedd adeiladu
- prynu eitemau wedi'u teilwra i anghenion pobl ifanc i hwyluso eu hailsefydlu llwyddiannus, er enghraifft
  - gwely i berson ifanc oedd yn flaenorol yn rhannu gwely sengl gyda brawd/chwaer
  - dillad addas ar gyfer cyfweliad swydd
  - eitemau i gwpl ifanc oedd wedi cael plentyn yn ddiweddar, fel cot, dillad gwely, a dillad.

Yn ôl y rhai gafodd gyfweliad, mabwysiadwyd yr ymagwedd hon oherwydd ei bod yn sicrhau bod y cyllid "yn mynd yn uniongyrchol i'r bobl ifanc a'u teuluoedd i gwrdd â'u hanghenion". Oherwydd nid oedd angen cefnogaeth tai ar rai pobl ifanc, roeddent yn elwa mwy ar ddefnyddio'r cyllid mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos cyfiawnhad YOT 4 dros eu hymagwedd:

> Fe greon ni waith i ni'n hunain [drwy beidio â chyflogi gweithiwr ailsefydlu] oherwydd nid oeddem am brynu person/pobl i mewn i'w cysylltu â phob person ifanc oedd yn dod allan. Cyrhaeddodd y cyllid hwn y defnyddwyr gwasanaeth…Pan ddaethant allan fe gynllunion ni ei roi i mewn i bethau uniongyrchol y gallai fod eu hangen arnynt fel bondiau i dai neu fflatiau, dodrefn, teithio i leoedd gwaith, hyfforddiant, cyflogaeth ac ati…Edrych ar yr hyn oedd ei angen ar blant i'w sefydlu'n annibynnol…Mae hwn yn dda iawn o safbwynt dyhead…Nid yw un dull yn addas i bawb…mae cyllid ac anghenion yn amrywio llawer rhwng gwahanol ardaloedd. Mae'n rhaid iddo fod yn fodel lleol i anghenion lleol."

Ym marn personél YOT, roedd y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc. Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad y byddent yn defnyddio'r cyllid mewn ffordd debyg yn y dyfodol.

### 7.4.2 Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu

Ar adeg cychwyn y cynllun peilot, cafwyd rhai problemau ynghylch comisiynu gwasanaethau i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc. Roedd rhai personél lefel gwasanaeth yn eithaf anfodlon gwneud hynny. Yn ôl rhai a gafodd gyfweliad, roedd rhai unigolion, o sefydliadau eraill, yn teimlo bod ailsefydlu yn "rhywbeth i'r YOT". Gobeithiwyd y byddai'r cynllun peilot yn herio hyn drwy feithrin gweithio mewn partneriaeth effeithiol.

Roedd gan y ddau ALI a gwmpaswyd gan yr YOT wahanol lefelau o ymwneud â'r cynllun ailsefydlu peilot, fel y nodwyd yn adran 7.1.2. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i brofiad ehangach un ALI o weithio mewn partneriaeth amlasiantaeth, a gafwyd drwy ymwneud yn y gorffennol â mentrau amlasiantaeth tebyg eraill.

Ystyriwyd bod yr RSP yn ffordd effeithiol o ddal asiantaethau yn atebol drwy weithdrefn gynyddu leol. Os nad oedd gweithrediadau yn ymwneud ag ailsefydlu yn cael eu cwblhau'n brydlon, roedd rheolwyr lefel gwasanaeth a Rheolwr yr YOT yn cael eu hysbysu. Roedd hyn yn cyflymu datrys unrhyw broblemau o'r fath.

Yn ystod yr ail ymweliad astudiaeth achos, dywedodd rhan fwyaf y rhai gafodd gyfweliad fod gweithio mewn partneriaeth wedi cryfhau o ganlyniad i'r cynllun peilot. Roedd asiantaethau wedi dechrau cymryd cyfrifoldeb dros ailsefydlu a chomisiynu gwasanaethau cysylltiedig. Roedd yr RSP wedi pwysleisio gweithio mewn partneriaeth, a blaenoriaethau ailsefydlu.

Roedd proffil yr YOT wedi'i godi hefyd ymhlith asiantaethau eraill o ganlyniad i'r partneriaethau oedd ynghlwm wrth gyflwyno'r gwaith ailsefydlu. Roedd wedi caniatáu asiantaethau i ddysgu mwy am waith ac ethos eraill. Fel y dywedodd un person gafodd gyfweliad:

> "Roedd [gweithio mewn partneriaeth] yn fwy ynysig ac ar ffurf silo o'r blaen. Mae'r cynllun wedi ein rhoi ar dir cyfartal â gwasanaethau cymdeithasol. Roedd pobl yn siarad yn y panel - yn dweud "gwnewch chi hyn ac fe wnawn ni'r llall". Mae wedi codi ein proffil yn eu llygaid

hwy…Nawr maen nhw'n gweld ein bod yn anelu at yr un nod, felly mae angen i ni weithio gyda'n gilydd".

Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo nad oedd gweithio mewn partneriaeth wedi cynyddu cymaint ag y gallai fod wedi gwneud erbyn yr ail ymweliad astudiaeth achos.

## 7.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

Cyn cychwyn y cynlluniau peilot, roedd niferoedd uchel o bobl ifanc o ardal YOT4 yn cael eu dedfrydu i gaethiwed bob blwyddyn. Roedd aildroseddu dilynol a dychwelyd i gaethiwed yn ystod cyfnod ar drwydded hefyd yn uchel. Roedd rhan fwyaf y bobl ifanc hyn yn 16 - 17 oed, heb lety addas ar gael eu rhyddhau, a heb fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET).

Mae cyfraddau caethiwed wedi gostwng yn sylweddol ar draws y ddau ALl YOT 4. Nid oedd gan un ALl unrhyw bobl ifanc mewn caethiwed ar adeg yr ail astudiaeth achos ac nid oedd hynny erioed wedi digwydd o'r blaen.

Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo'n gryf nad oedd modd priodoli'r gostyngiad mewn aildroseddu a'r defnydd o gaethiwed i'r cynllun ailsefydlu peilot. Ystyriwyd hefyd ei fod yn rhy gynnar i fesur a myfyrio ar yr ystod o effeithiau a gyflawnwyd y tu hwnt i ostyngiad mewn aildroseddu ac yn y defnydd o gaethiwed, fel y dywedodd y cyfwelai hwn:

> "Mae'n ddyddiau cynnar. Mae'r effaith hyd yn hyn wedi bod yn rhesymol o safbwynt disgwyliadau. Mae diffyg gwybodaeth o ganlyniad i amseru'r gwerthusiad. Mae'n iawn i gael effeithiau byr dymor, h.y. cael pobl ifanc drwy eu cyfnod trwydded, ond effeithiau tymor hir sy'n bwysig. Mae angen i'r cyllid fod yn gynaliadwy er mwyn ennyn effeithiau. Rydym am allu dangos effeithiau tymor hwy o'r math hwn o waith dwys dros amser. Yn y dyddiau cynnar nid oedd yn effeithiol ond rydym wedi newid hynny. Ni fyddwn yn gallu dangos effaith tan ddiwedd y rhaglen ym mis Medi 2011".

Roedd y gostyngiadau mewn aildroseddu yn ALlau yr YOT 4 yn gysylltiedig yn rhannol â'r hunanbarch a'r hyder uwch a deimlwyd gan y bobl ifanc gafodd eu cefnogi drwy'r cynllun peilot. Nid oedd rhan fwyaf y bobl ifanc wedi cymryd

rhan lawn mewn addysg, ac roedd ganddynt amgyffrediad gwael ohonyn nhw'u hunain. Mae'r ymyraethau ETE, fel lleoliadau profiad gwaith a chardiau mynediad safleoedd adeiladau, wedi cael effaith sylweddol ar hyn, fel y nodir isod:

> "Yr effaith fwyaf i rai fu gwell hunanbarch a chynnydd. Mae'n beth mawr i rai ohonynt i gael eu cardiau safle adeiladu neu i gymryd rhan mewn cynlluniau hyfforddiant, gan na wnaethant gymryd rhan mewn addysg neu lwyddo mewn unrhyw arholiadau'.

> "Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn. Mae'r bobl ifanc yn ei werthfawrogi'n fawr. Nid ydynt erioed wedi cynyddu mewn addysg ac nid oeddent yn poeni am yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn sownd yn y meddylfryd o gael eu labelu'n droseddwyr, ond nawr maent yn gweld eu hunain fel cyflogeion posib".

Helpodd ymgysylltu ag ymyraethau ETE a gyflwynwyd drwy'r cynllun peilot i leihau troseddau drwy gynnwys y bobl ifanc mewn gweithgareddau mwy positif a dysgu sgiliau defnyddiol, trosglwyddadwy. Rhoddodd rieni adborth positif i staff am effaith y ddarpariaeth ETE ar eu plant. Roedd perthnasoedd rhwng rhieni a'r plant oedd yn cymryd rhan hefyd wedi gwella oherwydd y gweithgareddau ETE. Helpodd y cynllun peilot bobol ifanc oedd wedi ymgysylltu â YOT 4 i gael mynediad i wasanaethau cefnogi na fyddent fel arfer wedi'u defnyddio. Mae'n debygol hefyd fod hyn wedi cyfrannu tuag at y gostyniad mewn troseddu a welwyd yn yr ardal. Roedd yr RSP wedi codi ymwybyddiaeth asiantaethau partner o'r gwasanaethau a'r cyfleoedd oedd ar gael i'r bobl ifanc, efallai na fyddent wedi gwybod amdanynt fel arall.

Roedd agweddau rhai pobl ifanc tuag at yr YOT a gwasanaethau eraill wedi gwella o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y cynllun peilot, ym marn staff YOT. Fel eglurodd un ohonynt:

> "Gallaf feddwl am ychydig o bobl ifanc y mae eu hagweddau yn well. Maent wedi aeddfedu yn ystod eu hamser y tu mewn ac wedi gwerthfawrogi yr hyn yr ydym wedi'i fuddsoddi ynddynt. Mae eu perthnasoedd gyda ni wedi gwella."

Mae'r adnoddau a brynwyd i'r bobl ifanc gyda'r cyllid ailsefydlu wedi eu helpu i gymryd rhan lawnach mewn bywyd yn y gymuned, ym marn staff YOT. Er

enghraifft, roedd staff YOT wedi defnyddio'r arian i brynu dodrefn ar gyfer fflat y symudodd person ifanc i mewn iddo wrth adael caethiwed. Roedd hyn wedi'i helpu i oresgyn rhai o'i broblemau a deall canlyniadau ei droseddu. Mae'r rhain yn hanfodol i ailsefydlu llwyddiannus, fel yr eglurodd y cyfwelai

> "Mae wedi rhoi cyfleoedd bywyd iddynt. Mae p'un a y maent yn dewis ei dderbyn i fyny iddyn nhw, ond mae'r model newydd yn gallu eu cefnogi i symud ymlaen. Weithiau mae'n rhwystredig pan fydd pobl ifanc yr ydych am wneud pethau drostynt, ond ni allwch wneud hynny, ac mae'n cyrraedd y pwynt lle mae mwy o broblemau ganddynt oherwydd nid ydych wedi gallu gwneud dim byd, ond mae'r cynllun hwn yn helpu gyda hynny. Mae'n eu helpu i symud ymlaen…Mae'n beth da oherwydd ei fod yn dangos canlyniadau'u gweithrediadau iddynt".

## 7.6 Dadansoddiad Asset

Roedd y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyfanswm o 29 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth. Dewiswyd grŵp cymhariaeth craidd (wedi'u dewis i adlewyrchu hanes troseddol a nodweddion y grŵp ymyrraeth yn agos) yn cynnwys 391 o bobl ifanc. Roedd hyn yn golygu mai cyfanswm nifer y bobl ifanc gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad oedd 420. O ystyried y nifer bach yn y grŵp ymyrraeth, dylid trin y dadansoddiad gyda gofal.

Roedd mwy nag wyth deg y cant (349) o'r sampl yn wrywaidd, tra roedd 71 yn fenywaidd. Roedd bron pob un (27) a gymerodd ran yn yr ymyrraeth yn wrywaidd (27 o bobl ifanc) ynghyd â 2 fenyw. Roedd bron pob un (417) yn Wyn Prydeinig eu tras. Roedd mwy na hanner y sampl yn 17 oed neu'n hŷn. O'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth disgrifiwyd 28 fel pobl Gwyn Prydeinig.

O'r bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth, roedd 24 yn 16 oed neu'n hŷn cyn yr ymyrraeth (Tabl 7.1). Yn yr un modd, roedd rhan fwyaf y rheiny na gymerodd ran yn yr ymyrraeth yn 17 oed neu'n hŷn.

**Tabl 7.1: Proffil oed sampl**

| Oed | Grŵp ymyrraeth | Grŵp cymhariaeth craidd |
|---|---|---|
| 13 | - | - |
| 14 | 3 | 26 |
| 15 | 2 | 52 |
| 16 | 5 | 89 |
| 17 | 14 | 117 |
| 18 | 5 | 107 |
| Ddim ar gael | - | - |
| Cyfanswm | 29 | 391 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Cyflwynir y sgoriau Asset ar gyfer y sampl o 420 o bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 7.2.

**Tabl 7.2: Dadansoddiad sgoriau ASSET yr holl bobl ifanc**

| | Nifer gyda sgôr o 0 | Nifer gyda sgôr o 1 | Nifer gyda sgôr o 2 | Nifer gyda sgôr o 3 | Nifer gyda sgôr o 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau byw | 184 | 110 | 82 | 30 | 10 |
| Teulu a pherthnasoedd personol | 125 | 87 | 109 | 78 | 18 |
| Addysg statudol | 85 | 56 | 47 | 25 | 5 |
| Hyfforddiant neu gyflogaeth | 98 | 71 | 41 | 20 | 1 |
| Cymdogaeth | 175 | 172 | 57 | 11 | 1 |
| Ffordd o fyw | 91 | 137 | 112 | 68 | 9 |
| Camddefnyddio sylweddau | 122 | 144 | 85 | 48 | 18 |
| Iechyd corfforol | 299 | 93 | 20 | 4 | 1 |
| Iechyd emosiynol a meddyliol | 185 | 108 | 75 | 40 | 8 |
| Amgyffrediadau ohonyn nhw'u hunain | 184 | 131 | 78 | 19 | 5 |
| Meddwl ac ymddygiad | 61 | 108 | 152 | 88 | 8 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Aseswyd bod gan ran fwyaf y sampl sgôr Asset o lai na 3 cyn yr ymyrraeth, er barnwyd bod gan niferoedd uwch sgoriau Asset o 3 neu fwy mewn perthynas â theulu a pherthnasoedd personol, ffordd o fyw, a meddwl ac ymddygiad. Fodd bynnag, roedd gan bron i ddau draean o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth sgôr Asset cyfartalog o 2 neu'n uwch o'u cymharu â phedwar deg y cant o'r grŵp cymhariaeth.

**Tabl 7.3: Nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Grŵp ymyrraeth | | Grŵp cymhariaeth craidd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyn | Ôl | Cyn | Ôl |
| 0 trosedd | 0 | 19 | 0 | 278 |
| 1 drosedd | 2 | 4 | 82 | 39 |
| 2-5 trosedd | 9 | 4 | 209 | 57 |
| 6-10 trosedd | 5 | 1 | 43 | 15 |
| 10+ trosedd | 13 | 1 | 57 | 2 |
| Cyfanswm | 29 | 29 | 391 | 391 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Y 29 yn y grŵp ymyrraeth oedd wedi cyflawni'r nifer uchaf o droseddau cyn yr ymyrraeth (roedd 18 wedi cyflawni mwy na 6 throsedd, fel y nodwyd yn Nhabl 7.3). Roedd 13 o'r 29 wedi cyflawni troseddau gyda difrifoldeb o 4 neu'n uwch. Fodd bynnag nid oes unrhyw ddata wedi'i gofnodi am ddifrifoldeb troseddau ar ôl yr ymyrraeth. Felly tystiolaeth yr effaith yw nad oedd 19 o'r 29 o bobl ifanc wedi cyflawni unrhyw droseddau ar ôl yr ymyrraeth.

**Tabl 7.4: Uchafswm difrifoldeb troseddau yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Grŵp ymyrraeth | | Grŵp cymhariaeth craidd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyn | Ôl | Cyn | Ôl |
| 0 | 9 | | 212 | |
| 1 | 1 | | 2 | 2 |
| 2 | 2 | | 38 | 1 |
| 3 | 2 | | 45 | - |
| 4 | 7 | | 71 | 5 |
| 5 | 2 | | 9 | 1 |
| 6 | 4 | | 14 | - |
| 7 | | | | - |
| 8 | | | | 1 |
| Ddim ar gael | 2 | 29 | 1 | 381 |
| Cyfanswm | 27 | | 391 | 391 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd natur y bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth yn golygu mai nhw oedd y troseddwyr mwyaf difrifol cyn yr ymyrraeth. Roedd y bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth ddwywaith yn fwy tebygol o gyflawni'r troseddau mwyaf difrifol (difrifoldeb o 4 neu uwch) na'r grŵp cymhariaeth. Mae absenoldeb data ar ôl yr ymyrraeth yn golygu nad yw'n bosib dod i gasgliadau am effaith yr ymyrraeth ar ddifrifoldeb troseddau.

## 7.7 Casgliad

Roedd arfer gorau wedi esblygu oherwydd roedd yr YOT wedi gallu ffrwyno sgiliau a gwybodaeth gefndir staff presennol oedd wedi'i alluogi i adeiladu ar waith oedd wedi'i ddatblygu eisoes. Ar yr un pryd, dangosodd profiad YOT 4 yr angen i waith ailsefydlu ffocysu ar frocera gwasanaethau ac eirioli ar ran pobl ifanc, yn ystod y cyfnod lle roeddent fwyaf hawdd eu niweidio. Yn gyffredin â'r ymagweddau a fabwysiadwyd mewn mannau eraill, roedd hyn wedi cynnwys gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i sicrhau bod anghenion pobl ifanc yn cael eu cwrdd a hefyd gweithio i adfer perthnasoedd gyda theuluoedd. Ar yr un pryd galluogodd yr ymagwedd unigryw hon a fabwysiadwyd gan yr YOT hwn hwy i gwrdd â rhai o anghenion materol uniongyrchol y bobl ifanc yn ystod y cyfnod ailsefydlu, er enghraifft drwy brynu nwyddau a dillad.

Awgrymodd profiad yr YOT hwn fod angen i'r gwaith ailsefydlu allu defnyddio ystod eang o randdeiliaid, er mwyn sicrhau bod ymagwedd amlasiantaeth yn cael ei gwreiddio. Roedd peth tystiolaeth o anghysondeb yn ymgysylltiad rhai rhanddeiliaid yn y broses RSP er nad oedd yn glir i ba raddau y gellid priodoli hyn i'r model lle y sefydlwyd dau banel ar wahân. Hwyluswyd y gwaith a ymgymerwyd yn YOT 4 gan y ffaith fod gan un o'r ALlau brofiad o waith amlasiantaeth a'i fod yn gallu cyfrannu'r cefndir hwn i'r gwaith ailsefydlu. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn i'r un graddau yn yr ALl arall, ac effeithiodd hynny ar y ffordd y gwnaeth yr RSP weithio. Arweiniodd hyn at wahaniaethau yn y lefel yr oedd rhai asiantaethau wedi cyfrannu adnoddau, yn ystod y cyfnod cychwynnol.

Er bod y data cychwynnol yn bositif, roedd angen mwy o dystiolaeth er mwyn seilio casgliadau am effeithiolrwydd y model gafodd ei fabwysiadu ac ansawdd yr ymagwedd at waith ailsefydlu. Roedd yr YOT wedi ymrwymo i werthuso ei waith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, er nad oedd yn credu bod angen swyddogaeth adolygu bellach. Fodd bynnag, mae gwrthod caniatâd i gyfweld â phobl ifanc yn golygu bod eu barn ar goll o werthusiad yr YOT hwn. Ni ddarparwyd data ar ddifrifoldeb troseddau ar ôl yr ymyrraeth ar gyfer y grŵp ymyrraeth.

**Canfyddiadau allweddol: YOT 4**

**Yr RSP: strwythur a gweithrediad**

Roedd yr RSP yn YOT 4 yn hwyr yn dechrau oherwydd yr angen i newid y model a gynigiwyd yn wreiddiol. O dan y model terfynol, integreiddiwyd yr RSP gyda dau banel, a arweiniwyd gan yr heddlu, oedd yn bodoli eisoes. Parhaodd y gwaith ailsefydlu ar lefel weithredol, gan ei fod cyn y cynllun peilot. Roedd YOT 4 hefyd wedi sefydlu RSP arall a fynychwyd gan bersonél o wahanol asiantaethau, er bod hyn newydd ddechrau ac nid oedd yr aelodaeth wedi sefydlogi. Dywedodd ymatebwyr bod y prif RSP yn cael ei fynychu'n well ac yn gweithredu'n fwy effeithiol erbyn adeg yr ail ymweliad. Fodd bynnag, fe awgrymwyd sawl gwelliant y gellid ei wneud.

Roedd y penderfyniad i rannu swyddogaeth yr RSP gydag agweddau penodol wedi'u dirprwyo i ddau gorff gwahanol yn ymagwedd a fabwysiadwyd yn yr ardal Astudiaeth Achos hon yn unig. Nid oedd effaith y penderfyniad hwn i sefydlu RSP ychwanegol yn cynnwys personél strategol a gweithredol, i ategu'r RSP-IOM, wedi dod yn gwbl amlwg erbyn diwedd y gwerthusiad.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Ni wnaeth YOT 4 gyflogi gweithiwr cefnogi ailsefydlu, yn hytrach defnyddiwyd gweithwyr sesiynol i gefnogi'r bobl ifanc i ailsefydlu.

**Y corff ailsefydlu**

Nid oedd gan YOT 4 swyddogaeth adolygu bellach. Cynhaliwyd adolygiadau o'r RSP a'r gwaith ailsefydlu a gwblhawyd fel rhan o'r cynllun peilot yn ôl yr angen. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod y prosesau adolygu wedi gweithio'n dda. Roedd YOT 4 yn bwriadu cynnal adolygiadau mwy strwythuredig, ffurfiol yn y dyfodol.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Gwariodd YOT 4 y grant ailsefydlu llawn yn 2009-10 ac yn 2010-2011, er yr oedd oedi wrth wneud hynny yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Defnyddiwyd y grant i gynyddu oriau gweithiwr sesiynol presennol i gyflwyno cefnogaeth ailsefydlu; i dalu am gyrsiau hyfforddiant i staff YOT; i gyflwyno darpariaeth hyfforddiant a chardiau safle adeiladu i bobl ifanc, a'i wario ar nwyddau i bobl ifanc fel dodrefn a dillad. Roedd staff YOT yn teimlo bod yr ymagwedd hon wedi bod yn effeithiol wrth wella'r gefnogaeth ailsefydlu a gyflwynwyd i'r bobl ifanc.

**Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Roedd rhai partneriaid yn amharod i ddechrau i gyfrannu adnoddau i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc. Roedd hyn yn bennaf oherwydd profiad helaethach un ALI o fentrau amlasiantaeth o'i gymharu â'r llall. Roedd yr RSP a'r cynllun peilot wedi helpu i wella gweithio amlasiantaeth, ond roedd rhai o'r bobl gafodd gyfweliad yn teimlo y gellid ei wella ymhellach.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Gostyngodd cyfraddau caethiwed yn sylweddol yn y ddau ALI yn YOT 4 dros gyfnod y cynllun peilot. Nid oedd gan un ALI unrhyw bobl ifanc mewn caethiwed ar adeg yr ail ymweliad. Ni allai ymatebwyr briodoli hyn yn uniongyrchol i'r cynllun peilot, er eu bod yn teimlo ei fod wedi cyfrannu ato. Roedd y gwaith ailsefydlu a gyflwynwyd o dan y peilot wedi gwella ystod o ddeilliannau i bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Roedd y rhain yn cynnwys gwell hunanbarch a hyder drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth ETE a gwell perthynas â theuluoedd. Roedd y nwyddau a brynwyd wedi'u helpu i oresgyn rhai rhwystrau materol i ymgartrefu yn y gymuned.

# 8. Astudiaeth achos 5

Roedd Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) 5 yn cwmpasu un ardal awdurdod lleol. Bu'r SCYA yn ymweld â YOT 5 ym mis Gorffennaf 2010 ac ym mis Ionawr 2011. Nid oedd gan YOT 5 swyddogaeth adolygu bellach.

Roedd y Panel Cefnogi Ailsefydlu (RSP) yn gweithredu yn ystod y ddau ymweliad. Cynhaliodd y SCYA gyfweliadau gyda staff YOT, aelodau'r RSP a phobl ifanc yn ystod y ddau ymweliad.

## 8.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

Cyn sefydlu'r RSP, trafodwyd ailsefydlu pobl ifanc oedd yn gadael caethiwed o fewn fforwm amlasiantaeth. Daeth y fforwm hwn yn RSP ar gyfer YOT 5. Defnyddiwyd y fforwm presennol yn hytrach na sefydlu un newydd oherwydd roedd rhan fwyaf yr asiantaethau perthnasol eisoes yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Roeddent yn gwbl ymrwymedig i gynllunio a chyflwyno pecynnau cefnogi ailsefydlu i bobl ifanc.

Ystyriodd yr RSP becynnau cefnogi ailsefydlu i bobl ifanc oedd yn gadael caethiwed, ac i'r rheiny oedd mewn perygl o fynd i mewn i gaethiwed. Dyrannwyd cyfrifoldeb i'r asiantaethau perthnasol ar gyfer gweithredu'r camau gofynnol. Trafodwyd eu cynnydd wrth wneud hynny, ynghyd ag effeithiolrwydd y gweithrediadau wrth ddarparu gwell cefnogaeth a deilliannau i'r bobl ifanc yn yr RSP. Y gweithrediadau a drefnwyd ac a fonitrwyd drwy'r RSP fel arfer oedd pecynnau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) a gweithgareddau dargyfeiriol.

I gychwyn nod YOT 5 oedd comisiynu sefydliad elusennol i gyflwyno cefnogaeth ailsefydlu wedi'i theilwra i bobl ifanc yn defnyddio peth o'r cyllid ailsefydlu. Yn 2009-10, y nod oedd cyflogi cydlynydd ar gyfer un diwrnod yr wythnos gyda 1.5 o weithwyr cefnogi. Yn 2010-11, byddai gweithiwr cefnogi dros dro yn cael ei ariannu. Fodd bynnag, yn y pen draw mabwysiadodd YOT 5 ymagwedd wahanol i'r RSP a'r gwaith cefnogi ailsefydlu pan y gwnaethant

gyflogi gweithiwr cefnogi ailsefydlu llawn amser yn hytrach na defnyddio'r sefydliad elusennol.

### 8.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel

Ni newidiodd strwythur ac aelodaeth yr RSP lawer dros gyfnod y cynllun peilot. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn fisol. Cyfeiriwyd yr holl bobl ifanc oedd yn dod at ddiwedd eu dedfrydau o gaethiwed at yr RSP.

Ar ddechrau pob cyfarfod, trafodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Rhoddwyd diweddariadau ar gynnydd gan yr asiantaethau oedd yn gyfrifol am weithredu agweddau ar gynlluniau ailsefydlu pobl ifanc, a thrafodwyd cyfeiriadau newydd.

Amlinellodd gyfwelai strwythur cyfarfodydd yr RSP fel a ganlyn:

> "Daw'r cyfeiriad asiantaeth i mewn i'r [RSP] –gallai ddod gan rieni, asiantaethau neu'r YOT. Trafodir yr achos; bydd yr asiantaethau priodol sy'n bresennol yn ei dderbyn ac mae pethau'n dechrau digwydd…rydym yn gwneud cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gyntaf, yna cyfeiriadau newydd, yna rydym yn mynd i ffwrdd ac yn gwneud y gwaith gyda'r teulu, edrych ar eu sefyllfa gyda'r person ifanc a'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu yr wythnos honno. Mae'n gaeth iawn – mae gennym 24 awr i wneud y cyswllt cyntaf gyda'r teulu, pum diwrnod i ymweld â hwy, ac mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu fod yn ei le o fewn saith diwrnod. Ar yr agenda yr wythnos ddilynol, rydym yn trafod ac yn diweddaru'r achosion. Er enghraifft, rydym yn dweud ein bod wedi cwrdd â'r teulu a bod xyz wedi cael ei wneud. Rydym yn ei gadw ar yr agenda am chwe wythnos o leiaf i sicrhau bod popeth ar waith."

Roedd yr RSP yn cynnwys uwch staff o'r asiantaethau canlynol:

- YOT
- Tai
- Addysg
- Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) yr Heddlu
- Gwasanaethau cyfryngu
- Gwasanaethau ieuenctid
- Iechyd, yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
- Sector gwirfoddol

- Elusen camddefnyddio sylweddau
- Staff o’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) (yn ôl yr angen).

Staff rheoli’r YOT oedd yn cadeirio’r RSP. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod hyn yn gweithio’n dda oherwydd bod gan y cadeirydd berthnasoedd hir-sefydlog gydag aelodau a ddatblygwyd drwy weithio gyda fforwm lleol arall sy’n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Roedd hyn yn helpu i weithredu gweithrediadau yn gyflym ynghylch cynlluniau ailsefydlu pobl ifanc.

Er bod ‘craidd cyson’ o aelodau yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, roedd rhai cynrychiolwyr yn mynychu ar sail angen, fel yr heddlu ac adran dai’r awdurdod lleol (ALl). Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn ystyried hwn yn arfer effeithiol gan eu bod yn gwneud y defnydd gorau o amser cyfyngedig yr aelodau.

Roedd pawb gafodd gyfweliad yn teimlo bod yr asiantaethau perthnasol ar yr RSP. Nid oedd aelodaeth yn gyson ar adeg yr ymweliad astudiaeth achos cyntaf, ond cywirwyd hyn yn brydlon.

### 8.1.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel

Yn ystod yr ymweliad astudiaeth achos cyntaf, adroddodd rhan fwyaf yr ymatebwyr fod yr RSP yn gweithredu’n effeithiol, ond nad oedd eto wedi cyflawni’i botensial llawn. Adroddwyd bod hyn o ganlyniad i ymrwymiad anghyflawn gan rai o’r asiantaethau dan sylw. Roedd cyfarfod ‘ail-lansio’ yr RSP, a gynhaliwyd ym mis Awst 2010, wedi cywiro hyn yn rhannol, fodd bynnag.

Yn gyffredinol, roedd cyfweleion yn teimlo fod yr RSP a’r gweithgareddau ailsefydlu a gydlynwyd drwyddo yn effeithiol iawn. Nodwyd yr RSP fel maes arfer da mewn adolygiadau mewnol ac allanol a chefnogwyd hyn gan y rhai gafodd gyfweliad. Weithiau roedd yn rhaid mynd ar ôl aelodau’r RSP i weithredu gweithrediadau neu i roi diweddariadau ar gynnydd, ond mater bach oedd hwn.

Roedd cael yr holl asiantaethau ac unigolion perthnasol yn bresennol yn allweddol i lwyddiant yr RSP. Roedd rhannu gwybodaeth yn dda rhwng aelodau yn bwysig hefyd, fel y mae'r dyfyniad hwn yn ei nodi:

> "Gyda'r panel mae llawer o asiantaethau o gwmpas y bwrdd, a llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Mae'n gwbl weithredol".

Roedd ymatebwyr yn ystyried y gwaith ailsefydlu seiliedig ar angen, a weithredwyd drwy'r RSP, wrth wraidd ei effeithiolrwydd. Roedd gwaith un i un gyda'r bobl ifanc, gan y gweithiwr ailsefydlu, wedi dod i ben, fel yr amlinellwyd yn adran 8.2.

Cyfrannodd hyblygrwydd, cymhelliad a gallu staff YOT at ansawdd yr RSP a'r gwaith ailsefydlu. Yn ôl un cyfwelai:

> "Hwyluswyr [yr RSP/gwaith ailsefydlu] yw ysgogiad ac enw da'r tîm cyn yr holl brosiectau ac maent yn parhau nawr. Eu gallu i beidio ag aros yn llonydd ond i gwestiynu drwy'r amser sut gallwn wneud hyn yn well. Bod yn rhan o'r ymagwedd tîm fyddai'n cyd-fynd â hynny. Os yw'n golygu mwy o waith y tu allan i oriau neu newid y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda hwy. Maen nhw'n gallu gweld beth sydd y tu ôl i hynny."

Byddai'r gwaith ailsefydlu a gynhaliwyd gyda phobl ifanc yn YOT 5 yn cael ei ehangu drwy gyflwyno cynllun mentora gwirfoddolwyr. Byddai hyn yn gosod pobl ifanc gyda gwirfoddolwyr a hyfforddwyd fyddai'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn maes yr oedd gan y gwirfoddolwyr brofiad ynddo. Byddai gwirfoddolwyr yn cael eu cyfateb i bobl ifanc ar sail eu diddordebau. Mae'r ymagwedd gynlluniedig at hyn yn cael ei hegluro gan ymatebydd fel a ganlyn:

> "Rydym yn sefydlu cynllun mentora i staff a phobl ifanc. Gallai hynny gael ei gynnwys mewn ailsefydlu yn y dyfodol. Os [oes] gwirfoddolwr gyda set o sgiliau sy'n cyfateb i'r bobl ifanc, er enghraifft os yw'r person ifanc am ymuno â'r fyddin ac mae'r gwirfoddolwr yn gyn-filwr a ganddo'n holl sgiliau hynny. Mae'n ymwneud â meddwl mewn ffordd wahanol a chyfateb."

Mae pobl ifanc yn ymgysylltu â'r cynllun ailsefydlu peilot yn YOT 5 yn wirfoddol. Roedd rhai personél yn teimlo byddai mwy o bobl ifanc yn ymgysylltu â'r cynllun os oedd cyfranogiad yn orfodol, fel y nodir isod:

> "Dydw i ddim yn credu bod purdeb model oedd yn ymwneud â chyswllt ychwanegol oedd yn wirfoddol yn gweithio mewn sefyllfa YOT. Byddai'r plant…yn cael anhawster mawr yn gwahaniaethu os yw eu cyswllt â'r YOT yn statudol a bod peth cyswllt sy'n wirfoddol. Mae'n rhyfedd iawn i'r bobl ifanc a hefyd i staff YOT…gellid ei wella drwy agor y meini prawf allan."

Gallai hyn awgrymu fod yna beth cefnogaeth ar gyfer datblygu model mwy gorfodol.

## 8.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Cefnogwyd gweithiwr cefnogi ailsefydlu gyda'r cyllid ailsefydlu tan Ebrill 2011. Dechreuodd y gweithiwr yn yr YOT ym mis Ionawr 2010.

Rôl y gweithiwr cefnogi ailsefydlu oedd:

- darparu cefnogaeth ddwys i 10 i 15 o bobl ifanc ar unrhyw adeg
- gweithio oriau hyblyg yn unol ag anghenion ailsefydlu'r bobl ifanc
- hebrwng y bobl ifanc ar weithgareddau dargyfeiriol, fel ymweliadau â'r gampfa, chwarae pŵl, golff a chriced
- mynd â'r bobl ifanc yn ôl ac ymlaen i apwyntiadau. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys Canolfan Byd Gwaith, darparwyr ETE, a'r rheiny gydag asiantaethau fel tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- cyfryngu rhwng y bobl ifanc a'u teuluoedd.

Nid oedd gofyniad i'r gweithiwr ailsefydlu ymweld ag unrhyw bobl ifanc mewn caethiwed oedd yn dynesu at eu dyddiad rhyddhau, ac nid oedd chwaith yn eistedd ar yr RSP.

Roedd staff yn ystyried bod gwaith y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi cael effaith sylweddol ar atal aildroseddu a dychwelyd i gaethiwed. Yn sail i'r llwyddiant hwn oedd y gefnogaeth ddwys yr oedd yn ei gyflwyno.

Darparodd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu gefnogaeth y tu allan i oriau yn ystod nosweithiau a dros y penwythnos. Roedd hyn wedi helpu'r bobl ifanc rhag ymgysylltu â chymheiriaid a gweithgareddau yn ymwneud â throseddu. Roedd darpariaeth y tu allan i oriau wedi bod ar gael ar sail rota yn unig cyn hynny. O ganlyniad i orfod gweithio y tu allan i oriau, roedd staff YOT yn cael amser i ffwrdd yn ystod yr wythnos, a oedd yn gallu bod yn anodd ei gyflenwi.

Gweithiodd y gweithiwr cefnogi cyffuriau ac alcohol i gyflwyno ymyraethau camddefnyddio sylweddau drwy'r cynllun ailsefydlu peilot a gwaith ISS. Arweiniodd hyn at fwy o bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn ymgysylltu'n llwyddiannus â rhaglenni ailsefydlu.

Roedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi helpu i atgyfnerthu'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y gweithiwr cyffuriau ac alcohol. Cryfhaodd hyn effaith y gwaith hwn:

> "Mae gennym weithiwr cyffuriau ac alcohol, ond mae llawer o waith arall yn cael ei wneud hefyd. Mae'r [gweithiwr cefnogi ailsefydlu] yn casglu'r bobl ifanc ar ôl eu lleoliad ac mae cyfle i fynd â'r gwaith ymhellach yn anffurfiol drwy atgyfnerthu'r negeseuon, ond mae hefyd yn eu hannog i gadw eu hapwyntiadau gyda'r gweithiwr cyffuriau ac alcohol."

Ni newidiodd ffocws y gweithiwr cefnogi ailsefydlu lawer yn ystod y gwerthusiad. Fodd bynnag, nid oedd y gweithiwr cefnogi ailsefydlu wedi gwneud unrhyw waith ailsefydlu gyda'r bobl ifanc ers haf 2010. Yn hytrach, treuliwyd yr amser yn gwneud gwaith ISS, lle ymgymerwyd â gweithgareddau ailsefydlu tebyg, ond gyda grwpiau o bobl ifanc yn hytrach nac unigolion. Gwnaeth staff YOT uwch y newid hwn oherwydd niferoedd cynyddol y bobl ifanc oedd yn cael eu derbyn fel achosion YOT.

Roedd rhai o'r bobl gafodd gyfweliad yn teimlo nad oedd y gwaith grŵp a arweiniwyd gan y gweithiwr ailsefydlu mor effeithiol â'r gwaith un i un. Rhoddwyd y rhesymau canlynol dros hyn:

- efallai bod rhai pobl ifanc yn cael anhawster dod ymlaen gydag eraill mewn lleoliad grŵp

- efallai bydd angen i'r gweithiwr cefnogi ailsefydlu dreulio amser yn rheoli ymddygiad y gellid ei ddefnyddio'n fwy effeithiol yn gwneud gwaith ailsefydlu.
- efallai bydd angen ar rai pobl ifanc lefel fwy dwys o gefnogaeth y gellid ei darparu drwy waith un i un yn unig.

## 8.3 Y corff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd

Nid oedd gan YOT 5 swyddogaeth adolygu bellach. Trafodwyd canfyddiadau o adolygiadau mewnol ac allanol ym mhob ymweliad astudiaeth achos fel yr oeddent yn berthnasol i ailsefydlu pobl ifanc.

Gellid gwella monitro'r gefnogaeth ailsefydlu a roddwyd yn ei lle drwy'r cynllun peilot i gynorthwyo gyda gwerthuso 'yr hyn sy'n gweithio' yn YOT 5, yn ôl rhai o'r rheiny gafodd gyfweliad yn yr ymweliadau astudiaeth achos.

## 8.4 Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

Ar y cyfan, roedd staff gafodd gyfweliad yn ystod y ddau ymweliad astudiaeth achos yn teimlo bod yr holl asiantaethau perthnasol wedi ymrwymo adnoddau yn gyfartal ac yn deg i gynlluniau cefnogi ailsefydlu. Roedd rhai o'r asiantaethau perthnasol yn llai awyddus i ddechrau i gymryd rhan yn y cynllun peilot, ond cafodd hyn ei ddatrys yn gyflym.

Roedd asiantaethau yn gwbl ymrwymedig i'r RSP er gwaethaf amserlenni prysur a phrinder adnoddau:

> "Y peth da am hyn yw bod llawer o bobl yn ei wneud allan o ewyllys da. Ychydig iawn o arian sydd ganddynt i redeg y panel. Mae'n werth ardderchog am arian."

Cyn yr RSP, roedd rhai asiantaethau nad oeddent erioed wedi gweithio gyda phobl ifanc oedd yn ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid. I gychwyn, adroddodd y rhai gafodd gyfweliad fod rhai asiantaethau yn amharod i weithio gyda'r bobl ifanc. Roedd hyn wedi newid ers hynny, ac roedd yr holl asiantaethau wedi rhoi gweithrediadau yn eu lle i wella eu hailsefydlu, fel yr amlinellwyd gan un cyfwelai:

> “Doedd neb eisiau gwybod am y bobl ifanc o’r blaen oherwydd eu bod yn droseddwyr risg uchel, ond nawr mae hynny wedi newid. Mae’n wych nawr fod gennym gefnogaeth pawb - nid oedd yn cael ei adael [i’r YOT] ddod o hyd i’r adnoddau.”

Heb y cyllid ailsefydlu, ni fyddai wedi bod yn bosib cyflwyno’r gefnogaeth ychwanegol i’r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan i gwrdd â’u hanghenion cymhleth ac amrywiol:

> “Roedd angen i ni gynyddu swm yr amser cyswllt gyda’r bobl ifanc. Mae hynny wedi bod yn arbennig o anodd… rwy’n credu y byddem wedi cael anhawster mawr gyda’r garfan hon yn darparu’r lefel uwch o ddwysedd heb y cyllid – ni fyddem wedi gallu ei wneud.”

Er bod y sector addysg yn cael ei gynrychioli ar yr RSP, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod angen i agweddau rhai unigolion o’r sector newid i hwyluso ailsefydlu pobl ifanc i sicrhau’r effaith bositif fwyaf posib. Mae helaethder y bwlch rhwng eu safbwynt a’r rheiny y maent yn credu sy’n bodoli o fewn yr adran addysg yn cael ei grynhoi gan y dyfyniad canlynol:

> “Un o’r partneriaethau mwyaf…o safbwynt eu busnes craidd nad yw wedi symud ymlaen yw addysg. Cafwyd llawer o fentrau ond nid yw busnes craidd addysg wedi newid i blant sy’n troseddu a hefyd rheiny sydd wedi’u gwahardd neu nad ydynt yn mynychu…Does dim byd wedi newid ers Y Papurau Du. Maent wedi’u gyrru gan ddangosyddion perfformiad fel canlyniadau arholiadau. Mae’n glir iawn eu bod yn gweld plant mewn tri chategori; y rheiny fydd yn cyflawni, y rheiny gallant gyflawni gydag ychydig o waith ychwanegol, a’r rheiny…nad ydynt yn dymuno eu cael. Dyna lle mae’r CYPP wedi gosod yr her - beth ydych yn ei wneud yn nhermau eich busnes craidd i’r garfan honno?”

Mae’r CYPP yn yr Ardal Astudiaeth Achos hon wedi codi’r angen yn benodol i gael gwell darpariaeth i bobl ifanc gafodd eu gwahardd o’r ysgol neu sydd ar fin cael eu gwahardd.

### 8.4.1 Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu

Mae gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu wedi’i gryfhau drwy’r RSP, a’r ymagwedd amlasiantaeth oedd yn hanfodol ar ei gyfer, yn ôl staff. Roedd rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd a’r tu allan iddynt yn effeithiol.

Mae hyn wedi helpu gweithredu gweithrediadau mewn cynlluniau cefnogi ailsefydlu pobl ifanc.

Roedd yr RSP yn cynnwys personél uwch o ystod o asiantaethau yn cwrdd wyneb yn wyneb. Roedd yn galluogi cyfathrebu a her uniongyrchol. Roedd hefyd yn adeiladu ar gysylltiadau a pherthnasoedd presennol rhwng asiantaethau.

Drwy'r RSP a'r hyfforddiant o gwmpas ailsefydlu (a gefnogwyd yn defnyddio'r cyllid ailsefydlu), roedd aelodau'r RSP wedi dod i ddeall y ffactorau oedd yn dylanwadu ar droseddu ymhlith pobl ifanc yn yr ardal ac yn ehangach. Roedd aelodau'r RSP hefyd wedi dylanwadu ar bartneriaid ehangach, fel ynadon, ynghylch dedfrydu ac ailsefydlu pobl ifanc. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod y gwaith hwn wedi codi proffil a blaenoriaeth ailsefydlu pobl ifanc. Mae'r dyfyniad a ganlyn yn dangos y pwyntiau hyn:

> "Roedd pobl fwy na thebyg yn ei wneud [gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu], ond nid oedd yn cael ei ystyried fel ag y mae nawr. Erbyn hyn, mae pobl yn meddwl mwy am ailsefydlu. Dydy e ddim yn ymwneud â'r bobl ifanc yn dod allan o gaethiwed yn unig. Mae'n ymwneud ag ailsefydlu a rhoi'r gefnogaeth ychwanegol…Mae diogelu ar frig agenda pawb. Mae rheolwyr gwasanaeth yno. Mae hynny wedi adeiladu perthnasoedd yn wych. Mae gennych fynediad i bopeth sydd ei angen arnoch."

## 8.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

### 8.5.1 Deilliannau i bobl ifanc

Roedd cyfraddau caethiwed yn YOT 5 yn uchel iawn yn draddodiadol, o'u cymharu â gweddill Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau hyn wedi haneru dros gyfnod y cynllun ailsefydlu peilot. Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad nad oedd y deilliant hwn o ganlyniad i'r ymyraethau a roddwyd yn eu lle drwy'r cynllun yn unig, ond bod hynny wedi cyfrannu'n sylweddol ato. Mae'r sylw canlynol yn nodweddiadol o'r rheiny a wnaed gan y rhai gafodd gyfweliad i'r perwyl hwn:

> "Gobeithio bydd [y gwerthusiad presennol] yn rhoi barn wybodus i ni ar [y graddau y bydd y prosiect peilot wedi llwyddo i sicrhau gwella

> deilliannau i bobl ifanc]. Mae'n anodd ei ateb; anodd i ynysu'r effaith. Mae bron fel dweud pe na fyddai [y gweithiwr cefnogi ailsefydlu] gyda ni beth fyddai'n digwydd. Y pethau hynny nad os ateb iddynt. Mae mwy o gwestiynau mae'n siŵr ar hyn o bryd nac atebion."

Awgrymodd un person gafodd gyfweliad y gallai'r gwaith ailsefydlu gael mwy o effaith drwy gael tîm ailsefydlu penodedig. Yna gellir gwneud y gwaith o gofnodi tystiolaeth, monitro a gwerthuso'r gwaith ailsefydlu un i un ar wahân i'r gwaith grŵp ISS yn haws.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod lleihau difrifoldeb yn ogystal â swm y troseddu yn ddeilliant pwysig y gwaith ailsefydlu. Roeddent yn gweld y gefnogaeth ddwys a ddarparwyd i'r bobl ifanc drwy'r cynllun peilot wrth wraidd hyn, fel yr amlinellodd un cyfwelai:

> "Ni allwch gymryd cam gwag. Os ydych yn trefnu pecyn ailsefydlu a chefnogaeth ychwanegol i berson ifanc sydd wedi bod drwy'r system sy'n debygol o aildroseddu, hyd yn oed os ydynt yn aildroseddu nid yw wedi'i wastraffu oherwydd mae'n dal i roi'r gefnogaeth iddynt. Efallai y tro nesaf na fydd y drosedd mor ddifrifol. Efallai bydd rhai pobl yn amau hyn, ond i mi, nid ydynt yn mynd i gael troseddwr toreithiog na fydd byth yn troseddu eto, ond gallai'r difrifoldeb leihau. Mae hynny'n dangos efallai bod rhywbeth yn gweithio."

Dros gyfnod y cynllun peilot, roedd y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan wedi glynu'n agosach at eu cynlluniau ailsefydlu, ac wedi ymgysylltu ag ystod ehangach o wasanaethau cefnogi. Roedd y bobl ifanc hefyd wedi cyflawni'r ystod ganlynol o ddeilliannau. Roedd gwaith y gweithiwr cefnogi ailsefydlu yn ganolog i hyn (fel yr amlinellwyd yn adran 8.2).

- Gwell ymgysylltiad ag ETE. Roedd pobl ifanc wedi ymgysylltu'n dda â darparwyr ETE. Roeddent wedi cwblhau ystod o brofiad gwaith, roedd pum person ifanc wedi cyflawni cymwysterau lefel mynediad, ac roedd eraill wedi sicrhau cyflogaeth yn y lluoedd arfog a gyda'r cyngor lleol.
- Gwell statws llety. Roedd yr RSP wedi sicrhau cyllid ar gyfer uned llety diogel newydd yn yr ardal. Ers cychwyn y prosiect peilot, ni leolwyd unrhyw bobl ifanc mewn llety gwely a brecwast. Roedd y gweithiwr ailsefydlu hefyd wedi bod yn allweddol i gefnogi pobl ifanc hawdd eu niweidio unwaith yr oeddent yn eu llety, yr oedd wedi'u galluogi i ymgartrefu.
- Gwell perthnasoedd rhwng pobl ifanc a'u rhieni a theuluoedd. Arweiniwyd hyn gan weithiwr ailsefydlu, fel yr eglurodd dau berson ifanc

> “Mae’r [gweithiwr cefnogi ailsefydlu] yn dod i’r tŷ os bydd unrhyw broblem yn codi”.
>
> “Mae [y gwaith ailsefydlu / gweithgareddau dargyfeiriol] wedi fy helpu i sefydlogi eto ar ôl dod allan o [gaethiwed]. Roeddwn yn yfed ac yn cymryd Valium a chollais fy mhen. Roeddwn yn dadlau gyda fy mam a’i chariad ac yn mynd allan a dwyn ceir. Ond dydw i ddim wedi bod mewn trwbl o gwbl ers bod gyda’r YOT”.

Roedd y bobl ifanc gafodd gyfweliad oedd wedi profi’r gefnogaeth ailsefydlu a gyflwynwyd drwy’r YOT cyn y cynllun ailsefydlu peilot yn cymharu’r ddarpariaeth bresennol yn ffafriol. Roeddent yn teimlo ei bod wedi helpu i’w hatal rhag aildroseddu drwy lenwi eu hamser a’u helpu i ddod o hyd i diddordebau newydd. Roedd y gefnogaeth ailsefydlu cyson a pharhaus hefyd yn ymddangos yn ffactor cyfrannol o ran ei effeithiolrwydd.

Roedd rhai sylwadau a wnaed i’r perwyl hwn gan y bobl ifanc gafodd gyfweliad fel a ganlyn:

> “Mae’n helpu i fy nghadw’n brysur ac yn fy nghadw allan o drwbl”.
>
> “Weithiau byddai’n well gen i fod gyda’r YOT oherwydd nid ydynt yn cymryd y p*** ac maent yn gofyn i chi beth sy’n bod”.
>
> “Maen nhw’n cadw dweud wrthoch chi i beidio â gwneud pethau. Maen nhw’n mwydro’ch pen chi gyda’r peth bob dydd. Mae’n ormod o drafferth mynd i drwbl erbyn hyn”.
>
> “Dydw i ddim mewn llawer o drwbl nawr.Mae [y gwaith ailsefydlu] wedi fy helpu”.
>
> “Pan fyddwch gyda [y gweithiwr cefnogi ailsefydlu] nid ydych yn teimlo fel [troseddu]. Pan fyddwch wedi bod i’r gampfa yn ystod y dydd dydych chi ddim yn teimlo fel mynd allan gyda’r nos”.

Roedd y rheiny gafodd gyfweliad yn teimlo y gellid cynyddu effaith y gwaith a gynhaliwyd drwy’r cynllun peilot drwy gael mwy o gyfleoedd cyflogaeth dilys ar ddiwedd lleoliadau ETE.

Amlygwyd yr angen am fwy o gyfleoedd swyddi gan y bobl ifanc gafodd gyfweliad: “Byddai cael swydd yn well. Mae gwaith yn grêt”. Cafodd hyn ei

ailadrodd gan bersonél YOT. Roedd personél YOT hefyd yn teimlo y dylid ymestyn y gwaith ETE a gynhaliwyd fel rhan o gynlluniau ailsefydlu i'r rheiny oedd yn cyrraedd 18 oed tra'n gweithio gyda'r YOT, gan fod y gwasanaethau hynny ar hyn o bryd yn annigonol.

## 8.6 Dadansoddiad Asset

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyfanswm o 7 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth. Dewiswyd grŵp cymhariaeth craidd (a ddewiswyd i adlewyrchu hanes troseddu a nodweddion y grŵp ymyrraeth yn agos) oedd yn cynnwys 10 person ifanc. Mae hyn yn golygu mai cyfanswm nifer y bobl ifanc oedd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad oedd 17, sampl sy'n rhy fach i allu dod i gasgliadau dibynadwy. Dylid felly trin y dadansoddiad yn ofalus iawn.

Roedd 11 o'r 17 person ifanc, yn cynnwys 5 o'r 7 yn y grŵp ymyrraeth yn 16 oed neu'n hŷn cyn yr ymyrraeth (Tabl 8.1). Roedd yr unig berson ifanc 13 oed yn y grŵp yn rhan o'r ymyrraeth.

**Tabl 8.1: Proffil oed sampl**

| Oed | Grŵp ymyrraeth | Grŵp cymhariaeth craidd |
|---|---:|---:|
| 13 | 1 | 0 |
| 14 | 0 | 1 |
| 15 | 1 | 3 |
| 16 | 1 | 3 |
| 17 | 3 | 1 |
| 18 | 1 | 2 |
| Ddim ar gael | - | - |
| Cyfanswm | 7 | 10 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Cyflwynir sgoriau Asset ar gyfer pob categori ar gyfer y sampl o 17 o bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 8.2.

**Tabl 8.2: Dadansoddiad sgoriau Asset yr holl bobl ifanc**

| | Nifer gyda sgôr o 0 | Nifer gyda sgôr o 1 | Nifer gyda sgôr o 2 | Nifer gyda sgôr o 3 | Nifer gyda sgôr o 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau byw | 2 | 3 | 6 | 5 | 1 |
| Teulu a pherthnasoedd personol | 1 | 1 | 5 | 7 | 3 |
| Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth | 1 | 1 | 7 | 4 | |
| Cymdogaeth | 0 | 3 | 10 | 4 | 0 |
| Ffordd o fyw | 0 | 0 | 6 | 10 | 1 |
| Camddefnyddio sylweddau | 0 | 2 | 8 | 6 | 1 |
| Iechyd corfforol | 4 | 8 | 5 | 0 | 0 |
| Iechyd emosiynol a meddyliol | 1 | 2 | 8 | 6 | 0 |
| Amgyffrediadau ohonyn nhw'u hunain | 0 | 0 | 10 | 7 | 0 |
| Meddwl ac ymddygiad | 0 | 0 | 1 | 14 | 2 |
| Agwedd at droseddu | 0 | 0 | 5 | 10 | 2 |
| Cymhelliad i newid | 0 | 3 | 6 | 5 | 3 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd traean o leiaf, ac, mewn pum categori, hanner y sampl â sgôr Asset o 3 neu'n uwch cyn yr ymyrraeth. Cofnodwyd y sgoriau Asset uchaf mewn perthynas â theulu a pherthnasoedd personol, ffordd o fyw, meddwl ac ymddygiad, ac agwedd at droseddu.

Cyflwynir proffil y bobl ifanc yn Nhabl 8.3.

**Tabl 8.3: Nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Grŵp ymyrraeth | | Grŵp cymhariaeth craidd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyn | Ôl | Cyn | Ôl |
| 0 trosedd | 0 | 1 | 0 | 4 |
| 1 drosedd | 0 | 2 | 0 | 0 |
| 2-5 trosedd | 0 | 4 | 0 | 0 |
| 6-10 trosedd | 0 | 0 | 0 | 3 |
| 10+ trosedd | 7 | 0 | 10 | 3 |
| Cyfanswm | 7 | 7 | 10 | 10 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

O'r 7 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth yr oedd data digonol ar gael ar eu cyfer, roedd pob un wedi cyflawni mwy na 10 trosedd cyn yr ymyrraeth. Ni chyflawnodd 1 o'r rhain unrhyw droseddau ar ôl yr ymyrraeth, ac roedd 2 wedi troseddu unwaith. Roedd y 4 oedd yn weddill wedi troseddu ddwywaith. Mae'n rhaid dehongli'r data hwn yng ngoleuni natur y bobl ifanc oedd wedi'u cynnwys yn y grŵp ymyrraeth a'r ffaith fod gan bob un ohonynt ddifrifoldeb troseddu o 6 (Tabl 8.4, isod). Roedd pob un o'r 10 person ifanc yn y grŵp cymhariaeth wedi cyflawni 10 neu fwy o droseddau cyn yr ymyrraeth. Ar ôl yr ymyrraeth nid oedd 4 wedi cyflawni unrhyw droseddau, ond roedd y 6 arall wedi cyflawni mwy o droseddau na'r bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth: roedd 3 o'r grwp cymhariaeth wedi cyflawni 6-10 trosedd ac roedd 3 wedi cyflawni mwy na 10 trosedd yn ystod yr un cyfnod.

Cyflwynir uchafswm difrifoldeb y troseddau a gyflawnwyd gan y bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 8.4.

**Table 8.4: Uchafswm difrifoldeb troseddau yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Grŵp ymyrraeth | | Grŵp cymhariaeth craidd | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Ôl** |
| 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| 3 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| 4 | 0 | 1 | 0 | 4 |
| 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 6 | 7 | 0 | 10 | 2 |
| Ddim ar gael | - | 2 | - | 4 |
| Cyfanswm | 7 | 7 | 10 | 10 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd pobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth yn llai tebygol o gyflawni'r troseddau mwyaf difrifol ar ôl yr ymyrraeth. Tra bod 6 pherson ifanc yn y grŵp cymhariaeth wedi cyflawni troseddau gydag uchafswm difrifoldeb o 4 neu'n uwch, dim ond 1 o'r bobl ifanc yn y grŵp ymyrraeth oedd wedi gwneud hynny. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith fod uchafswm difrifoldeb y troseddau a gyflawnwyd gan y grŵp ymyrraeth a'r grŵp cymhariaeth yr un peth (difrifoldeb o 6).

## 8.7 Casgliad

Roedd y defnydd o fforwm amlasiantaeth presennol wedi ysgogi ymgysylltiad gan randdeiliaid unigol a theimlwyd bod hyn wedi cyfrannu at ei effeithiolrwydd. Yn benodol, roedd gweithio mewn partneriaeth wedi'i wella oherwydd lefel yr ymgysylltiad gan randdeiliaid allweddol. Roedd presenoldeb aelodau yn dda yn yr RSP ac roedd hynny felly yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth. Cafodd hyn ei wneud yn fwy effeithiol oherwydd bod asiantaethau wedi ymrwymo adnoddau i'r gwaith.

Roedd hefyd yn glir fod rôl yr RSW wedi galluogi'r YOT i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r bobl ifanc dan sylw. Roedd hyn wedi cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol (ac felly lleihau'r risg o lithro i mewn i arferion blaenorol) a hefyd gwaith yn canolbwyntio ar ailadeiladu eu perthnasoedd gydag eraill yn eu bywydau.

Gallai profiad YOT 5 awgrymu bod angen cefnogaeth un i un dwys yn dilyn awgrymiadau bod gwaith grŵp wedi bod yn llai effeithiol fel ffordd o gwrdd ag anghenion y bobl ifanc. Adlewyrchir y casgliad hwn yn y data meintiol, er bod y niferoedd bach iawn yn golygu nad oes modd dod i gasgliadau pendant. Ar yr un pryd, mae'r casgliadau o'r astudiaeth achos hwn yn pwysleisio'r angen i bob asiantaeth gymryd rhan a chyfrannu at waith ailsefydlu, yn cynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant.

Pwysleisiodd yr astudiaeth achos hon yr angen i adolygu gwaith ailsefydlu yn systematig yn rheolaidd.

<u>**Canfyddiadau allweddol: YOT 5**</u>

**Yr RSP: strwythur a gweithrediad**

Defnyddiodd YOT 5 fforwm amlasiantaeth presennol i drafod ailsefydlu pobl ifanc yn hytrach na defnyddio RSP newydd. Defnyddiwyd cyfarfodydd RSP i sefydlu pecynnau cefnogi ailsefydlu i bobl ifanc oedd yn gadael caethiwed a'r rheiny mewn perygl o fynd i mewn i gaethiwed. Roedd aelodau'n teimlo fod yr holl asiantaethau perthnasol ar y panel, a bod presenoldeb yn dda iawn ar y cyfan. Roedd gweithrediad yr RSP wedi gwella'n gyson yn ystod y prosiect peilot. Roedd cynlluniau yn eu lle i ehangu'r gwaith ailsefydlu drwy gyflwyno cynllun mentora gwirfoddolwyr.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Cyflogodd YOT 5 weithiwr cefnogi ailsefydlu llawn amser. Ei rôl oedd cefnogi 10-15 o bobl ifanc ar unrhyw adeg benodol; gweithio oriau hyblyg i gwrdd ag anghenion pobl ifanc; hebrwng pobl ifanc ar weithgareddau dargyfeiriol ac apwyntiadau; a chyfryngu rhyngddynt hwy a'u teuluoedd. Wrth ddechrau gyda YOT 5, gwnaeth y gweithiwr ailsefydlu amrywiaeth o waith ailsefydlu un i un a gwaith grŵp ISS o ganlyniad i lwyth achosion cynyddol ISS. Fodd bynnag, o haf 2010, gwaith grŵp yn unig wnaeth y gweithiwr ailsefydlu. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y gwaith hwn wedi cael llai o effaith o safbwynt gwella cefnogaeth ailsefydlu pobl ifanc.

**Y corff adolygu**

Nid oedd gan YOT swyddogaeth adolygu bellach. Adolygwyd y gwaith ailsefydlu a gynhaliwyd drwy'r cynllun peilot drwy adolygiadau mewnol ac allanol parhaus. Roedd rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo y dylid cynnal

adolygiadau mwy systematig i gynorthwyo gyda nodi arfer da mewn cefnogaeth ailsefydlu i bobl ifanc.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Roedd yr holl asiantaethau dan sylw wedi cyfrannu adnoddau yn deg ac yn gyfartal i gefnogi ailsefydlu, yn ôl y cyfranogwyr. Roedd rhai yn teimlo y gallai agweddau rhai staff yn y sector addysg fod yn rhwystr i hyn, fodd bynnag.

**Gweithio partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Roedd gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu wedi cael ei wella drwy'r RSP, a'r ymagwedd amlasiantaeth a wnaed yn ofynnol ganddo. Roedd aelodau yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu a'r her wyneb yn wyneb a gynigiwyd drwy'r cyfarfodydd. Roedd yr hyfforddiant staff a gyflwynwyd yn defnyddio peth o'r cyllid ailsefydlu wedi helpu asiantaethau i ddysgu mwy am waith ei gilydd, ac i ddeall ailsefydlu pobl ifanc yn well.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Mae cyfraddau caethiwed wedi haneru yn YOT 5 yn ystod y peilot. Dywedodd y rhai gafodd gyfweliad bod yr ymyraethau a roddwyd yn eu lle drwy'r cynllun wedi cyfrannu'n sylweddol i'r deilliant hwn. Roedd pobl ifanc wedi cyflawni'r deilliannau canlynol drwy gymryd rhan yn y cynllun: gwell ymgysylltiad ag ETE; gwell statws llety; gwell perthnasoedd â theuluoedd. Roedd y gweithiwr ailsefydlu yn ganolog i'w helpu i gyflawni'r deilliannau hyn.

# 9. Astudiaeth achos 6

Bu'r SCYA yn ymweld â Thîm Troseddau Ieuenctid (YOT) 6 ym mis Mehefin a Rhagfyr 2010. Roedd gan YOT 6 swyddogaeth adolygu bellach.

Roedd y Panel Cefnogi Ailsefydlu (RSP) yn gweithredu ar adeg y ddau ymweliad astudiaeth achos. Cafodd staff YOT ac aelodau RSP eu cyfweld yn ystod y ddau ymweliad. Cafodd y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot eu cyfweld yn ystod y ddau ymweliad hefyd.

## 9.1 Paneli cefnogi ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

Cynhaliodd YOT 6 ddigwyddiad 'lansio' ffurfiol ar gyfer eu RSP ym mis Tachwedd 2009. Roedd yn cynnwys rheolwyr gwasanaeth, staff YOT a rhai pobl ifanc oedd wedi'u hymgysylltu â'r YOT ac y byddent yn cymryd rhan yn y cynllun ailsefydlu peilot. Sefydlodd y digwyddiad brosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd, a chyflwyno hyfforddiant staff ar yr ymagwedd at ailsefydlu fel yr ymgorfforwyd yn y cynllun peilot. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod y lansiad yn llwyddiannus.

Roedd yr RSP yn rhan o banel atal cyfun aeth i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) a throseddu. Cyn y cynllun peilot, roedd gan yr ALI banel Cynhwysiad a Chefnogaeth Ieuenctid (YISP) ar wahân, a grŵp oedd yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuenctid. Y rhesymwaith dros ymagwedd yr RSP oedd ei bod yn:

- integreiddio ailsefydlu i mewn i brosesau ehangach ynghylch atal troseddu
- cryfhau perthnasoedd amlasiantaeth, cynllunio a chyflwyno gwasanaeth o gwmpas ailsefydlu
- osgoi creu cyfarfod arall; mae'r personél perthnasol eisoes yn mynychu un o'r ddau gyfarfod arall o leiaf
- gweithredu fel cerbyd i gael mynediad i a chydlyno gweithgareddau dargyfeiriol a gweithrediadau ailsefydlu eraill
- dod ag adnoddau ychwanegol i mewn i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc.

### 9.1.1 Strwythur ac aelodaeth y panel

Nid oedd strwythur cyfarfodydd RSP wedi newid llawer ers dechrau'r cynllun peilot. I ddechrau, trafododd aelodau y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a'r cynnydd a wnaed gyda chynnal gweithrediadau a gytunwyd o gwmpas ailsefydlu pobl ifanc. Yna trafodwyd pobl ifanc oedd ar fin gadael caethiwed, ynghyd â chynnydd y rheiny yn y gymuned oedd eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun. Yna cynlluniodd aelodau gweithrediadau i'w cyflawni, ac enwi'r asiantaethau oedd yn gyfrifol amdanynt. Ailsefydlu oedd ffocws awr olaf y cyfarfod. Roedd staff YOT ers hynny wedi ehangu cylch gorchwyl yr RSP i gynnwys craffu troseddwyr risg uchel.

Weithiau yn ystod cyfarfodydd RSP, rhoddodd asiantaethau gyflwyniadau ar agweddau eu gwaith ailsefydlu. Helpodd hyn wrth rannu arfer da a chodi ymwybyddiaeth am waith asiantaethau eraill.

Mynychodd uwch bersonél o'r asiantaethau canlynol yr RSP yn YOT 6:

- Rheolwr YOT
- Gweithiwr cymdeithasol dynodedig YOT
- Swyddog Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE) YOT
- Tai – adran digartrefedd
- Landlord(iaid) Cymdeithasol Cofrestredig
- Ystâd diogel
- Gwasanaethau ieuenctid
- Sector gwirfoddol (gallai sawl sefydliad fynychu)
- Yr heddlu
- Cydlynydd Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO)
- Gyrfa Cymru
- Addysg (os yn briodol)
- Seicolegydd addysg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) (os yn briodol)
- Gwasanaeth Tân (os yn briodol).

Ar adeg yr adroddiad hwn roedd Rheolwr YOT 6 yn cadeirio'r cyfarfodydd RSP. Nid oedd aelodaeth yr RSP wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r

cynllun. Y prif newid oedd ychwanegu'r gweithiwr cymdeithasol YOT. Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi'i gynnwys mewn ymateb i adolygiad lleol o'r RSP.

Ar y cyfan, roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo fod yr asiantaethau a'r unigolion cywir yn ymwneud â'r RSP ond yn ystod yr ymweliad astudiaeth achos cyntaf, dywedodd rhai nad oedd hyn wedi'i gyflawni'n llawn.
Nodwyd yr angen i adolygu aelodaeth yr RSP dros amser i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol. Roedd un cyfwelai yn teimlo fod aelodau'r RSP yn YOT 6 yn fwy ymwybodol o'r cynllun peilot a materion ailsefydlu yn gyffredinol oherwydd bod yr RSP yn cynnwys aelodau o'r ystâd ddiogel.

Dywedodd rai aelodau'r RSP nad oedd gan unigolion a fynychodd ychydig gyfarfodydd cyntaf yr RSP awdurdod digonol i wneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau i gynlluniau ailsefydlu pobl ifanc. Roedd hyn wedi oedi cyflawni rhai gweithrediadau. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys bellach. Roedd sylw nodweddiadol yn nodi pwysigrwydd cael uwch bersonél ar yr RSP fel a ganlyn:

> "Dydy e ddim yn ddigon da os nad yw'r rheiny sydd yno yn gallu gwneud penderfyniadau a dweud ein bod yn gallu gwneud hyn ond yn methu â gwneud y llall. Mae'n rhaid i ni wybod yn y fan a'r lle - nid yw'n ddigon da mynd i ffwrdd am bythefnos ac aros am e-bost."

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd RSP yn dda. Roedd rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddwyd i'r cyfarfodydd a'r gwaith ailsefydlu cysylltiedig gan aelodau'r RSP. Gallai dirprwyon fynychu'r cyfarfodydd RSP os nad oedd y person dynodedig yn gallu bod yn bresennol. Amlygodd sawl person gafodd gyfweliad hyn fel agwedd bositif ar weithrediad yr RSP gan ei fod yn sicrhau bod rhywun o bob asiantaeth yn mynychu pob cyfarfod. Roedd hyn yn galluogi darparu diweddariadau a chynllunio gweithrediadau yn amserol.

> "Gallai pobl ddweud ei fod yn grŵp ardderchog, ac mae'n cael ei ystyried yn bositif iawn. Os nad yw rhywun yn gallu mynychu, maen nhw'n anfon dirprwy. Mae hynny'n dangos cryfder y teimlad am y grŵp

> a sut mae'n cael ei weld. Rwy' wedi eistedd ar bwyllgorau eraill lle mae pobl wedi dweud, "Dydw i ddim yn mynd i hwnna," ac yn anfon eu hymddiheuriadau. Ond gyda hwn mae'n glir eu bod yn anfon rhywun yn eu lle ac…mae cysondeb o ran presenoldeb."

### 9.1.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel

Sylwodd bawb gafodd gyfweliad ar weithrediad effeithiol yr RSP yn YOT 6. Roeddent yn teimlo fod cyfarfodydd yn berthnasol ac yn amserol, ac yn cwrdd â nodau'r cynllun ailsefydlu peilot.

Roedd manteision y panel yn cynnwys:

- cael yr holl bersonél perthnasol yn bresennol i ganolbwyntio ar faterion blaenoriaeth
- cael asiantaethau i gymryd cyfrifoldebau dros wahanol agweddau o ailsefydlu pobl ifanc
- bod yn fforwm da ar gyfer rhannu gwybodaeth am bobl ifanc, ac weithiau hefyd eu cymheiriaid a'u teuluoedd
- dysgu am waith asiantaethau eraill ac adeiladu perthnasoedd gyda hwy.

Elfen arbennig o effeithiol yr RSP yn YOT 6 oedd rhannu gwybodaeth ar y bobl ifanc oedd yn dynesu at gael eu rhyddhau o gaethiwed. Roedd gan rai asiantaethau wybodaeth nad oedd gan asiantaethau eraill. Galluogodd yr RSP rannu darlun manwl o'r bobl ifanc, eu hamgylchiadau, a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hailsefydlu. Roedd hyn yn helpu aelodau'r RSP i ddylunio cynlluniau cefnogi ailsefydlu oedd wedi'u teilwra i gwrdd â'u hanghenion unigol. Mae'r sylw a ganlyn yn pwysleisio cyfraniad rhannu gwybodaeth tuag at effeithiolrwydd yr RSP yn YOT 6:

> "Gydag un teulu problematig y mae'r partneriaid yn gweithio gyda hwy, rydych yn cael gwybod yr wybodaeth gefndir sy'n eich helpu i ymdrin â hwy yn briodol. Gallant fireinio'r gefnogaeth sydd ei hangen… Mae hynny'n gwneud gwahaniaeth - rhannu'r wybodaeth a phob partner yn gwybod yn union beth sy'n mynd ymlaen. Mae cefnogaeth dda iawn yno."

Roedd hyblygrwydd y gefnogaeth ailsefydlu hefyd yn sail i'w effeithiolrwydd, fel yr amlinellodd un cyfwelai:

> "Mae'n rhywbeth gwahanol - nid wyf yn gallu rhoi fy mys arno. Does dim "mae'n rhaid i chi wneud hyn; mae'n rhaid i chi wneud y llall." Mae'n rhaid i chi ei drefnu eich hun. Does dim amserlenni pendant - mae'n fwy hyblyg. Dyna sy'n effeithiol…mae'r YOT wedi penderfynu ei fabwysiadu a'i ddatblygu; mae'n rhaid i chi gael rhai pobl i fentro."

Yn ystod yr ail ymweliad astudiaeth achos i YOT 6, adroddodd staff fod yr RSP wedi ennill momentwm ac eglurder. Roeddent yn teimlo hefyd fod y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan wedi cyflawni gwell deilliannau o ganlyniad i'r cynllun. Roedd aelodau'r panel wedi cael gwell dealltwriaeth o effeithiau negyddol caethiwed ar bobl ifanc, a manteision ailsefydlu effeithiol a dewisiadau eraill yn hytrach na chaethiwed.

Roedd sawl un o'r rheiny gafodd gyfweliad yn ystod yr ail ymweliad astudiaeth achos, yn teimlo bod yr ymagwedd at ailsefydlu a fabwysiadwyd gan YOT 6 mor effeithiol y dylid ei ddangos fel model o arfer da.

Ar adeg ysgrifennu roedd yr RSP yn cwmpasu ailsefydlu pobl ifanc risg uchel. Yn benodol, roedd yn archwilio modd mabwysiadu'r ymagweddau a weithredwyd drwy'r cynllun ailsefydlu peilot gyda throseddwyr risg uchel.

Teimlwyd bod effeithiolrwydd y gefnogaeth ailsefydlu a ddarparwyd i bobl ifanc yn YOT 6 yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg amser asiantaethau, ac agweddau rhai asiantaethau ac unigolion, ac yn benodol, agweddau rhai ysgolion.

## 9.2 Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu

Nid oedd YOT 6 yn cyflogi gweithiwr cefnogi ailsefydlu ond roedd yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol YOT gyda chyfrifoldeb penodol am ailsefydlu.

## 9.3 Y corff adolygu

Roedd gan YOT 6 swyddogaeth adolygu bellach wedi'i dyrannu iddynt drwy dermau'r cynllun ailsefydlu peilot.

Adolygodd staff YOT y gefnogaeth ailsefydlu a gyflwynwyd i bobl ifanc drwy'r cynllun peilot yn barhaus. Nod hyn oedd nodi 'yr hyn sy'n gweithio' a'r bylchau yn nhermau cefnogaeth ailsefydlu. Roedd gwersi a ddysgwyd o'r broses hon wedi'u rhannu yng nghyfarfodydd yr RSP er mwyn annog arfer effeithiol.

Ymgymerodd YOT 6 ag adolygiad dwys hefyd o'r RSP a'r gwaith ailsefydlu cysylltiedig ym mis Awst 2010. Canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn oedd:

- Roedd nifer bach o aelodau'r panel yn cymryd cyfrifoldeb dros swm mawr o'r gwaith ailsefydlu. O ganlyniad, roedd uwch staff yn rhannu'r gwaith yn fwy gwastad. Roedd angen hyfforddiant pellach ar rai staff ar eu cyfrifoldebau ar gyfer ailsefydlu. Mae YOT 6 wedi darparu'r hyfforddiant hwn erbyn hyn.
- Roedd angen i'r YOT gael gweithiwr cymdeithasol i eistedd ar yr RSP gyda chyfrifoldeb penodol dros ailsefydlu. Dylai'r unigolyn hyn hefyd fynd ar ymweliadau â'r carchar, adrodd i'r RSP ar anghenion ailsefydlu'r bobl ifanc sy'n dynesu at eu rhyddhau, a monitro cynnydd ailsefydlu'r bobl ifanc dros amser.

Roedd YOT 6 yn bwriadu gweithredu prosesau adolygu pellach yn 2011 mewn perthynas ag ailsefydlu pobl ifanc. Byddai ymagwedd astudiaeth achos ddwys yn cael ei mabwysiadu i archwilio troseddu a throseddu parhaus dau frawd, y mae'r ddau ohonynt yn droseddwyr toreithiog a chyson. Mae'r ddau wedi derbyn ymyraethau tebyg, yn cynnwys rhai a gyflwynwyd drwy'r cynllun peilot, ond roedd un wedi parhau i droseddu, lle roedd y llall wedi peidio â gwneud.

## 9.4 Cynlluniau cefnogi ailsefydlu: ymrwymo adnoddau

Roedd asiantaethau partner wedi ymrwymo adnoddau yn gyfartal ac yn deg drwy'r RSP, yn ôl rhai gafodd gyfweliad. Roeddent yn cydnabod fod gan

asiantaethau wahanol adnoddau i'w cyfrannu yn nhermau cyllid a staffio fel ei gilydd.

Dywedasant fod angen mwy o adnoddau i ehangu'r gwaith ailsefydlu yn y ffyrdd canlynol:

- i ganiatáu mwy o ddewis mewn asiantaethau darparu
- i ymestyn y gwaith ailsefydlu gyda'r nos ac ar y penwythnos i dargedu'r prif adegau troseddu
- i ddatblygu tai mwy addas i bobl ifanc oedd yn gadael caethiwed
- i ehangu gwasanaethau cefnogi cyffuriau ac alcohol, a gwasanaethau cyfryngu teuluol.

### 9.4.1 Dyrannu a dosbarthu cyllid

Defnyddiodd YOT 6 ychydig o'r cyllid ailsefydlu i gadw llety mewn perchnogaeth breifat ond a reolir gan fudiad elusennol. Ar ôl derbyn llety, cafodd y bobl ifanc fynediad i wasanaethau ychwanegol a gefnogwyd gan y cyllid ailsefydlu.

Cyflwynwyd dau brif fath o'r gwasanaethau hyn

1. **Gweithgareddau dargyfeiriol a phecynnau ETE.** Cydlynwyd y rhain gan swyddog ETE yr YOT yn ystod oriau gwaith, gyda'r nos ac ar y penwythnosau. Roeddent yn cynnwys:

- sesiynau awyr agored fel cerdded ceunentydd, dringo creigiau, abseilio, caiacio, a beicio mynydd, y mae llawer ohonynt wedi arwain at gymwysterau achredledig mewn cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, a Gwobrau Dug Caeredin
- ymweliadau â'r gampfa
- sesiynau hyfforddi canu a dawnsio
- lleoliadau gwaith a gyflwynwyd mewn partneriaeth â'r coleg lleol, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a busnesau.

2. **Gwasanaethau cefnogi.** Cafodd y rhain eu cydlynu drwy'r gwasanaeth ieuenctid, sefydliadau gwirfoddol lleol, Gyrfa Cymru a'r YOT. Cyflwynwyd y gwasanaethau cefnogi canlynol, yn unol â'r angen:

- grwpiau 'clwb swyddi' yn ystod yr wythnos, yn darparu cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a sgiliau cyflogadwyedd
- sesiynau Gyrfa Cymru strwythuredig, unigol
- cefnogaeth camddefnyddio sylweddau
- cyngor ar iechyd ac ymwybyddiaeth rywiol, perthnasoedd a cham-drin domestig.

### 9.4.2 Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu

Roedd gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu rhyngasiantaeth o gwmpas ailsefydlu wedi'i wella drwy waith yr RSP. Cyn cychwyn yr RSP, roedd gweithio mewn partneriaeth yn ei le, ond dywedwyd ei fod yn ddarniog ac yn 'llwythol'. Nid oedd iddo arweinyddiaeth a chyfeiriad. Nid oedd cyfathrebu rhwng asiantaethau cystal ag y gallai fod wedi bod cyn yr RSP. Nid oedd gweithrediadau o gwmpas ailsefydlu yn cael eu rhoi yn eu lle mor gyflym, fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn adlewyrchu:

> "Nid oedd [gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu] mor gydlynus ag y mae nawr. Nid oedd y cyfathrebu yn bodoli. Doedd dim byd yn cael ei orffen. Mae wedi gwella drwy gael pawb yno sydd wedi cyflymu'r broses. Dyna'r agwedd bwysicaf.'
>
> 'Cyn yr RSP roedd llawer o waith yn digwydd ond gyda hyn mae popeth wedi dod ynghyd ac mae gan bobl ymagwedd fwy cydlynus. Cyn hynny roedd y bwriad yna, ond roedd braidd yn chwithig… Mae hyn wedi rhoi ymagwedd fwy canolog i'r peth; mae pobl yn gwybod mwy am yr hyn sy'n mynd ymlaen, ac…mae'n ymagwedd bositif.'

Er bod partneriaethau eisoes yn eu lle cyn i'r prosiect peilot o gwmpas canddefnyddio sylweddau a llety, roedd partneriaethau newydd wedi'u ffurfio o gwmpas ETE, gweithgareddau dargyfeiriol, a darpariaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Gellid gwella partneriaeth o gwmpas ailsefydlu drwy rannu arfer da rhwng YOTs yng Nghymru yn ôl nifer o'r rhai gafodd gyfweliad.

## 9.5 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

### 9.5.1 Deilliannau i bobl ifanc

Roedd y cynlluniau ailsefydlu wedi cyflawni'u nodau o leihau troseddu a throseddu parhaus a lleihau dedfrydau o gaethiwed ymhlith pobl ifanc. Erbyn Rhagfyr 2010, roedd cyfraddau caethiwed wedi gostwng o 61 y cant i 18 y cant. Roedd mwy o bobl ifanc yn cydymffurfio â thermau eu hamodau trwydded. Fodd bynnag, nid oedd cydymffurfio â Gorchmynion Adfer Ieuenctid cymunedol (YROs) wedi cynyddu cymaint.

Roedd rhan fwyaf aelodau'r RSP yn teimlo, ar sail eu hymwneud â'r RSP hyd yn hyn, bod y gwaith ailsefydlu wedi bod yn llwyddiannus a byddai'n parhau felly yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd lleiafrif yn teimlo y byddai rhai pobl ifanc yn aildroseddu er gwaethaf y pecyn ailsefydlu oedd yn ei le ar eu cyfer. Roeddent yn dweud bod hyn oherwydd y ffactorau cymhleth a lluosog oedd yn dylanwadu ar eu troseddu, sy'n amrywiol ac yn gymhleth, a'r ffaith fod yr ymddygiad hwn wedi'i wreiddio'n ddwfn.

Roedd sicrhau llety addas i bobl ifanc yn gadael caethiwed yn un o'r deilliannau mwyaf nodedig a gyflawnwyd drwy'r cynllun peilot ailsefydlu. Ers cychwyn yr RSP, nid oedd un person ifanc yn YOT 6 wedi cael eu gosod mewn llety gwely a brecwast. Roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod llety yn ddylanwad mawr ar leihau troseddu, a hefyd ar ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi eraill, fel yr esbonnir isod:

> "Rwy'n credu mai tai yw'r un pwysicaf. Os nad oes gennych sylfaen i weithio ohoni does dim pwynt i chi symud ymlaen… Does dim pwynt dweud wrth rywun am yr opsiynau sydd ganddynt i ddewis o'u plith os nad oes unrhyw le ganddynt i fynd oddi wrtho ar ddechrau'r dydd neu unrhyw le i fynd adref iddo ar ddiwedd y nos. Ers cychwyn yr RSP, does dim un person ifanc sydd wedi dod allan o gaethiwed nad ydynt wedi cael y cyfle i gael rhywle i fyw. Mae hynny'n bwysig iawn. Unwaith mae hynny yn ei le gall popeth arall arwain ohono."

Arweiniodd y gweithgareddau dargyfeiriol a'r ddarpariaeth ETE at y deilliannau positif canlynol ar gyfer y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan:

- torri'r cylch o droseddu, yn rhannol drwy eu tynnu allan o'r ardal ar y prif adegau troseddu
- lleihau camddefnyddio sylweddau
- hwyluso'r defnydd mwy positif o amser hamdden a meithrin diddordebau newydd
- adeiladu perthnasoedd cefnogol gyda modelau rôl positif
- codi hunanbarch a hyder
- adeiladu perthnasoedd mwy positif gydag aelodau eu teuluoedd.

Dywedodd y bobl ifanc fod y ddarpariaeth wedi'u helpu i newid canddefnyddio sylweddau a throseddu am weithgareddau hamdden mwy positif, fel y mae'r sylwadau canlynol yn dangos:

> "[Mae'r ddarpariaeth wedi] fy helpu i aros allan o drwbl, gan roi rhywbeth i mi wneud, cadw fi'n brysur. O'r blaen roedden yn gwneud pethau hurt fel gwerthu cyffuriau ar gornel stryd a gwneud "**** all" '.
>
> '[Mae'r ddarpariaeth wedi] fy mhwyllo. Mae'n eich cadw'n brysur. Nid wyf wedi cael fy arestio eto. Ni allwch chi yfed neu gymryd cyffuriau pan fyddwch chi yma".

Adroddasant eu bod yn teimlo'n fwy abl i reoli eu hemosiynau o ganlyniad i ymgymryd â'r ddarpariaeth. Roedd hyn wedi gwella eu perthnasoedd gydag aelodau'u teuluoedd. Roedd staff cyflwyno yn fodelau rôl positif, sef rhywbeth efallai nad oedd gan y bobl ifanc yn amgylchedd y cartref:

> "Cyn hynny, roeddwn yn ddrwg ac yn colli fy mhen gartref. Nid yw fy nheulu yn fy helpu ond maen nhw'n eich helpu chi yma, maen nhw'n dweud beth sy'n digwydd.
>
> Doedd fy mam ddim yn siarad â mi o'r blaen, felly fe dorrais i ffenest, ond nawr mae hi'n gwneud."

Roedd pobl ifanc wedi dechrau gweld eu troseddu yn wahanol, ac wedi dod yn fwy agored i ymgysylltu â gwahanol weithgareddau hamdden:

> "Rwy' wedi mwynhau bod allan, a chael rhywun yn dangos i mi beth y gallwn fod yn ei wneud. Mae'n dangos i chi beth ydych yn colli allan arno ac mae'n eich stopio rhag ****ing o gwmpas gyda'r nos.

> Dydw i ddim am ei wneud e [troseddu] rhagor. Rwy' wedi bod mewn trwbl ers amser hir. Mae [y ddarpariaeth ETE] yn dod â'r gorau allan ohonoch chi ac yn dangos i chi bod dewis arall yn hytrach na'r carchar."

Pan ofynnwyd iddynt beth allai eu rhwystro rhag troseddu yn y dyfodol, roedd rhan fwyaf y bobl ifanc yn ansicr, ond dywedodd llawer ohonynt fod cael swydd yn bwysig:

> "Byddai'n well petai mwy o swyddi ar gael, gan roi mwy o ddewis i chi gyda gwaith. Dyna fyddai'n helpu fwyaf."

Fodd bynnag, roedd staff yn cydnabod fod yna ddiffyg cyfleoedd swyddi addas ar gael i bobl ifanc â record droseddol. Roedd rhai aelodau'r RSP wedi ysgrifennu geirdaon i bobl ifanc oedd yn rhan o'r cynllun peilot, ac wedi cynnig lleoliadau gwaith gwirfoddol iddynt. Roedd caffael sgiliau a chymwysterau drwy ddarpariaeth ETE yn cael ei weld fel cam pwysig ymlaen tuag at gael cyflogaeth, fel yr eglurodd aelod o staff:

> "Mae'n anodd cael cyflogaeth ar adael caethiwed. Dydw i ddim yn dibrisio hynny neu'n dweud nad yw byth yn mynd i ddigwydd, ond gyda'r ffordd y mae'r hinsawdd bresennol...Pwy fydd yn eu cyflogi? Mae 60 o bobl yn gwneud cais am un swydd. Os byddwch yn tynnu'r ffactor cyflogaeth i ffwrdd mae'n rhoi profiad galwedigaethol iddynt, yr hyfforddiant, Dug Caeredin. Pethau nad ydynt erioed wedi'u gwneud o'r blaen. Sgiliau ysgafn, gweithgareddau, agor i fyny mewn canolfan hamdden yn rhywle arall. Mae'n agor y peth i fyny mewn ffordd. Mae'n gadael i blant brofi bod yn blant."

## 9.6 Dadansoddiad Asset

Mae'r ymyrraeth hon yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer 25 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymyrraeth. Dewiswyd grŵp cymhariaeth craidd (wedi'u dewis i adlewyrchu hanes troseddau a nodweddion y grŵp ymyrraeth yn agos) yn cynnwys 128 o bobl ifanc. Dewiswyd grŵp cymhariaeth estynedig arall o 13 o bobl ifanc hefyd, yn cynnwys pobl ifanc gyda hanes troseddau tebyg, ond nad oeddent o reidrwydd yn cyfateb o ran nodweddion cefndir fel rhyw ac ethnigrwydd. Felly cyfanswm nifer y bobl ifanc oedd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad oedd 166, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â'r YOT.

**Tabl 9.1: Proffil oed y sampl**

| **Oed** | **Grŵp ymyrraeth** | **Grŵp cymhariaeth craidd** | **Grŵp cymhariaeth estynedig** |
|---|---:|---:|---:|
| 12 | - | - | 1 |
| 13 | 0 | 0 | 4 |
| 14 | 0 | 0 | 5 |
| 15 | 2 | 11 | 0 |
| 16 | 7 | 20 | 0 |
| 17 | 14 | 49 | 1 |
| 18 | 2 | 48 | 2 |
| Ddim ar gael | - | - | - |
| cyfanswm | 25 | 128 | 13 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd rhan fwyaf (91) y 166 yn 16 oed neu’n hŷn cyn yr ymyrraeth fel ag yr oedd pob un ond 2 o’r rheiny yn y grŵp ymyrraeth (Tabl 9.1).

Cyflwynir y sgoriau Asset ar gyfer y sampl o 166 o bobl ifanc cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 9.2.

**Tabl 9.2: Dadansoddiad sgoriau ASSET yr holl bobl ifanc**

| | Nifer gyda sgôr o 0 | Nifer gyda sgôr o 1 | Nifer gyda sgôr o 2 | Nifer gyda sgôr o 3 | Nifer gyda sgôr o 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau byw | 50 | 41 | 45 | 24 | 3 |
| Teulu a pherthnasoedd personol | 33 | 46 | 43 | 33 | 8 |
| Addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth | 19 | 17 | 19 | 10 | 0 |
| Cymdogaeth | 26 | 36 | 42 | 9 | 0 |
| Ffordd o fyw | 65 | 52 | 28 | 14 | 4 |
| Camddefnyddio sylweddau | 24 | 31 | 45 | 44 | 19 |
| Iechyd corfforol | 32 | 33 | 43 | 39 | 16 |
| Iechyd emosiynol a meddyliol | 93 | 52 | 17 | 1 | 0 |
| Amgyffrediadau ohonyn nhw'u hunain | 50 | 53 | 35 | 23 | 2 |
| Meddwl ac ymddygiad | 62 | 35 | 47 | 17 | 2 |
| Agwedd at droseddu | 39 | 38 | 45 | 33 | 8 |
| Cymhelliad i newid | 54 | 47 | 31 | 22 | 0 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd gan ran fwyaf y sampl sgôr Asset o 2 neu lai ym mhob categori cyn yr ymyrraeth. Cafodd y sgoriau Asset uchaf eu hasesu mewn perthynas â theulu a pherthnasoedd personol, ffordd o fyw, camddefnyddio sylweddau ac agwedd at droseddu.

Cyflwynir proffil nifer y bobl ifanc oedd wedi'u cynnwys yn y grŵp ymyrraeth yn Nhabl 9.3.

**Tabl 9.3: Nifer y troseddau a gyflawnwyd yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Ymyrraeth | | Cymhariaeth craidd | | Cymhariaeth estynedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Ôl** |
| 0 trosedd | 0 | 12 | 0 | 96 | 0 | 9 |
| 1 drosedd | 1 | 3 | 18 | 14 | 3 | 1 |
| 2-5 trosedd | 5 | 8 | 71 | 12 | 4 | 1 |
| 6-10 trosedd | 7 | 2 | 18 | 5 | 5 | 0 |
| 10+ trosedd | 11 | 0 | 21 | 1 | 1 | 2 |
| Ddim ar gael | 2 | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 25 | 25 | 128 | 128 | 13 | 13 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Dadansoddwyd cyfanswm nifer y troseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. O'r sampl o 25 person ifanc gymerodd ran yn yr ymyrraeth, roedd 11 wedi cyflawni mwy na 10 trosedd, roedd 7 wedi cyflawni 6-10 trosedd ac roedd 6 wedi cyflawni llai na 5 trosedd cyn yr ymyrraeth. Nid oedd 12 o'r rhain wedi cyflawni unrhyw droseddau ar ôl yr ymyrraeth tra roedd 3 wedi troseddu unwaith ers yr ymyrraeth ac roedd 8 wedi cyflawni 2-5 trosedd. Nid oedd y mwyafrif (96) o'r 128 wedi troseddu ar ôl yr ymyrraeth. Nid oedd 9 o'r 13 yn y grŵp cymhariaeth estynedig wedi troseddu ar ôl yr ymyrraeth, er bod 2 wedi cyflawni mwy na 10 trosedd. Roedd chwech o'r rhain wedi cyflawni mwy na 6 trosedd cyn yr ymyrraeth.

Cyflwynir uchafswm difrifoldeb y troseddau ar gyfer y grŵp ymyrraeth cyn yr ymyrraeth yn Nhabl 9.4.

**Tabl 9.4: Uchafswm difrifoldeb troseddau yn ôl grŵp o bobl ifanc**

| | Ymyrraeth | | Cymhariaeth craidd | | Cymhariaeth estynedig | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** | **Cyn** | **Ôl** | **Cyn** |
| 1 | | 1 | | 2 | | 0 |
| 2 | | 0 | | 3 | | 0 |
| 3 | 2 | 1 | 14 | 4 | 3 | 2 |
| 4 | 4 | 2 | 13 | 5 | 4 | 0 |
| 5 | 9 | 3 | 46 | 9 | 1 | 0 |
| 6 | 6 | 2 | 33 | 5 | 3 | 2 |
| 7 | 3 | 3 | 22 | 3 | 2 | 0 |
| Ddim ar gael | 1 | 13 | - | 97 | - | 9 |
| Cyfanswm | 24 | 25 | 128 | 128 | 13 | 13 |

*Ffynhonnell: Echdyniad data YOT, dadansoddiad SCYA (2011)*

Roedd rhan fwyaf (18) y grŵp ymyrraeth wedi cyflawni troseddau â difrifoldeb o 5 neu fwy cyn yr ymyrraeth, ond ar ôl yr ymyrraeth y rhif hwn oedd 8. Nifer y grŵp cymhariaeth craidd a gyflawnodd droseddau a raddiwyd â difrifoldeb o 5 neu fwy oedd 101 y gwnaeth 17 ohonynt gyflawni troseddau â difrifoldeb o 5 neu fwy ar ôl yr ymyrraeth. Fodd bynnag, nid oedd y data ar gael ynglŷn â 97 o'r grŵp cymhariaeth craidd ar ôl yr ymyrraeth. Cyflawnodd 6 o'r grŵp cymhariaeth estynedig droseddau â difrifoldeb o 5 neu'n fwy cyn yr ymyrraeth; gwnaeth 2 hynny ar ôl yr ymyrraeth.

## 9.7 Casgliad

Roedd arfer effeithiol wedi bod yn amlwg yn yr YOT hwn oherwydd y ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu a phenderfyniadau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Roedd hyn wedi gwella ansawdd y gwaith amlasiantaeth a wnaed ac wedi galluogi rhanddeiliaid yn YOT 6 i adeiladu ar gryfder y partneriaethau oedd yn bodoli eisoes. Nodwyd bod materion yn cael eu trin mewn ffyrdd oedd yn llai 'llwythol' a bod y gwaith ailsefydlu yn elwa ar y diwylliant ehangach hwn o fewn y gymdogaeth. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffordd yr oedd cyrff ar wahân i'r YOT wedi penderfynu dyrannu staff i waith ailsefydlu oedd wedi cyfrannu at ei effeithiolrwydd.

Pwysleisiodd y dystiolaeth gan YOT 6 hefyd bwysigrwydd rôl yr RSW a'r ffordd yr oedd hyn wedi hwyluso gwaith un i un gyda'r bobl ifanc. Roedd y gwaith hwn wedi cynnwys darparu cyfleoedd i'r bobl ifanc ymgysylltu â gweithgareddau positif ochr yn ochr â brocera, eiriolaeth a chefnogaeth arall i'r bobl ifanc. Roedd hyn wedi cyfrannu at y deilliannau yn YOT 6.

Roedd y ffaith fod gwaith yr RSP wedi'i ychwanegu at banel oedd yn bodoli eisoes yn golygu ei fod yn gallu adeiladu ar berthnasoedd sefydledig. Ar yr un pryd roedd hyn wedi osgoi creu fforwm ychwanegol yr oedd angen i aelodau ei fynychu.

Roedd profiad YOT 6 yn pwysleisio'r angen i'r rheiny oedd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gael digon o awdurdod i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau.

Oherwydd y swyddogaeth adolygu bellach, roedd effeithiolrwydd yr ymagweddau a ddefnyddiwyd yn yr YOT hwn wedi bod yn destun craffu cadarn. Rhoddwyd enghreifftiau lle roedd hyn wedi arwain at newidiadau mewn arfer ac ymagwedd.

**<u>Canfyddiadau allweddol YOT 6</u>**

**Yr RSP: strwythur a gweithredu**

Integreiddiodd YOT 6 ailsefydlu i mewn i banel oedd yn bodoli eisoes yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Trafododd yr RSP bobl ifanc yn y gymuned a'r rheiny mewn caethiwed. Roedd wedi'i ymestyn i graffu troseddwyr risg uchel. Roedd problemau yn bresennol mewn cyfarfodydd cychwynnol o ganlyniad i'r ffaith nad oedd gan rai aelodau yr awdurdod i wneud penderfyniadau. Cafodd hyn ei ddatrys ers hynny. Roedd rhannu gwybodaeth yn yr RSP yn arbennig o effeithiol, fel ag yr oedd hyblygrwydd y gefnogaeth ailsefydlu a roddwyd yn ei le drwyddo.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Nid oedd YOT 6 yn cyflogi gweithiwr cefnogi ailsefydlu, ond rhoddwyd gweithiwr cymdeithasol yn ei le gyda chyfrifoldeb penodol dros ailsefydlu.

**Y corff adolygu**

Roedd gan YOT 6 swyddogaeth adolygu bellach. O ganlyniad i'r adolygiadau dwys, roedd cyfrifoldeb dros drefnu a chyflwyno cefnogaeth ailsefydlu wedi'i rannu'n fwy gwastad rhwng asiantaethau ac unigolion cyfrifol. Yn 2011, roedd YOT 6 yn bwriadu cynnal astudiaeth achos o ddau frawd lleol oedd yn archwilio eu troseddu a'u troseddau parhaus yn erbyn y gefnogaeth ailsefydlu a dderbyniwyd ganddynt.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Defnyddiwyd cyllid ailsefydlu gan YOT 6 i gyflwyno gweithgareddau dargyfeiriol, pecynnau ETE, a gwasanaethau cefnogi. Roedd ymrwymo adnoddau drwy'r RSP gan asiantaethau partner wedi bod yn gyfartal ac yn deg, yn ôl y cyfranogwyr. Roeddent yn teimlo bod angen mwy o adnoddau i ehangu'r gwaith ailsefydlu, fodd bynnag.

**Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Pwysleisiodd holl aelodau YOT 6 gafodd gyfweliad gryfder y gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu ers cychwyn y cynllun peilot. Cyn y cynllun, roedd wedi bod yn ddarniog ac yn 'llwythol'. Gellid gwella gweithio mewn partneriaeth drwy rannu arfer da mewn ailsefydlu pobl ifanc rhwng yr YOTs yng Nghymru, yn ôl rhai a gafodd gyfweliad.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Roedd cyfraddau caethiwed wedi gostwng yn sylweddol yn ardal YOT 6 yn ystod cyfnod y cynllun peilot. Roedd y gwelliannau wrth gyflawni llety diogel i bobl ifanc oedd yn gadael caethiwed wrth wraidd hyn, dywedodd y rhai gafodd gyfweliad. Roedd y gweithgareddau ETE a chefnogi dargyfeiriol hefyd wedi helpu drwy dorri'r cylch o droseddu, lleihau camddefnyddio sylweddau, annog defnydd mwy positif o amser hamdden, codi hunanbarch a hyder, a helpu i wella perthnasoedd gydag aelodau'r teulu.

# 10. Crynodeb o’r canfyddiadau: yr holl astudiaethau achos

Roedd y cynlluniau ailsefydlu peilot ym mhob un o’r chwe YOT yn ymgorffori ymagwedd wahanol at waith ailsefydlu. Roedd hyn yn adlewyrchu bwriad y BCI y gellid defnyddio’r cyllid yn hyblyg i gwrdd ag anghenion pobl ifanc lleol, o fewn y paramedrau a amlinellwyd yn y ddogfen arweiniad.

## 10.1 Y paneli ailsefydlu: strwythur a gweithrediad

Sefydlwyd RSPs ym mhob un o’r ardaloedd astudiaethau achos. Mewn pedair ardal, ychwanegwyd ailsefydlu at gylch gorchwyl panel oedd yn bodoli eisoes. Yn y ddwy ardal arall, sefydlwyd paneli i ymdrin ag ailsefydlu yn unig. Roedd un YOT wedi lleihau nifer y bobl ifanc y cyfeiriwyd at y panel er mwyn blaenoriaethu’r rheiny â’r anghenion mwyaf dwys.

Roedd rhan fwyaf yr YOTs wedi cynnal digwyddiadau ‘lansio’ i’r RSPs. Yn y digwyddiadau hyn, rhoddwyd cyflwyniadau i uwch staff ar rôl, swyddogaeth a chyfraniad posib yr RSP at leihau’r defnydd o gaethiwed a gwella cefnogaeth ailsefydlu pobl ifanc.

Roedd rhan fwyaf y rheiny gafodd gyfweliad ar draws yr holl ardaloedd astudiaeth achos yn teimlo fod yr asiantaethau cywir wedi’u cynrychioli ar yr RSPs. Roedd y rhain fel arfer yn cynnwys staff YOT, y gweithiwr ailsefydlu lle roeddent yn bodoli, asiantaethau tai, yr heddlu, Gyrfa Cymru, gwasanaethau iechyd (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc [CAMHS] gan amlaf), a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd dau RSP hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIs), a byddai dau arall yn cynnwys aelodau YOI yn fuan. Roedd cynrychiolwyr gwasanaethau ieuenctid a’r sector gwirfoddol yn rhan o dri RSP.

Ym mhedair o’r ardaloedd astudiaethau achos teimlwyd bod asiantaethau perthnasol wedi ymgysylltu â’r RSP a bod hyn wedi cyfrannu at ei

effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mewn dwy ardal roedd pryderon am record presenoldeb llawer o’r aelodau, rhywbeth a briodolwyd i ddau brif ffactor:

- Y pwysau gwaith ar yr asiantaethau hynny a’r ffaith nad oeddent yn gallu rhoi blaenoriaeth i’r panel ailsefydlu.
- Teimlad ar ran rhai sefydliadau bod y gwaith ailsefydlu yn fater i’r YOT ac nad oedd angen ar yr YOTs, fel cyrff amlasiantaeth, unrhyw fewnbwn pellach. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â chynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Mewn pedair ardal astudiaeth achos, roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod gan aelodau’r RSP y lefel o awdurdod oedd ei hangen. Mewn dau achos, fodd bynnag, er bod staff uwch wedi mynychu cyfarfodydd cychwynnol, roedd staff lefel gweithredol wedi mynychu ar ôl hynny. Yn yr achosion lle nad oedd staff uwch yn bresennol, roedd gwaith y panel yn llai effeithiol ac roedd ganddo lai o effaith oherwydd nad oedd gan yr aelodau’r awdurdod i ddod i benderfyniadau cadarn ac i ymrwymo adnoddau.

## 10.2 Gweithrediad ac effeithiolrwydd y panel

Ar y cyfan, roedd y rhai gafodd gyfweliad yn teimlo fod yr RSPs yn cael eu rhedeg yn dda ac yn effeithiol. Roedd RSPs wedi hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Roedd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ailsefydlu pobl ifanc. Roedd y paneli ailsefydlu hefyd yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a lleihau ‘meddylfryd silo’ yr oedd rhai cyfranogwyr yn teimlo ei bod wedi bodoli yn y gorffennol.

Mewn YOTs oedd yn cwmpasu dau awdurdod lleol (LAs), nododd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod y ddau awdurdod yr un mor ymrwymedig i lwyddiant y peilot a’u bod ill dau yn fodlon ac yn gallu darparu’r adnoddau perthnasol. Nid oedd hyn bob amser yn wir a chafwyd bod gan rai ALl wahanol gysyniad o’r raddfa a’r adnoddau y byddai eu hangen nac eraill.

Roedd ymwneud ac ymrwymiad gwahanol asiantaethau yn y gwaith ailsefydlu, yn cynnwys eu cyfranogiad mewn paneli ailsefydlu, yn anwastad ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos. Priodolwyd yr amrywiadau hynny i lefelau hanesyddol o ymgysylltiad gyda'r YOTs, agweddau uwch bersonél, a materion gallu.

## 10.3 Y gweithwyr ailsefydlu

Roedd y model a fabwysiadwyd i gefnogi gwaith ailsefydlu yn amrywio ym mhob YOT.

- roedd un YOT nad oedd wedi cyflogi gweithiwr ailsefydlu ond roedd wedi defnyddio peth o'r cyllid ailsefydlu i ddarparu oriau ychwanegol i weithwyr sesiynol presennol i gefnogi gwaith ailsefydlu
- roedd YOT arall hefyd heb benodi gweithiwr ailsefydlu a defnyddiodd y cyllid i helpu cwrdd ag anghenion pobl ifanc a chyflwyno gweithgareddau dargyfeiriol
- yn y pedair ardal astudiaethau achos eraill, roedd gweithwyr ailsefydlu wedi'u penodi. Yn un o'r ardaloedd hyn roedd y penodiad ar sail ran amser.

Lle y'u penodwyd, nid oedd rolau gweithwyr ailsefydlu wedi bod yn gyson yn ystod y prosiectau peilot. Yn un ardal, roedd y gweithiwr ailsefydlu yn gweithio ochr yn ochr â swyddog YOT mewn ffyrdd penodol a diffiniedig. Mewn achosion eraill, roedd y cyllid wedi caniatáu rhyddhau deiliaid swyddi presennol i ymgymryd â gwaith ailsefydlu. Roedd YOT arall heb benodi gweithiwr ailsefydlu, ac roedd staff YOT presennol yn gwneud y gwaith ailsefydlu.

Roedd rolau'r gweithwyr ailsefydlu fel arfer yn cynnwys darparu cefnogaeth ailsefydlu at y diben i bobl ifanc. Roedd y tasgau penodol a gyflawnwyd gan weithwyr cefnogi ailsefydlu ym mhob ardal yn amrywio.

Roedd eiriol ar ran pobl ifanc yn agwedd allweddol ar rôl y gweithiwr ailsefydlu ar draws YOTs yr astudiaethau achos, fodd bynnag. Fel arfer, roedd y gweithiwr ailsefydlu yn gwneud hynny drwy eu hebrwng i apwyntiadau gyda darparwyr gwasanaeth i'w helpu i sicrhau'r gefnogaeth oedd ei hangen

arnynt. Yn un YOT, roedd y gefnogaeth eiriolaeth a ddarparwyd gan y gweithiwr ailsefydlu yn fwy arbenigol. Er enghraifft, roeddent yn mynychu gwrandawiadau yn y llys ac yn cyflwyno opsiynau i ynadon fel dewisiadau amgen i gaethiwed.

Yn nhri o'r YOTs, gwnaeth y gweithiwr ailsefydlu waith un i un gyda phobl ifanc. Yn un YOT, gwaith grŵp yn unig a wnaed gan y gweithiwr, ar ôl cael ei symud o'r gwaith un i un ar ddisgresiwn y rheolwyr. Roedd rhai o'r bobl gafodd gyfweliad yn teimlo bod hyn wedi lleihau effaith y gwaith ailsefydlu.

## 10.4 Y cyrff adolygu: rôl ac effeithiolrwydd

Roedd dwy o'r ardaloedd peilot wedi sefydlu swyddogaeth adolygu bellach. Roeddent wedi ymgynghori â staff YOT ac aelodau'r RSP i werthuso pa agweddau o'r gefnogaeth ailsefydlu a gyflwynwyd i'r bobl ifanc drwy'r cynllun peilot oedd wedi gweithio'n dda a'r rhai oedd yn llai llwyddiannus. Arweiniodd staff YOT adolygiadau llai ffurfiol o'r gwaith ailsefydlu yn yr holl ardaloedd eraill. Roedd yr adolygiadau hyn wedi arwain at newidiadau yn y ffyrdd yr oedd y gwaith ailsefydlu yn cael ei gynnal.

Roedd enghreifftiau o'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- y pwynt yr oedd y gweithwyr ailsefydlu yn cysylltu â'r bobl ifanc
- penderfyniadau am bwy fyddai'n mynychu cyfarfodydd o fewn yr ystâd ddiogel i nodi anghenion pobl ifanc a sicrhau eu bod yn cael eu cwrdd ar gael eu rhyddhau
- cyflwyno hyfforddiant staff ar natur a ffocws gwaith ailsefydlu ac ar y ddeddfwriaeth, polisi a strategaeth sy'n sail iddo
- dyrannu cyfrifoldeb am weithgareddau ailsefydlu i wahanol aelodau'r staff
- newidiadau yn ffocws rôl y gweithiwr ailsefydlu.

Roedd un o'r ardaloedd peilot yn bwriadu defnyddio methodoleg astudiaeth achos i nodi effaith y gwaith ailsefydlu a wnaed ar bobl ifanc unigol y cafodd y gwaith ailsefydlu ddeilliannau gwahanol iawn iddynt.

## 10.5 Ymrwymo adnoddau

Defnyddiodd yr YOTs oedd yn cymryd rhan y cyllid ailsefydlu mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys:

- sicrhau tai mwy priodol; roedd hyn i bob pwrpas wedi atal y defnydd o lety gwely a brecwast heb gefnogaeth lle roedd y bobl ifanc yn hawdd eu niweidio
- prynu eitemau fel dillad, dodrefn i'r cartref a chyfarpar
- talu am hyfforddiant staff mewn meysydd arbenigol
- cefnogi gweithwyr ailsefydlu a staff presennol i gyflwyno cefnogaeth ailsefydlu bellach
- darparu gweithgareddau dargyfeiriol, naill ai drwy gyrsiau parhaus neu ddigwyddiadau ad-hoc unigol oedd yn cyflwyno defnydd mwy positif o amser hamdden pobl ifanc, a chyfleoedd i feithrin agweddau a hunanbarch positif.

Roedd RSPs ym mhob ardal wedi annog asiantaethau i ymrwymo adnoddau i ailsefydlu pobl ifanc. Roedd hyn wedi cymryd mwy o amser mewn rhai ardaloedd nac mewn eraill. Roedd llawer o'r rhai gafodd gyfweliad yn teimlo bod yn gefnogaeth ailsefydlu a roddwyd i'r bobl ifanc drwy'r cynllun ailsefydlu wedi dod â gwerth ychwanegol drwy well cynllunio a chydlynu yn y ffordd y darparwyd adnoddau a chefnogaeth.

Pwysleisiodd y rheiny oedd ynghlwm wrth gyflwyno'r gwaith ailsefydlu ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos yr angen i sicrhau bod yr YOTs yn gallu defnyddio'r cyllid ailsefydlu yn hyblyg. Roedd hyn yn eu galluogi i ymateb i anghenion pobl ifanc mewn ffordd amserol wedi'i theilwra, cyn i broblemau gynyddu.

## 10.6 Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc

Roedd troseddu ymhlith pobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot wedi lleihau'n sylweddol yn yr holl ardaloedd astudiaeth achos. Roedd difrifoldeb eu troseddu hefyd wedi lleihau. Dywedodd lawer o'r rhai gafodd gyfweliad nad oedd yn bosib priodoli'r newidiadau hyn i'r gwaith ailsefydlu

pellach a wnaed gyda'r bobl ifanc drwy'r cynlluniau yn unig, ond ei fod wedi cyfrannu atynt.

Yn ogystal, roedd pobl ifanc wedi cyflawni'r deilliannau gwell canlynol o ganlyniad i'r gefnogaeth ailsefydlu well a ddarparwyd iddynt drwy'r cynllun peilot:

- llai o gamddefnyddio sylweddau, neu geisio help am broblemau camddefnyddio sylweddau
- gwell perthnasoedd gyda theuluoedd a chymheiriaid
- datblygu diddordebau hamdden newydd a mwy positif
- sicrhau llety diogel a phriodol ar ryddhau o gaethiwed
- sicrhau lleoedd mewn colegau neu gyda darparwyr hyfforddiant, neu ddechrau ar gyflogaeth gyflogedig
- cynyddu hunanbarch a hunanhyder.

Roedd y personél a gafodd gyfweliad yn teimlo'n gwbl sicr na fyddai'r deilliannau hyn wedi cael eu cyflawni oni bai am y gefnogaeth ailsefydlu ychwanegol a ddarparwyd i'r bobl ifanc drwy'r cynlluniau ailsefydlu peilot. Ystyriwyd mai natur ddwys, at y diben y gefnogaeth a ddarparwyd iddynt oedd yn bennaf gyfrifol am y gwelliannau.

Roeddent yn teimlo ei fod yn hanfodol bod YOTs ac RSPs yn gallu cynllunio gwaith o'r fath yn unol ag anghenion a diddordebau'r bobl ifanc. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith ar anghenion llety gan ymatebwyr ym mwyafrif yr ardaloedd peilot. Cyfeiriwyd at arferion blaenorol lle roedd pobl ifanc wedi cael eu gosod mewn llety anaddas heb gefnogaeth, a hynny'n aml ochr yn ochr â chyn-droseddwyr o oedolion.

Roedd rhanddeiliaid wedi'u hargyhoeddi am yr angen i ddechrau'r gwaith ailsefydlu yn gynnar yn ystod ymwneud pobl ifanc â'r YOT i fwyafu'r manteision i bobl ifanc.

Roedd barn yn amrywio ymhlith y rhai gafodd gyfweliad o gwmpas a ddylai pobl ifanc gymryd rhan yn y cynlluniau ailsefydlu fel amodau gorfodol eu trwydded, neu a ddylai cymryd rhan fod yn wirfoddol. Roedd y rheiny oedd yn

teimlo y dylai fod yn orfodol yn dweud hynny oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai pobl ifanc yn cymryd rhan fel arall. Fodd bynnag, roedd rhai pobl ifanc nad oeddent am gael eu cysylltu â'r YOTs mewn unrhyw ffordd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o gaethiwed.

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod fod y cynlluniau peilot yn cefnogi nifer bach iawn o bobl ifanc yn unig. Nodwyd cost darparu'r gefnogaeth hon. Fodd bynnag, roedd angen ystyried hyn yn erbyn y gost uwch pan fyddai pobl ifanc yn cael eu hailarestio, wynebu achos, ac o bosib dychwelyd i gaethiwed, a chost ehangach trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n anos ei feintioli.

**<u>Canfyddiadau allweddol: yr holl astudiaethau achos</u>**

**Yr RSPs: strwythur a gweithrediad**

Sefydlwyd RSPs ym mhob un o'r 6 ardal astudiaeth achos. Ychwanegodd pedair ardal ailsefydlu i baneli oedd yn bodoli eisoes, a sefydlodd dwy ardal baneli ailsefydlu ar wahân. Yn rhan fwyaf yr ardaloedd, roedd aelodau'n teimlo bod yr asiantaethau cywir wedi'u cynrychioli ar y panel, a bod ganddynt yr awdurdod digonol. Cafodd dwy ardal broblemau cychwynnol gydag aelodau â diffyg pwerau gwneud penderfyniadau. Ar y cyfan, roedd yr RSPs yn cael eu rhedeg yn dda ac yn effeithiol. Roedd ymrwymiad ac ymwneud asiantaethau partner yn anwastad ar draws y 6 YOT. Mewn YOTs oedd yn gweithredu ar draws dau ALl, wynebwyd rhai problemau oherwydd gwahanol lefelau o ymwneud gan awdurdodau unigol.

**Y gweithiwr cefnogi ailsefydlu**

Roedd pedwar o'r chwe YOT astudiaeth achos wedi cyflogi gweithwyr ailsefydlu ac roedd dau heb wneud hynny. Lle y'u penodwyd, roedd eu rolau yn amrywio'n sylweddol. Roedd eiriol ar ran pobl ifanc yn nodwedd gyffredin, fodd bynnag. Yn nhri o'r YOTs, gwnaeth y gweithiwr ailsefydlu waith un i un gyda phobl ifanc yn bennaf, ond yn y llall, roedd y gweithiwr wedi symud ymlaen o wneud gwaith unigol i wneud gwaith grŵp ISS yn unig. Roedd gwneud gwaith grŵp yn unig wedi lleihau effaith ei rôl, yn ôl rhai gafodd gyfweliad.

**Y cyrff adolygu**

Roedd gan ddau o'r chwe YOT swyddogaeth adolygu bellach. Cynhaliwyd adolygiadau llai ffurfiol gan yr YOTs eraill. Roedd y rhain wedi arwain at

newidiadau yn y gwaith ailsefydlu, fel y pwynt lle yr oedd y gweithwyr ailsefydlu wedi ymgysylltu â'r bobl ifanc; pa staff oedd yn ymweld ag ystâdau diogel; gweithredu hyfforddiant staff; newidiadau o ran dosbarthu cyfrifoldeb am waith ailsefydlu; a newidiadau yn rôl y gweithiwr ailsefydlu.

**Cynlluniau ailsefydlu: ymrwymo adnoddau**

Defnyddiodd pob YOT y cyllid ailsefydlu yn wahanol. Roedd rhai yn ei ddefnyddio i gefnogi gweithwyr sesiynol i gyflwyno cefnogaeth ailsefydlu. Prynodd un YOT eitemau fel dodrefn a dillad i bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Talodd eraill am hyfforddiant staff a darparu gweithgareddau dargyfeiriol a chefnogi. Pwysleisiodd y rhai gafodd gyfweliad yr angen i YOTs allu defnyddio'r cyllid yn hyblyg i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Ar y cyfan, roedd asiantaethau partner wedi ymrwymo adnoddau i ailsefydlu yn gyfartal, ond roedd hyn wedi cymryd mwy o amser i wreiddio mewn rhai ardaloedd nac eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu**

Roedd gweithio mewn partneriaeth o gwmpas ailsefydlu wedi gwella o ganlyniad i'r cynlluniau peilot a'r RSPs ym mhob ardal. Roedd llai o weithio 'silo' yn amlwg rhwng asiantaethau, ac roedd cyfathrebu wedi gwella. Roedd y cynlluniau wedi blaenoriaethu ailsefydlu ymhlith asiantaethau partner, ac wedi hwyluso eu dealltwriaeth o rolau eraill. Mewn dwy ardal, er bod gweithio mewn partneriaeth wedi gwella, roedd gwelliannau yn llai amlwg nac yn yr ardaloedd eraill.

**Cynlluniau ailsefydlu: gwella deilliannau i bobl ifanc**

Roedd cyfraddau caethiwed wedi gostwng yn sylweddol ar draws yr holl YOTs oedd yn cymryd rhan, er ei fod yn anodd cysylltu hyn yn uniongyrchol â'r gwaith ailsefydlu a wnaed o dan y cynlluniau. Roedd aildroseddu wedi digwydd yn y grwpiau ymyrraeth a chymhariaeth. Nid yw hyn yn syndod, gan fod grwpiau cymhariaeth hefyd wedi derbyn cefnogaeth (ond nid hynny a ddarparwyd o dan y cynllun RSP). Rhwystrwyd dadansoddiad o aildroseddu hefyd gan ddata coll. Roedd y cynlluniau peilot ym mhob ardal wedi gwella ystod o ddeilliannau eraill i bobl ifanc. Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad na fyddai wedi bod yn bosib cyflwyno dwysedd y gefnogaeth ailsefydlu oni bai am y cyllid ailsefydlu. Roedd y gwell deilliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc yn cynnwys llai o gamddefnyddio sylweddau; mwy o ymgysylltiad ag ETE; gwell perthnasoedd teuluol; sicrhau llety addas; datblygu diddordebau hamdden positif; a gwella hunanbarch a hyder.

# 11. Casgliadau

### Gweithwyr ailsefydlu a'u rôl

Yn yr holl astudiaethau achos roedd aelod o staff yn gweithio gyda'r bobl ifanc i arwain ar waith cysylltiedig ag ailsefydlu ac yn rhan fwyaf yr achosion gweithiwr ailsefydlu dynodedig oedd hwn. Roedd rôl yr RSWs yn amrywio, a daeth deiliaid y swyddi o wahanol gefndiroedd. Fodd bynnag, arsylwyd yr arfer mwyaf effeithiol pan oeddent wedi datblygu perthynas bositif gyda'r bobl ifanc, lle roeddent yn deall ac yn uniaethu ag anghenion y bobl ifanc, a lle roeddent yn gallu rhoi strategaethau effeithiol yn eu lle i gwrdd â'r anghenion hynny.

Roedd yr union fodelau ar gyfer cyflawni hyn yn amrywio yn ôl penderfyniadau lleol. Roeddent yn cynnwys defnyddio personél YOT profiadol a phenodiadau newydd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o gefndir cyfiawnder ieuenctid er yr oedd rhai yn weithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid hyfforddedig. Fel y nodwyd ym Mhennod 10, roedd y staff oedd yn arwain ar ailsefydlu yn chwarae rolau allweddol wrth gefnogi pobl eraill, er enghraifft drwy ddarparu eiriolaeth, brocera a chyfryngu. Mae'r data ansoddol a meintiol yn awgrymu bod y bobl ifanc dan sylw wedi elwa ar yr ymyrraeth o dan bob un o'r modelau a fabwysiadwyd. Nid oedd yn gwneud gwahaniaeth p'un ai oedd yr aelod o staff oedd yn arwain ar y gwaith ailsefydlu yn RSW dynodedig, dim ond bod deilydd y swydd yn ymgymryd â gwaith un i un i gefnogi'r bobl ifanc, cymryd diddordeb yn eu lles, dangos y ffordd i wasanaethau, eirioli ar eu rhan, a chyfryngu gyda theuluoedd neu ofalwyr.

Roedd rôl y staff oedd yn arwain  gwaith ailsefydlu yn wahanol ac ni ddylid ei drysu gyda'r gwaith a wneir gan Weithwyr Goruchwyliaeth a Chefnogaeth neu swyddogion DTO. Roedd yr olaf yn cyflawni rolau oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ddedfryd a gyflwynwyd gan y system gyfiawnder ac roedd eu perthynas gyda'r bobl ifanc yn wahanol iawn i'r hynny yr oedd angen i swyddogion ailsefydlu ei datblygu er mwyn i'w gwaith fod yn effeithiol. Er mwyn i ailsefydlu fod yn llwyddiannus, roedd angen iddo gael ei weld fel

rhywbeth oedd yn wahanol i ddedfryd. Roedd angen i’r person oedd yn arwain ar ailsefydlu ddatblygu perthynas gyda’r person ifanc, yn rhydd o unrhyw rôl oedd yn ymwneud â gorfodi gofyniad a orfodwyd gan y system gyfiawnder.

Fodd bynnag, roedd gwaith ailsefydlu llwyddiannus yn adeiladu ar y gwaith a ymgymerwyd gan Weithwyr Goruchwyliaeth a Chefnogaeth  a Swyddogion DTO, ac yn cydnabod y cyfraniad yr oedd eu swyddogaethau cefnogi wedi eu gwneud i les y bobl ifanc, a’u helpu i symud ymlaen i mewn i’r broses ailsefydlu. Roedd gwaith ailsefydlu:

- yn cynnig ffordd o sicrhau bod cefnogaeth briodol i bobl ifanc yn parhau am beth amser yn unol â’r hyn oedd yn briodol i amgylchiadau pob person ifanc ar ôl i’w dedfrydau ddod i ben
- yn golygu eu bod yn cael eu cefnogi gan unigolion yr oeddent wedi adeiladu perthynas â hwy yn ystod eu dedfryd
- yn golygu nad oeddent yn cael eu gadael heb gefnogaeth ar gyfnod hollbwysig ar ôl i’w hymwneud â’r system gyfiawnder ddod i ben yn ffurfiol.

Roedd rhai pobl ifanc nad oeddent yn derbyn y gefnogaeth ailsefydlu gan eu bod yn ei weld fel rhan o ddedfryd neu ymwneud â’r system gyfiawnder. Roedd llawer yn dibynnu ar ansawdd y berthynas a adeiladwyd gan yr aelod o staff oedd yn arwain ar ailsefydlu. Roedd angen i’r berthynas hon ddechrau’n gynnar yn ystod ymwneud y prson ifanc â’r system gyfiawnder (er enghraifft ar y cam PSR) a’i datblygu o’r man hwnnw. Yn rhan fwyaf yr achosion roedd hyn yn golygu cynnal perthynas gyda phobl ifanc drwy gydol eu hymwneud â’r system gyfiawnder, yn cynnwys ymweld â phobl ifanc o fewn yr ystâd ddiogel. Roedd angen rheoli llwyth gwaith yn ofalus er mwyn galluogi cynnal cyswllt o’r fath.

Roedd heriau meithrin y berthynas arbennig oedd ei hangen yn sylweddol ac yn galw am hyblygrwydd ar ran y staff oedd yn arwain ar ailsefydlu a pharodrwydd i ymgysylltu ar ran pob person ifanc. Roedd hyn yn galw am ymagwedd at ailsefydlu oedd yn cymell pobl ifanc, yn rhoi ymdeimlad o bwrpas iddynt ac agor eu llygaid i’w potensial eu hunain. Roedd rôl cefnogaeth ailsefydlu wrth oresgyn teimladau negyddol, neu nad oedd modd newid eu ffawd, yn hanfodol felly er mwyn cael effaith ar fywydau’r bobl ifanc.

**Gweithio amlasiantaeth effeithiol**

Roedd cynllunio cefnogi ailsefydlu yn effeithiol yn dibynnu ar y graddau yr oedd yr holl asiantaethau perthnasol yn cymryd rhan mewn trafodaethau am achosion unigol ac a oedd gan y rheiny a fynychodd gyfarfodydd ddealltwriaeth o ba adnoddau yr oedd angen eu hymrwymo. Roedd angen hefyd iddynt gael yr awdurdod o fewn eu sefydliadau i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gweithredu. Roedd derbyn ymroddiad rhanddeiliaid perthnasol ar lefel ddigonol o awdurdod yn agwedd allweddol ar lwyddiant y gwaith ailsefydlu. Nododd yr astudiaethau achos po uchaf y lefel o ymgysylltiad, y mwyaf effeithiol y teimlwyd yr oedd gan y bobl oedd yn cymryd rhan.  Dyma'r sefyllfa er gwaethaf a oedd YOTs yn gweithio mewn ALI unigol neu yn gweithio ar draws dau awdurdod. Nid oedd patrwm penodol yn y graddau yr oedd ALlau (neu asiantaethau eraill yn yr ardaloedd hynny) yn ymgysylltu â'r broses ailsefydlu. Efallai byddai staff mewn un adran yn yr ALI yn ymgysylltu mwy na'u cydweithwyr cyfatebol mewn ALl arall; fodd bynnag, efallai mai'r gwrthwyneb fyddai'n wir mewn perthynas ag adran arall yn yr un ALl. Roedd yn bwysig darbwyllo pob sefydliad (ALl, Byrddau Iechyd Lleol, Darparwyr Tai Cymdeithasol, yr heddlu ac ati) ar y lefel uchaf bosib o bwysigrwydd gwaith ailsefydlu. Roedd angen i gytundebau i gyfrannu gael eu deall a'u gorfodi o fewn sefydliadau.

Er mwyn bod yn effeithiol dylai ymrwymiad i weithio amlasiantaeth fod yn sail i hyn, a hynny'n cael ei drosi'n arfer drwy brotocolau cytunedig. Roedd hyn yn gofyn am barodrwydd i fod yn agored, rhannu gwybodaeth a bod yn barod i fod yn hyblyg am ba asiantaethau neu adrannau oedd yn arwain wrth gwrdd ag anghenion person ifanc. Roedd angen i'r rheiny oedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau gytuno ar faterion fel pwy oedd yn gyfrifol am dalu am wasanaethau penodol ac am weithredu'r cytundebau hynny. Roedd hyn yn galw am unigolion gydag awdurdod digonol i ymrwymo eu sefydliadau i gamau gweithredu penodol, wedi'u cyfateb gydag adnoddau.

**Strwythur trefniadaethol**

Roedd pob ardal beilot wedi datblygu RSP neu gorff cyfatebol mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Fel y nodwyd ym Mhennod 10, roedd y rhain yn amrywio ond gellir categoreiddio’r modelau fel a ganlyn:

- Defnyddio fforwm presennol
- Creu corff newydd
- Defnyddio corff newydd ochr yn ochr ag un newydd
- Creu corff newydd a’i integreiddio i strwythurau eraill.

Mae’r dystiolaeth yn awgrymu y teimlwyd bod pobl model yn ymateb i anghenion lleol ond nad oedd unrhyw fodel yn gwbl rydd rhag unrhyw anhawster. Er enghraifft, mewn un ardal cafwyd nad oedd creu strwythur newydd wedi bod yn effeithiol a rhannwyd y gwaith rhwng panel oedd yn bodoli eisoes ac endid newydd; mewn man arall, roedd y defnydd o banel oedd yn bodoli eisoes wedi bod yn aflwyddiannus a chafodd corff newydd ei greu. Fodd bynnag, er nad oedd unrhyw dystiolaeth gref i awgrymu bod un model yn fwy effeithiol nag un arall, byddai profiad yr astudiaethau achos yn awgrymu bod gan RSPs effeithiol nodweddion cyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am hyblygrwydd ac y dylid datblygu strwythurau mewn ymateb i’r hyn oedd yn gweithio mewn cymdogaeth benodol. At hynny, roedd y strwythurau yn effeithiol dim ond os oedd y mewnbwn gan yr YOT yn cael ei gyfateb gan ymrwymiad gan randdeiliaid eraill i chwarae rhan lawn yn y gwaith. Roedd angen adolygu strwythurau a’u diwygio os dangoswyd nad oeddent yn gweithio.

**Cyfansoddiad yr RSP**

Roedd cyfansoddiad yr RSPs (neu gyrff cyfatebol) yn amrywio ar draws y chwe ardal er bod aelodaeth ‘graidd’ gyffredin oedd yn cynnwys yr YOTs eu hunain, yr heddlu ac adrannau tai’r ALl. Roedd hefyd yn gyffredin i gael cynrychiolwyr CAMHs, diogelwch cymunedol, addysg a gwasanaeth ieuenctid yr ALl ar y paneli. Roedd nifer y cynrychiolwyr o bob sefydliad a’u lefel o awdurdod yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol, a’r strwythurau mewnol a ddefnyddiwyd gan bob un o’r rhanddeiliaid a gynrychiolwyd. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod RSPs yn effeithiol lle roedd eu haelodaeth graidd

hefyd yn cynnwys CAMHS, a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd cynnwys cynrychiolwyr o'r ystâd ddiogel yn fwy problematig; er ei fod yn fuddiol i staff fod yn rhan o'r trafodaethau am achosion unigol, ni fyddai'n ymarferol cynnwys cynrychiolwyr bob sefydliad diogel lle y lleolwyd person ifanc fel aelodau sefydlog pob Panel Ailsefydlu. Gallai Gwasanaethau Ieuenctid ALl fod â rhan helaethach mewn rhai meysydd nac eraill gan eu bod yn gweithio gyda'r YOT ar thema benodol.

Fel y nodwyd uchod, roedd gwahaniaethau yn y ffyrdd yr oedd YOTs yn defnyddio'r cyllid a ddyrannwyd ac roedd y rhain yn ymwneud â'r ffordd yr oedd timau unigol yn gweld yr anghenion o fewn eu hardaloedd. Mae'r dystiolaeth ansoddol a meintiol yn awgrymu bod gwariant i gefnogi gweithgareddau dargyfeiriol ac i brynu deunyddiau i'r bobl ifanc yn digwydd mewn ardaloedd lle roedd canran y grŵp ymyrraeth oedd yn aildroseddu ar ôl yr ymyrraeth ymysg yr isaf. Roedd tystiolaeth hefyd gan randdeiliaid o fewn YOTs, yn cynnwys y bobl ifanc eu hunain, yn awgrymu bod gweithgareddau dargyfeiriol yn hyrwyddo ymgysylltiad ac ymddygiad positif. Nid yw'n glir a fyddai gweithgareddau o'r fath yn gynaliadwy heb gyllid ychwanegol a gafwyd drwy ailsefydlu. Mae hefyd angen cwestiynu a ddylid defnyddio cyllid i gefnogi darpariaeth o'r fath, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y gefnogaeth, brocera a chyfryngu personol oedd yn ffurfio nodweddion allweddol ailsefydlu effeithiol.

Ar yr un pryd, roedd rhai YOTs unigol wedi defnyddio cyllid i gefnogi hyfforddiant staff mewn meysydd oedd yn gysylltiedig â nodweddion y bobl ifanc oedd yn ymwneud â'r gwaith ailsefydlu. Datblygodd hyn eu dealltwriaeth o'r problemau oedd yn wynebu'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy, ond eto nid oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi ailsefydlu.

Roedd y ddau YOT oedd â Swyddogaeth Adolygu Bellach (ERF) wedi monitro'r rhesymau yr oedd plentyn yn mynd i gaethiwed yn ôl y gofyniad iddynt wneud hynny er mwyn cwrdd â gofynion yr ERF. Gwnaethon nhw ganolbwyntio hefyd ar achosion lle y cafodd dedfryd o gaethiwed ei osgoi er mwyn monitro prosesau a nodi arfer da. Roedd yr ERF yn cael ei ddefnyddio i

gefnogi arfer myfyriol seiliedig ar dystiolaeth oedd yn hysbysu gwaith yr YOT yn gyffredinol. Adolygodd ardaloedd eraill y ffordd yr oedd y Panel Ailsefydlu yn gweithredu a phriodolwyd newidiadau yn y ffordd yr oeddent yn gweithredu i'r prosesau hyn.  Roedd hwn yn faes yr oedd rhan fwyaf yr YOTs yn bwriadu'i ddatblygu ymhellach.

# 12. Argymhellion

**Gweithredu RSPs ac ymrwymo adnoddau**

Mae gweithio amlasiantaeth effeithiol yn angenrheidiol er mwyn cael sail i waith ailsefydlu. Dylid seilio hyn ar ymgysylltiad yr holl asiantaethau perthnasol a chynnwys staff gyda lefel ddigonol o awdurdod i:

- ymrwymo eu sefydliadau i gamau gweithredu penodol
- ymrwymo adnoddau i weithredu'r camau hynny.

Dylid cynrychioli YOTs, yr heddlu, darparwyr tai cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, CAMHS a darparwyr addysg ar RSPs. Mae angen cydgysylltu â'r ystâd ddiogel a dylid arwain hyn gan aelod o staff dynodedig.

Dylid defnyddio cyllid ailsefydlu dynodedig mewn ffyrdd sy'n cwrdd ag anghenion pob person ifanc unigol. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio i ddisodli cefnogaeth y mae gan y bobl ifanc yr hawl i'w derbyn gan ffynonellau eraill.

Dylai gwaith RSPs fod yn strwythuredig i sicrhau'r defnydd gorau o amser. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys strwythuro'r agenda fel bod gofyn i aelodau fynychu ar gyfer yr eitemau hynny sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb yn unig.

Dylai gwaith unigol un i un y Gweithwyr Cefnogi Ailsefydlu a'r Gweithwyr Cefnogi Goruchwylio gyda phobl ifanc fod yn sail i waith ailsefydlu. Dylid pennu'n lleol yr union fodel ar gyfer gwneud hyn a natur y personél fyddai'n cymryd rhan. Fodd bynnag, dylai hyn fod o fewn fframwaith cenedlaethol o ddisgwyliadau am swyddogaeth a phwrpas gwaith ailsefydlu.

Dylai ffocws gwaith ailsefydlu barhau i fod i sicrhau bod anghenion unigol y bobl ifanc yn cael eu cwrdd. Dylai hyn gynnwys brocera, cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau a sicrhau bod anghenion ymarferol yn cael eu cwrdd.

Dylai YOTs barhau i sicrhau bod gwaith yr aelod o staff sy'n arwain ar ailsefydlu ar wahân i waith personél y mae eu rolau yn ymwneud â'r ddedfryd a roddwyd i bobl ifanc, a dylid ei gweld felly. Er bod rôl gefnogi gweithwyr Goruchwyliaeth a Chefnogaeth yn ganolog i'w cylchoedd gorchwyl, maent ar wahân i waith y person sy'n arwain ar ailsefydlu ar ôl i ddedfryd ddod i ben.

Dylai staff sy'n arwain ar ailsefydlu ymgysylltu â'r bobl ifanc yn gynnar yn ystod eu hymwneud â'r system gyfiawnder, gan ddechrau ar y cam PSR. Dylai hyn arwain ar ddatblygu cynllun ailsefydlu strwythuredig sy'n ystyried dyheadau pobl ifanc a nodi'r adnoddau/cefnogaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i ailsefydlu. Dylai'r cyswllt gynnwys ymweld â phobl a ddelir yn yr ystâd ddiogel fel rhan o'r rhaglen ailsefydlu strwythuredig, lle y bo'n berthnasol.

Dylai ffocws ar hyrwyddo hunanhyder a hunanwerth ymhlith y bobl ifanc fod yn ganolog i rôl y broses ailsefydlu.

**Y corff adolygu**

Dylai effeithiolrwydd gwaith ailsefydlu, boed RSP neu'n gorff perthnasol, gael ei adolygu yn systematig gan bob YOT unigol. Dylid adolygu achosion penodol er mwyn dysgu gwersi a nodi arfer effeithiol. Mae angen casglu'r dystiolaeth o adolygiadau o'r fath a'i dadansoddi yn systematig a dylid ei defnyddio i wella cyflwyno ar draws pob asiantaeth. Yn benodol dylai'r gwaith gynnwys archwilio a yw'r holl asiantaethau perthnasol yn cwrdd â'u cyfrifoldebau llawn.

**Deilliannau i bobl ifanc**

Dylai YOTs archwilio'r ystod bresennol o weithgareddau dargyfeiriol a gynigir yn eu hardaloedd er mwyn osgoi dyblygu. Lle y cyllidir gweithgareddau dargyfeiriol o gyllid ailsefydlu, dylid nodi tystiolaeth gref a chlir o'r angen.

Dylai YOTs gasglu data Asset a data arall mewn ffordd fwy systematig a chynhwysfawr. Mae cwblhau'r asesiadau yn llawn yn hanfodol er mwyn i

benderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ac adolygu effeithiol ddigwydd yn y dyfodol.